Department for Energy Security & Net Zero

# Datganiad Polisi Cenedlaethol Newydd ar Niwclear ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear

## Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd

Ionawr 2024

© Hawlfraint y Goron 2024

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol - Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

# Cynnwys


Geirfa ___ 5

1. Cyflwyniad ___ 12

1.1 Pwrpas y ddogfen hon ___ 12

1.2 Cefndir a chyd-destun y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar Niwclear ___ 12

1.3 Arfarniad o Gynaliadwyedd ___ 14

1.4 Ymgynghoriad ___ 15

2. Dull ar gyfer ymdrin â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ___ 16

2.1 Cyflwyniad ___ 16

2.2 Proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ___ 17

2.3 Cwmpas daearyddol ac amserol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ___ 19

2.4 Cwmpas technegol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ___ 21

2.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ___ 23

3. Polisïau, Cynlluniau a Rhaglenni Perthnasol ___ 25

3.1 Cyflwyniad ___ 25

3.2 Crynodeb o'r Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni a adolygwyd ___ 25

3.3 Themâu'r Amgylchedd ___ 37

Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol ___ 37

Geoamrywiaeth a phrosesau Arfordirol ___ 38

Allyriadau nwyon tŷ gwydr ___ 38

Addasu i Hinsawdd sy'n Newid a Llifogydd ___ 38

Ansawdd Aer a Sŵn ___ 38

Adnoddau Dŵr ___ 39

Defnydd tir, Pridd ac Amaethyddiaeth ___ 39

Treftadaeth Ddiwylliannol ___ 40

Tirweddau a Threfluniau ___ 40

Adnoddau Naturiol a Gwastraff ___ 41

3.4 Themâu Economaidd ___ 41

3.5 Themâu Cymdeithasol ___ 41

4. Gwybodaeth Sylfaenol ___ 43

4.1 Cyflwyniad ___ 43

4.2 Crynodeb o'r wybodaeth sylfaenol genedlaethol ____ 43
5. Materion Cynaliadwyedd Allweddol ____ 51
5.1 Cyflwyniad ____ 51
5.2 Crynodeb o faterion, goblygiadau a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol ____ 52
6. Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ____ 105
6.1 Rhagarweiniad ____ 105
6.2 Datblygu amcanion cynaliadwyedd a chwestiynau arweiniol ____ 105
6.3 Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ____ 106
6.4 Rhoi Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar Waith ____ 115
7. Y camau nesaf ____ 117

# Geirfa

| Talfyriad | Term |
|---|---|
| ALC | Dosbarthiad Tir Amaethyddol |
| AMR | Adweithydd Modiwlaidd Datblygedig |
| ANT | Technoleg Niwclear Ddatblygedig |
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| AoS | Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| AQMA | Ardal Rheoli Ansawdd Aer |
| BAP | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth |
| BAT | Technegau Gorau sydd ar Gael |
| BECCS | Bio-ynni gyda Dal a Storio Carbon |
| BEIS | Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol |
| BIM | Rheoli Gwybodaeth am Adeiladau |
| BMV | Gorau a Mwyaf Amlbwrpas |
| BNG | Enillion Net Bioamrywiaeth |
| CCA | Deddf Newid yn yr Hinsawdd |
| CCC | Pwyllgor ar Newid Hinsawdd |
| CCR | Barod i Ddal Carbon |
| CCS | Dal a Storio Carbon |

| | |
|---|---|
| CCUS | Dal, Defnyddio a Storio Carbon |
| CfD | Contractau ar gyfer Gwahaniaeth |
| CHP | Gwres a phŵer cyfunedig |
| CO2 | Carbon Deuocsid |
| CPS | Cymorth ar gyfer Prisiau Carbon |
| DCO | Gorchymyn Cydsyniad Datblygu |
| DECC | Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd |
| DESNZ | Adran Diogelwch Ynni a Sero Net |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Amaeth a Materion Gwledig |
| DfT | Yr Adran Drafnidiaeth |
| DTI | Yr Adran Masnach a Diwydiant |
| DWSZ | Parth Diogelu Dŵr Yfed |
| EA | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| EIA | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| EfW | Ynni o Wastraff |
| EqIA | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| EMF | Maes Electromagnetig |
| EN1-EN6 | DPC Cyffredinol (EN-1) a phump DPC sy'n benodol i Dechnoleg. |
| EP | Trwyddedu Amgylcheddol |

| | |
|---|---|
| EPR | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol |
| EPS | Safonau Perfformiad Allyriadau |
| EQLS | Arolwg Ansawdd Bywyd Ewropeaidd |
| ES | Datganiad Amgylcheddol |
| ETS | Cynllun Masnachu Gollyngiadau |
| EU | Yr Undeb Ewropeaidd |
| EV | Cerbyd Trydan |
| FCERM | Rheoli Peryglon Llifogydd ac Erydu Arfordirol |
| FRA | Asesiad Risg Llifogydd |
| GDF | Cyfleuster Gwaredu Daearegol |
| GDP | Cynnyrch Domestig Gros |
| GES | Statws Amgylcheddol Da |
| GHG | Nwy Tŷ Gwydr |
| GVA | Gwerth Ychwanegol Gros |
| GW | Giga Wat |
| HDD | Drilio Cyfeiriadol Llorweddol |
| HGV | Cerbyd Nwyddau Trwm |
| HIA | Asesiad o'r Effaith ar Iechyd |
| HMT | Trysorlys EF |

| | |
|---|---|
| HRA | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| IED | Cyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol |
| IPCC | Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd |
| kV | Cilo Folt |
| kWh | Cilo Wat awr |
| LDD | Dogfen Datblygu Lleol |
| LNG | Nwy Naturiol Hylifedig |
| LNR | Gwarchodfa Natur Leol |
| LVIA | Asesiad o’r Effaith ar y Dirwedd a’r Effaith Weledol |
| LWS | Safle Bywyd Gwyllt Lleol |
| Mcm | Miliwn metr ciwbig safonol |
| MCZ | Parth Cadwraeth Morol |
| MMO | Y Sefydliad Rheoli Morol |
| MNR | Gwarchodfeydd Natur Morol |
| MNW | Mesur Llesiant Cenedlaethol |
| MPA | Ardal Forol Warchodedig |
| MSFD | Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol |
| Mt | Mega tunnell |
| MW | Megawat |

| | |
|---|---|
| MWe | Cyfateb i Megawat |
| NDC | Cyfraniad a Bennir yn Genedlaethol |
| NE | Natural England |
| NGCC | Cylch Cyfun Nwy Naturiol |
| NMVOC | Cyfansoddyn Organig Anweddol nad yw’n Fethan |
| NNR | Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol |
| NOx | Ocsidau Nitrogen |
| NPPF | Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol |
| NPPG | Canllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol |
| NPS | Datganiad Polisi Cenedlaethol |
| NRW | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| NSIP | Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| NVZ | Parth Perygl Nitradau |
| NZ | Sero Net |
| ODPM | Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| PPP | Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni |
| PV | Ffotofoltäig |
| RBD | Ardal Basn Afon |

| | |
|---|---|
| RBMP | Cynllun Rheoli Basn Afon |
| RIGS | Safle Daearegol Pwysig Rhanbarthol |
| RO | Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy |
| SA | Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| SAC | Ardaloedd Cadwraeth Arbennig |
| SAM | Heneb Restredig |
| SCI | Safleoedd o Bwys i'r Gymuned |
| SCR | Gostyngiad Catalytig Dethol |
| SEA | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| SF6 | Sylffwr Hecsafflẅorid |
| SLVIA | Asesiad o'r Effaith ar y Morwedd a'r Dirwedd a'r Effaith Weledol |
| SMR | Adweithydd Modiwlar Bach |
| SNCI | Safle o Ddiddordeb Cadwraeth Natur |
| SO2 | Sylffwr Deuocsid |
| SPA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| SPZ | Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr |
| SSSI | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SuDS | Systemau Draenio Cynaliadwy |
| TAN | Nodyn Cyngor Technegol |

| | |
|---|---|
| UK | Y Deyrnas Unedig |
| UKCIP | Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU |
| UKETS | Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU |
| WFD | Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr |
| WfH | Gwastraff o Gartrefi |
| WHS | Safle Treftadaeth y Byd |

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Pwrpas y ddogfen hon

Mae cwmpas Arfarniad o Gynaliadwyedd y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar Niwclear wedi'i nodi yn yr Adroddiad Cwmpasu hwn, sydd wedi'i baratoi gan Atkins Limited ar ran yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net.

Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori ac mae'n cynnwys y manylion canlynol:

- Trosolwg o gefndir a chyd-destun y Datganiad Polisi Cenedlaethol;
- Trosolwg o'r dull ar gyfer ymdrin â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd;
- Y berthynas rhwng y Datganiad Polisi Cenedlaethol a pholisïau, cynlluniau a rhaglenni eraill;
- Nodi materion cynaliadwyedd allweddol sy'n codi, a'r goblygiadau a'r cyfleoedd ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd;
- Cyfres o Amcanion drafft ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithiau cynaliadwyedd sylweddol tebygol o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol; a
- Gwybodaeth ynghylch y camau nesaf ym mhroses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

## 1.2 Cefndir a chyd-destun y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar Niwclear

Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn nodi amcanion a pholisi'r llywodraeth ar gyfer datblygu seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol mewn sector penodol ac yn darparu'r fframwaith y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ei ddefnyddio i wneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol ynghylch bwrw ymlaen â datblygiad seilwaith mawr ai peidio. Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn berthnasol i seilwaith a ddiffinnir fel "Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol" ac maent wedi'u dynodi o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Eu swyddogaeth yw nodi'n glir sut mae polisi'r llywodraeth yn berthnasol i gydsyniad datblygu, gan ddileu trafodaethau ynghylch rhinweddau polisi o'r fath o'r broses archwilio fel y gellir gwneud penderfyniadau ynghylch caniatâd ar sail ystyriaethau cynllunio yn unig.

Ar hyn o bryd mae chwe Datganiad Polisi Cenedlaethol yn berthnasol i ynni (EN-1 i EN-6) ac mae'r rhain yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr. EN-1 yw'r Datganiad Polisi Cenedlaethol cyffredinol ar gyfer pum Datganiad Polisi Cenedlaethol yn ymwneud â thechnoleg, gydag un yn benodol i niwclear (EN-6). EN-6, law yn llaw â'r EN-1 presennol, oedd y brif sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol niwclear tan yn ddiweddar. Mae EN-6 yn rhestru wyth safle a allai fod yn addas ar gyfer gorsafoedd ynni

niwclear newydd dros 1 GW gyda chapasiti un adweithydd. O'r wyth safle hyn, cafodd un orsaf ynni niwclear newydd (Hinkley Point C) ei chaniatáu o dan EN-6 ym mis Tachwedd 2012. Cafodd prosiect arall (Sizewell C) gydsyniad datblygu ym mis Gorffennaf 2022 o dan Adran 105 o Ddeddf Cynllunio 2008, yn hytrach nag EN-6, oherwydd bod dyddiad cau EN-6 i'w roi ar waith, sef 2025, nawr yn amhosibl ar gyfer unrhyw orsaf ynni niwclear newydd. Mae angen Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar gyfer niwclear i ddarparu polisi cynllunio ar gyfer defnyddio gorsafoedd ynni niwclear newydd y tu hwnt i 2025, er bod modd o hyd i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cydsyniad datblygu ar gyfer prosiectau niwclear o dan Adran 105 o Ddeddf Cynllunio 2008, gyda'r EN-6 presennol yn ystyriaeth bwysig a pherthnasol yn y broses gynllunio.

Ymgynghorodd y llywodraeth ar y meini prawf lleoli a'r broses ar gyfer Datganiad Polisi Cenedlaethol annibynnol newydd ar gyfer niwclear nad yw'n gysylltiedig ag EN-1 yn 2017/18. Ers hynny, mae safbwynt y llywodraeth ar niwclear wedi esblygu fel sydd wedi'i nodi yn y Cynllun 10 Pwynt ar gyfer Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd (2020), y Papur Gwyn ar Ynni (2020) a Strategaeth Diogelu Ffynonellau Ynni Prydain (2022). Yn y strategaeth olaf, amlinellodd y llywodraeth gynlluniau ar gyfer cynyddu'r defnydd o niwclear sifil i hyd at 24GW erbyn 2050 – dair gwaith yn fwy na'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd, gan gynrychioli hyd at 25% o'r galw am drydan a ragwelir yn y DU. Yn ddiweddar, yn Pweru Prydain (2023), ymrwymodd y llywodraeth i gyflwyno rhaglen o brosiectau niwclear newydd y tu hwnt i Hinkley Point C a Sizewell; sefydlu Great British Nuclear, gyda chyfrifoldeb i arwain y gwaith o gyflawni'r rhaglen niwclear newydd; lansio proses gystadleuol i ddewis y technolegau Adweithydd Modiwlar Bach gorau, gyda'r cam cyntaf yn dechrau ym mis Ebrill 2023; a chefnogi'r gwaith o ddatblygu Adweithyddion Modiwlaidd Datblygedig drwy'r Gronfa Niwclear Ddatblygedig fel bod modd cyflwyno'r prosiect arddangos ddechrau'r 2030au. Bydd Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar ymholltiad niwclear yn cael ei osod yng nghyd-destun y datblygiadau hyn, a'r achos angen ar gyfer ynni niwclear fel yr amlinellir yn yr EN-1 newydd.

Mewn proses gyfochrog, mae'r llywodraeth wrthi'n paratoi EN-1 newydd a phedwar Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar dechnoleg (EN-2 Seilwaith Cynhyrchu Nwy Naturiol, EN-3 Cynhyrchu Trydan Adnewyddadwy, EN-4 Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew, ac EN-5 Seilwaith Rhwydweithiau Trydan). Roedd y gyfres hon o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol yn destun ail ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar. Bydd y llywodraeth yn ystyried y sylwadau a geir yn ystod yr ail ymgynghoriad cyhoeddus, a bydd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn amodol ar gael sêl bendith y Senedd cyn y dynodiad terfynol a ddisgwylir cyn diwedd 2023.

Mae'r llywodraeth nawr wedi dechrau paratoi Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear (EN-7) ond nid yw'n bwriadu rhestru safleoedd penodol fel yn EN-6. Yn hytrach, bydd dull seiliedig ar feini prawf fel ym mhob un o'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol eraill ar dechnoleg (EN-2 i EN-5) yn berthnasol, er y gallai'r dull lleoli presennol o hyd newid yn unol â phenderfyniadau polisi ac ymgynghoriadau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae'r llywodraeth hefyd yn cynnig dileu'r dyddiad cau ar gyfer gweithredu mewn perthynas â gorsafoedd ynni niwclear newydd (a nodwyd yn EN-6) a nodi'r polisi ar gyfer Adweithyddion Modiwlar Bach ac Adweithyddion Modiwlaidd Datblygedig ochr yn ochr â gorsafoedd ynni niwclear dros 1GW gyda chapasiti un adweithydd. Ni fydd ymasiad niwclear yn cael ei gynnwys yn benodol yn y

Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn gan fod cynlluniau i fynd i'r afael â hyn mewn Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar wahân yn y dyfodol.

Mae'n bwysig nodi y bydd peth o'r dechnoleg Adweithyddion Modiwlaidd Datblygedig yn cynhyrchu gwres yn unig neu hydrogen yn unig fel allbwn. Nid yw technoleg o'r fath yn cael ei hystyried yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn. Fodd bynnag, bydd technoleg Adweithyddion Modiwlaidd Datblygedig sy'n cynhyrchu gwres ac allbwn trydanol (gwres a phŵer cyfunedig) yn cael ei chynnwys.

Ar ben hynny, mae'r llywodraeth yn ystyried cynnwys pob gorsaf cynhyrchu ynni niwclear yn y drefn cynllunio seilwaith genedlaethol yn Lloegr, gan gynnwys y rheini sy'n cynhyrchu dim ond gwres neu danwydd synthetig fel hydrogen, yn ogystal ag adweithyddion sydd ag allbwn cynhyrchu sy'n llai na throthwy Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o 50MW yn Lloegr. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau datganoledig i roi cydsyniad ar gyfer prosiectau ynni sydd ag allbwn cynhyrchu o rhwng 10MW a 350MW.

Ar hyn o bryd, mae'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net yn ystyried goblygiadau'r angen am ddiwygiadau o'r fath i Ddeddf Cynllunio 2008. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y polisi lleoli niwclear ac amser seneddol, efallai na ddaw unrhyw ddiwygiadau i Ddeddf Cynllunio 2008 i rym cyn dynodi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear.

Proses ar wahân sydd hefyd â goblygiadau i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yw rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a fydd yn cael ei gynhyrchu gan orsaf ynni niwclear newydd. Safbwynt polisi Llywodraeth y DU yw y bydd angen iddynt fod yn fodlon bod trefniadau effeithiol yn bodoli, neu y byddant yn bodoli, i reoli a gwaredu'r gwastraff a gynhyrchir cyn y rhoddir cydsyniad datblygu ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd. Nodwyd gwaredu daearegol fel yr ateb tymor hir mwyaf priodol ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd, a bydd lleoliad addas ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn cael ei bennu drwy broses sy'n seiliedig ar gydsyniad gyda'r llywodraeth a'i hasiantaethau yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau.

Paratowyd fersiwn gyfredol yr Adroddiad Cwmpasu gan dybio y bydd Adweithyddion Modiwlar Bach, Adweithyddion Modiwlaidd Datblygedig a gorsafoedd ynni niwclear dros 1GW gyda chapasiti un adweithydd yn dod o dan y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear.

## 1.3 Arfarniad o Gynaliadwyedd

Prif bwrpas Arfarniad o Gynaliadwyedd yw archwilio effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tebygol dynodi Datganiad Polisi Cenedlaethol. Os bydd effeithiau niweidiol sylweddol posibl yn cael eu canfod, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn argymell opsiynau ar gyfer osgoi neu liniaru effeithiau o'r fath. Fel hyn, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn helpu i lywio'r gwaith o baratoi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol i hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy.

Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd yn un o ofynion Deddf Cynllunio 2008 ac mae'n ymgorffori gofynion Asesiad Amgylcheddol Strategol y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 ("Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol"). Felly, mae'r Arfarniad o

Gynaliadwyedd yn ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol ochr yn ochr â'r effeithiau amgylcheddol y mae'n rhaid eu hasesu o dan Reoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae Pennod 2 yn rhoi rhagor o gyd-destun deddfwriaethol a thechnegol.

Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear yn cyd-fynd â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r EN-1 i EN-5 newydd, ond mae'n rhoi mwy o bwyslais ar faterion niwclear er mwyn sicrhau bod manylion y technolegau niwclear sy'n cael eu hyrwyddo yn cael sylw priodol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cam cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear. Gwnaed nifer o dasgau cwmpasu sy'n arwain at ddatblygu Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd o amcanion a chwestiynau arweiniol a ddefnyddir i asesu'r cynigion ar gyfer Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear yn eu herbyn.

## 1.4 Ymgynghoriad

Nod yr ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn yw sicrhau y bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gynhwysfawr ac yn gadarn o ran cefnogi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear drwy gasglu barn gynnar ynghylch sut dylid datblygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Ymgynghorir â nifer o sefydliadau, gan gynnwys y cyrff statudol sy'n ofynnol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (Natural England, Historic England ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr; Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw yng Nghymru; yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) yng Ngogledd Iwerddon; a Scottish Natural Heritage ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban).

Ymgynghorir hefyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) er mwyn sicrhau lefel uchel o graffu, manylder ac ehangder wrth weithredu.

Gofynnir am sylwadau ar sut y gellid gwella'r dulliau casglu tystiolaeth a'r fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd arfaethedig, a'u gwneud yn fwy clir. Efallai y bydd y cwestiynau isod yn cynorthwyo ymgyngoreion wrth ymateb:

- Cwestiwn 1: A hepgorwyd unrhyw bolisïau, cynlluniau neu raglenni sy'n berthnasol i waith cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd?
- C2: Ydych chi'n cytuno bod y data sylfaenol sydd wedi cael ei gasglu, neu a fydd yn cael ei gasglu, yn berthnasol ac yn ddigon manwl i gefnogi'r Arfarniad o Gynaliadwyedd?
- C3: Ydych chi'n cytuno â'r dewis o faterion cynaliadwyedd allweddol a'r diffiniadau ohonynt?

- C4: A oes unrhyw ddata gwaelodlin allweddol ar gael sy’n cael ei ddefnyddio, neu y gellid ei ddefnyddio, i gefnogi’r materion nad ydynt wedi cael eu nodi?
- C5: Ydych chi’n cytuno â’r goblygiadau a’r cyfleoedd a nodwyd ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol?
- C6: A yw amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a’r cwestiynau penderfynu’n darparu fframwaith cadarn ar gyfer asesu perfformiad cynaliadwyedd y Datganiad Polisi Cenedlaethol sydd ar y gweill?
- C7: Ydych chi’n cytuno bod cysoni graddfa asesu’r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd â graddfa’r Arfarniad o Gynaliadwyedd EN-1 i EN-5 yn ddull rhesymol?
- C8: Oes gennych chi ragor o awgrymiadau ynghylch cwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a’i asesiad arfaethedig o’r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd?

Ar ôl ymgynghori, bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd fel y bo’n briodol. Yna bydd fframwaith terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael ei ddefnyddio i asesu’r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd. Bydd Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael ei gynhyrchu i ddangos sut roedd y broses wedi dylanwadu ar y cynllun, a bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â’r Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft at ddibenion ymgynghori ymhellach.

# 2. Dull ar gyfer ymdrin â’r Arfarniad o Gynaliadwyedd

## 2.1 Cyflwyniad

Fel y nodwyd, mae Deddf Cynllunio 2008 yn nodi gofyniad bod yn rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd cyn dynodi Datganiad Polisi Cenedlaethol. Mae’r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cyflawni dau ofyniad ar yr un pryd:

- Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (fel y’u diwygiwyd), a elwir yn Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (ac sy’n deillio o’r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol - 2001/42/EC)[1], yn ei gwneud yn ofynnol, cyn mabwysiadu cynllun neu raglen sy’n sefydlu’r fframwaith ar gyfer cydsyniad datblygu, iddo fod yn destun ymgynghoriad ochr yn ochr ag adroddiad amgylcheddol sy’n nodi, yn disgrifio ac yn gwerthuso’r effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd drwy ei roi ar waith.

[1] Dylid nodi bod prosesau’r Asesiad Amgylcheddol Strategol a’r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn seiliedig ar Gyfarwyddebau’r Undeb Ewropeaidd (UE). Er bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr UE, mae’r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd perthnasol sy’n rhoi’r prosesau hyn ar waith yn dal i fod yn berthnasol adeg ysgrifennu’r Adroddiad Cwmpasu hwn.

- Mae Deddf Cynllunio 2008 yn mynnu bod Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd cyn eu dynodi. Mae cwmpas arfarniad o'r fath yn debyg i un adroddiad amgylcheddol o dan y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol, ond gyda mwy o bwyslais ar effeithiau cymdeithasol ac economaidd, ac yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy (a grynhoir yn aml fel sicrhau bod datblygiad yn diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain).

Drwy fynnu bod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael ei gynhyrchu ochr yn ochr â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol tra'u bod yn dal ar ffurf ddrafft, nod y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Ddeddf Cynllunio yw sicrhau bod ymgyngoreion yn gallu adolygu a chyflwyno sylwadau ar y Datganiadau Polisi Cenedlaethol gan ddeall yr hyn y byddai'n ei olygu o ran cynaliadwyedd amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach i adeiladu cenhedlaeth newydd o seilwaith ynni niwclear yn unol â phenderfyniadau a wneir ar geisiadau'r Ddeddf Cynllunio am gydsyniad datblygu a fydd yn cael eu penderfynu ar sail y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear.

Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd yn cael ei gynnal mewn proses gyfochrog â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, a bydd yn darparu gwybodaeth ar gyfer yr Arfarniad hwnnw.

## 2.2 Proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd


Mae proses a dulliau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a ddefnyddiwyd yn seiliedig yn fras ar nifer o ddogfennau canllawiau a gyhoeddwyd (sylwer nad oes canllawiau penodol ar baratoi Arfarniad o Gynaliadwyedd):

- Arfarniad o Gynaliadwyedd o Strategaethau Gofodol Rhanbarthol a Dogfennau Datblygu Lleol - Canllawiau ar gyfer Cyrff Cynllunio Rhanbarthol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol, gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon Tachwedd 2005;
- Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Gweithrediaeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, Medi 2005;
- Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol Lloegr 2021 a'r Canllawiau Ymarfer Cynllunio cysylltiedig;
- Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a'r Nodiadau Cyngor Technegol cysylltiedig; a
- Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol 4 Yr Alban 2023

Dylid nodi bod prosesau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn seiliedig ar Gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd (UE). Er bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr UE, mae'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd perthnasol sy'n rhoi'r prosesau hyn ar waith yn dal i fod yn berthnasol ym mis Rhagfyr 2023. Sylwch, o dan delerau Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023, cynigir

system newydd o ran asesiadau amgylcheddol, a elwir yn Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol, fel bod y llywodraeth yn gallu disodli prosesau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gyda system symlach sy'n rhoi mwy o bwyslais ar gyflawni uchelgeisiau amgylcheddol y Llywodraeth.

**Ffigur 2-1: Canllawiau'r Llywodraeth ar baratoi Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac Arfarniadau o Gynaliadwyedd**




Ffynhonnell: Yn seiliedig ar Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2005) Canllaw ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2005) Arfarniad o Gynaliadwyedd Strategaethau Gofodol Rhanbarthol a Dogfennau Datblygu Lleol

Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear yn digwydd fesul cam. Mae Ffigur 2-1 yn dangos gwahanol gamau paratoi'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac mae'r canlyniadau'n cael eu cynnwys yn yr Arfarniad fel y bo'n briodol, gan ddarparu gwybodaeth yn gyntaf ar gyfer yr Adroddiad Cwmpasu ac yn ddiweddarach yn cyfrannu at Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

## 2.3 Cwmpas daearyddol ac amserol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn berthnasol i'r un ardal ddaearyddol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol – sef Cymru a Lloegr, ond mewn rhai amgylchiadau bydd elfennau'n berthnasol i'r Alban a bydd asesiadau'n cael eu gwneud ar gyfer amrywiaeth o effeithiau cynaliadwyedd disgwyliedig yn yr ardal ddaearyddol hon yn ogystal ag yng Ngogledd Iwerddon; felly bydd yn ymdrin â'r Deyrnas Unedig i gyd. Rhoddir ystyriaeth hefyd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i'r posibilrwydd am effeithiau trawsffiniol (h.y. ar wledydd eraill sy'n agos at y Deyrnas Unedig). Mae rhagor o fanylion yn adran 2.4 Cwmpas Technegol isod.

Mae cwmpas amserol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i gysoni â'r un ar gyfer pob un o'r technolegau sy'n cael eu hyrwyddo gan y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd. Oherwydd ei bod yn bosibl bod gwahanol dechnolegau cynhyrchu niwclear yn cael effeithiau gwahanol ar gynaliadwyedd a'r ffaith y gellid eu gweithredu o fewn gwahanol amserlenni / cyfnodau amser, asesir pob technoleg ar wahân. O ganlyniad, bydd mwy o ansicrwydd ynghylch y technolegau sy'n llai datblygedig, neu sydd i fod i 'ddod yn rhan o'r ffrwd cyllido' yn nes ymlaen yng nghyfnod y Cynllun, o ran canlyniad yr asesiad. Dyma gamau posibl technoleg niwclear newydd[2]:

- Adweithydd trydedd genhedlaeth (Gen III) - mae adweithyddion Gen III presennol yn debyg i adweithyddion cynharach (e.e. Sizewell B) ond gydag effeithlonrwydd thermol gwell a dyluniad mwy safonol. Mae haenau ychwanegol o nodweddion diogelwch yn mynd i'r afael â systemau hŷn gydag un pwynt methiant, gan wella cadernid a diogelwch cyffredinol. 1,000-1,4000 MW ydy'r rhain fel arfer. Mae'r rhan fwyaf o adweithyddion Gen III yn defnyddio dŵr fel oerydd a chymedrolwr, a dyluniadau PWR yw'r rhai mwyaf cyffredin. Bu gwelliannau graddol i ddyluniad Gen III+ o'r fersiynau blaenorol.
- Technoleg niwclear ddatblygedig: y genhedlaeth nesaf o ddyluniadau niwclear. Mae'r rhain fel arfer yn llai na dyluniadau hŷn, ac yn defnyddio adrannau modiwlaidd a adeiladwyd mewn ffatri y gellir eu rhoi wrth ei gilydd ar y safle. Maent yn amrywio o ychydig fegawatiau ar gyfer cymwysiadau oddi ar y grid, hyd at gannoedd o fegawatiau. Er bod rhai dyluniadau wedi cael eu dangos, bydd angen rhagor o ddatblygu a buddsoddi sylweddol er mwyn masnacheiddio. Gellir eu dosbarthu'n ddau grŵp:
    - Adweithyddion Modiwlaidd Bach (cynhyrchu disgwyliedig o'r 2030au). Dyluniadau sy'n cael eu hoeri gan ddŵr Gen III yw'r dechnoleg niwclear ddatblygedig fwyaf technolegol aeddfed. Mae'r modwlaredd mewn rhai achosion yn cyfeirio at adweithyddion sydd wedi'u dylunio i gael eu cysylltu mewn clystyrau.
    - Adweithyddion Modiwlaidd Datblygedig Gen IV (a ddisgwylir o'r 2040au ymlaen). Mae Adweithyddion Modiwlaidd Datblygedig yn defnyddio oeryddion neu danwydd newydd (sy'n eu gwneud yn Gen IV) a gallant ddarparu cymwysiadau

[2] Ynni Niwclear yn y DU (2022) POST-PN-0687.pdf (parliament.uk)

gwres a/neu hydrogen o bosibl. Mae oeryddion yn cynnwys heliwm (a elwir yn adweithyddion nwy tymheredd uchel - HTGR), plwm, halen tawdd a sodiwm. Dangoswyd rhai technolegau yn y 1960au a'r 70au yn y DU.

Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ystyried oes gyfan unrhyw ddatblygiad cynhyrchu niwclear unigol a allai godi o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ac sy'n cynnwys y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, yn ogystal â storio'r holl danwydd sydd wedi'i ddefnyddio a'r gwastraff lefel ganolraddol sy'n cael ei gynhyrchu yn sgil gweithredu a datgomisiynu yn ddiogel ar y safle nes gellir ei anfon i'w waredu'n derfynol mewn cyfleuster gwaredu daearegol.

At ddibenion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, cynigir ystyried y canlynol ar gyfer pob math o dechnoleg niwclear sy'n cael sylw yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear:

**Gorsafoedd Ynni Niwclear dros 1GW gyda chapasiti un adweithydd**

Cyfnod o 166 mlynedd mewn perthynas ag unrhyw safle lle bwriedir datblygu gorsaf ynni niwclear newydd dros 1GW gyda chapasiti un adweithydd. Mae'r cyfnod hwn yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol (ond cydnabyddir y gallai fod rhai amrywiadau, yn anad dim gallai'r cyfnod o storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio dros dro fod yn fyrrach o lawer yn dibynnu a oes cyfleuster gwaredu daearegol ar gael):

- Adeiladu: pum-chwe blynedd
- Gweithredu: Tua 60 mlynedd
- Datgomisiynu: Tua 30 mlynedd
- Storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio dros dro ar ôl tynnu tanwydd y tro diwethaf: Tua 100 mlynedd

**Adweithyddion Modiwlaidd Bach**

Cyfnod o 170 mlynedd mewn perthynas ag unrhyw safle lle bwriedir datblygu gorsaf ynni niwclear newydd dros 1GW gyda chapasiti un adweithydd. Mae'r cyfnod hwn yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol (ond cydnabyddir y gallai fod rhai amrywiadau, yn anad dim gallai'r cyfnod o storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio dros dro fod yn fyrrach o lawer yn dibynnu a oes cyfleuster gwaredu daearegol ar gael):

- Adeiladu: 6 mlynedd
- Gweithredu: Tua 60 mlynedd
- Datgomisiynu: Tua 20-30 mlynedd
- Storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio dros dro ar ôl tynnu tanwydd y tro diwethaf: Tua 70 mlynedd

**Adweithyddion Modiwlaidd Datblygedig**[3]

Cyfnod o 150 mlynedd mewn perthynas ag unrhyw safle lle bwriedir datblygu gorsaf ynni niwclear newydd dros 1GW gyda chapasiti un adweithydd. Mae'r cyfnod hwn yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol (ond cydnabyddir y gallai fod rhai amrywiadau, yn anad dim gallai'r cyfnod o storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio dros dro fod yn fyrrach o lawer yn dibynnu a oes cyfleuster gwaredu daearegol ar gael):

- Adeiladu: pedair-pum mlynedd
- Gweithredu: Tua 60 mlynedd
- Datgomisiynu: Tua 20-30 mlynedd
- Storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio dros dro ar ôl tynnu tanwydd y tro diwethaf: Tua 60 mlynedd

## 2.4 Cwmpas technegol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

Mae gan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gylch gwaith eang iawn a bydd yn ystyried y pynciau canlynol sy'n gysylltiedig â rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n mynnu bod yr effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd yn cael eu hasesu, gan ystyried y ffactorau canlynol a'r rhyngberthynas rhyngddynt:

- Bioamrywiaeth;
- Poblogaeth;
- Iechyd pobl (gan gynnwys materion sŵn, dirgryniad a golau ymysg effeithiau eraill ar gymunedau lleol ac iechyd y cyhoedd);
- Ffawna a fflora;
- Pridd;
- Dŵr;
- Aer;
- Sŵn;
- Ffactorau hinsoddol (sy'n ymdrin ag allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i newid yn yr hinsawdd);
- Asedau materol (gan gynnwys seilwaith, gwastraff ac asedau eraill);
- Treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol; a
- Tirwedd.

[3] Sylwch fod data Adweithyddion Modiwlar Bach wedi cael ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer amserlenni Adweithyddion Modiwlaidd Datblygedig gan nad oes data ar gael

Ar ben hynny, mae canllawiau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn mynnu bod ffactorau economaidd-gymdeithasol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r ffactorau amgylcheddol a nodir uchod.

Gan adeiladu ar themâu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol uchod, ac ar ôl ystyried natur yr effeithiau ar gynaliadwyedd a allai ddeillio o Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol Niwclear yn y DU ac mewn gwledydd cyfagos (gweler adran 5 am ragor o fanylion), mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Bioamrywiaeth;
- Geoamrywiaeth;
- Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr;
- Addasu i Hinsawdd sy'n Newid;
- Ansawdd Aer a Sŵn;
- Adnoddau Dŵr ac Ansawdd;
- Pridd a Thir Halogedig;
- Yr Amgylchedd Hanesyddol;
- Tirweddau, Dyfrweddau a Threfluniau;
- Adnoddau a Gwastraff;
- Gweithgarwch Economaidd, Cyfleoedd ac Amddifadedd;
- Twf Poblogaeth a Demograffeg;
- Cymunedau: Seilwaith Ffisegol; a
- Cymunedau: Iechyd corfforol a lles meddyliol.

Mae'n bwysig nodi yn y fan yma bod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar EN-1 wedi dod i'r casgliad y gallai rhyddhau ymbelydredd yn anfwriadol o orsafoedd ynni niwclear arwain at effeithiau trawsffiniol. Fodd bynnag, mae'r system reoleiddio sy'n bodoli yn y DU yn gwneud yn siŵr bod gollyngiadau ymbelydrol a ganiateir o fewn terfynau awdurdodedig ac yn debygol o aros yn ddigon lleol er mwyn peidio ag effeithio'n sylweddol ar wledydd cyfagos.

Yn y DU, bydd angen i'r cyrff rheoleiddio niwclear fod yn fodlon bod y risgiau radiolegol a'r risgiau eraill i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â rhyddhau sylweddau ymbelydrol yn ddamweiniol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol ac o fewn y terfyn risg radiolegol perthnasol. Fel rhan o'r broses o drwyddedu safleoedd, bydd gofyn i ddarpar weithredwr ddangos bod y cyfleuster niwclear wedi'i ddylunio a bod modd ei weithredu er mwyn darparu nifer o lefelau o ddiogelwch ac amddiffyniad yn erbyn methiannau neu namau sylweddol. Hefyd, bydd angen iddynt ddangos bod strategaethau rheoli damweiniau a pharodrwydd mewn argyfwng ar waith a bod pob cam rhesymol ymarferol wedi'i gymryd i leihau canlyniadau radiolegol damwain. Mae cadernid y drefn reoleiddio sy'n gysylltiedig â'r gosodiadau hyn yn y DU yn arwain at debygolrwydd isel o ryddhau ymbelydredd yn anfwriadol ac felly unrhyw effeithiau trawsffiniol sylweddol. Mae rheolaeth llym dros ryddhau ymbelydredd o orsafoedd pŵer niwclear yn unol

â'r terfynau a bennir mewn trwyddedau a gyhoeddir gan yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear ac Asiantaeth yr Amgylchedd o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

## 2.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Fel y nodwyd eisoes, cynhelir Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear ochr yn ochr â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Yng Nghymru a Lloegr, o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 (fel y'u diwygiwyd)[4] (y 'Rheoliadau Cynefinoedd'), mae'n ofynnol cynnal 'Asesiad Priodol' o gynlluniau neu brosiectau arfaethedig nad ydynt yn angenrheidiol ar gyfer rheoli Safle Ewropeaidd ond sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar un neu fwy o Safleoedd Ewropeaidd naill ai'n unigol, neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

Mae Safleoedd Ewropeaidd yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, a ddynodwyd yn wreiddiol o dan Gyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd 92/43/EEC (y cyfeirir ati fel y Gyfarwyddeb Cynefinoedd), ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a ddynodwyd yn wreiddiol o dan y Gyfarwyddeb Cadwraeth Adar Gwyllt (Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC (sy'n codeiddio Cyfarwyddeb 79/409/EEC)) ar gyfer rhywogaethau o adar mudol sy'n brin, yn agored i niwed ac sydd i'w cael yn rheolaidd a gwlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol. Fel mater o bolisi'r llywodraeth[5] mae safleoedd Ramsar rhestredig neu arfaethedig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl, darpar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a safleoedd sydd wedi'u nodi, neu sy'n ofynnol, fel mesurau cydbwyso ar gyfer effeithiau niweidiol ar safleoedd cynefinoedd, yn cael eu trin yn yr un ffordd â Safleoedd Ewropeaidd. O hyn ymlaen, fodd bynnag, cyfeirir at yr holl safleoedd uchod fel 'Safleoedd Cynefinoedd' gan fod hyn yn unol â'r derminoleg gyfredol a ddefnyddir yn y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol, Datganiadau Polisi Cenedlaethol eraill a deddfwriaeth sy'n mynd drwy'r broses Seneddol ar hyn o bryd fel y Ddeddf 'Ffyniant Bro ac Adfywio'.

Mae'n bwysig nodi bod Rheoliadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn mynnu bod y Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn cael eu hasesu fel cynllun ac, o'r herwydd, bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal ar y sail honno; nid yw hyn yn dileu'r gofyniad i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd manwl ar lefel prosiectau yn ystod y cam cydsyniad datblygu. Ar hyn o bryd, nid oes safleoedd penodol, dyraniadau nac unrhyw gydran ofodol yn perthyn i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear. Felly, bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn canolbwyntio ar y cynnwys polisi yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn unig.

[4] Yn dilyn y newidiadau y gwnaeth Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 i Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), nid yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn y DU bellach yn rhan o rwydwaith ecolegol Natura 2000 yr UE, ac maent bellach yn rhan o rwydwaith cenedlaethol y DU o Safleoedd Ewropeaidd. Yn y ddogfen hon, cyfeirir atynt fel Safleoedd Cynefinoedd.

[5] Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2021) Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF). Paragraff 181.

# 3. Polisïau, Cynlluniau a Rhaglenni Perthnasol

## 3.1 Cyflwyniad

Elfen allweddol o’r Arfarniad o Gynaliadwyedd yw nodi polisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill. Mae hyn yn helpu i nodi themâu amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach perthnasol yn ogystal ag amcanion, gwybodaeth sylfaenol a materion allweddol. Rhaid i’r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd fod yn barod i ystyried y polisïau, y cynlluniau a’r rhaglenni hyn oherwydd gallai ddylanwadu arnynt a chael ei ddylanwadu ganddynt.

Mae’r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol yn nodi’n benodol y dylid darparu gwybodaeth am y canlynol:

*‘Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun neu’r rhaglen, ac o’i berthynas / pherthynas â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill’ (Atodlen 2, paragraff 1)*

*‘Yr amcanion ynghylch gwarchod yr amgylchedd, a bennwyd ar lefel ryngwladol, y Gymuned neu Aelod-wladwriaeth, sy’n berthnasol i’r cynllun neu’r rhaglen a’r modd y mae’r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi’u hystyried yn ystod y gwaith o’i baratoi / pharatoi’ (Atodlen 2, paragraff 5)*

## 3.2 Crynodeb o'r Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni a adolygwyd

Mae’r adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni yn elfen werthfawr o broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gan ei fod yn helpu â’r canlynol:

- Nodi amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol eraill a fydd yn arwain y gwaith o:
    - nodi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd sy’n berthnasol i’r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar Niwclear;
    - datblygu fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd i’w ddefnyddio yn asesiadau’r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar Niwclear a fydd yn cynnwys Amcanion Cynaliadwyedd a Chwestiynau Cymorth i Benderfynu cysylltiedig;
- Nodi canllawiau cynllunio a thematig ar draws pynciau cynaliadwyedd a allai ddylanwadu ar ddulliau polisi’r Datganiad Polisi Cenedlaethol fel yr anogir gan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd; a
- Nodi unrhyw bosibilrwydd am wrthdaro neu heriau cynnar clir rhwng y cynlluniau, y polisïau a’r rhaglenni a’r canllawiau cynllunio a thematig gyda’r polisi Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd sy’n destun proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Rhestrir y cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni rhyngwladol a chenedlaethol a adolygwyd, a nodir manylion yr adolygiad yn Atodiad A.

**RHYNGWLADOL**

*Bioamrywiaeth*

- Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol 2010.
- Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kumming-Montreal (2023).
- Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewropeaidd (Confensiwn Bern) 1989.
- Confensiwn Ramsar 1971.
- Confensiwn ar Gadwraeth Rhywogaethau o Anifeiliaid Gwyllt Mudol 1979 (Confensiwn Bonn).
- Cytundeb ar Gadwraeth Adar Dŵr Mudol Affrica-Ewrasia (AEWA).

*Newid yn yr Hinsawdd*

- Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd 1992, Protocol Kyoto 1997, Cytundeb Paris 2015 ac ati.
- Cytundeb TAC y DU-UE 2021.

*Treftadaeth*

- Confensiwn Treftadaeth y Byd 1972.
- Confensiwn ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Dan y Dŵr 2001.
- Confensiwn ar Ddiogelu Treftadaeth Archeolegol (1992) – ‘Confensiwn Valetta’.

*Tirwedd*

- Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd 2000 – ‘Confensiwn Fflorens’.

*Amgylchedd Morol*

- Confensiwn OSPAR 1992 (Confensiwn ar gyfer Gwarchod Amgylchedd Morol Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd).
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr 1982 (UNCLOS).
- Y Confensiwn ar Atal Llygredd Morol drwy Waredu Gwastraff a Deunyddiau Eraill 1972 (Confensiwn Llundain).
- Protocol 1996 i’r Confensiwn ar Atal Llygredd Morol drwy Waredu Gwastraff a Deunyddiau Eraill 1972 (Protocol Llundain 1996).

*Sŵn*

- Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar Sŵn Cymunedol 1999.
- Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar Sŵn Nos ar gyfer Ewrop 2009.
- Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar Sŵn Amgylcheddol ar gyfer y Rhanbarth Ewropeaidd 2018.

*Iechyd Pobl*

- Sefydliad Iechyd y Byd - Cau'r Bwlch: Penderfynyddion Cymdeithasol Iechyd 2008.

*Effeithiau trawsffiniol*

- Confensiwn Espoo ynghylch Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yng Nghyd-destun Trawsffiniol 1991.

*Ymgynghoriad Cyhoeddus*

- Confensiwn Aarhus 2001.

**CENEDLAETHOL**

*Traws – thematig*

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.
- Deddf yr Amgylchedd 2021.
- Strategaeth Twf Glân 2017.
- Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU 2005.
- Cyd-fframwaith y DU ar Ddatblygu Cynaliadwy; Un Dyfodol – Llwybrau Gwahanol 2005.
- Deddf Cynllunio 2008.
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref a Chynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Diwygio) 2018.
- Deddf Lleoliaeth 2011.
- Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004.
- Canllawiau Ymarfer Cynllunio – Yr Amgylchedd Naturiol 2019.

*Bioamrywiaeth*

- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.

- Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Pryfed Peillio 2014-2024.
- Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr 2023.
- Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019.
- Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 2006.
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.
- The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review, 2021.
- Y Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol.

*Ansawdd Aer*

- Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Rheoliadau Domestig) (Ymadael â'r UE) 2019.
- Strategaeth Ansawdd Aer: fframwaith ar gyfer cyflawni gan awdurdodau lleol 2023.
- Strategaeth Aer Glân 2019.
- Cynllun Ansawdd Aer ar gyfer Nitrogen Deuocsid yn y DU, 2017.

*Newid yn yr Hinsawdd*

- Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 a'i Orchymyn Diwygio Targed 2050, 2019.
- Strategaeth Sero Net y DU 2021.
- Y Ffordd at Sero 2018.
- UKCP18.
- Strategaeth Datgarboneiddio Diwydiannol 2021.
- Strategaeth Seilwaith Genedlaethol 2020.
- Asesiad Seilwaith Cenedlaethol 2018.
- Canllawiau Ymarfer Cynllunio – Newid yn yr Hinsawdd 2019.
- Hinsawdd, pobl, lleoedd a gwerth, Egwyddorion dylunio ar gyfer seilwaith cenedlaethol, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, 2021.
- Asesiad Annibynnol o Risg Hinsawdd y DU, Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd 2021.
- Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU 2022.
- Y drydedd Raglen Ymaddasu Genedlaethol a'r bedwaredd strategaeth ar gyfer adrodd ar addasu i'r hinsawdd 2023.

*Treftadaeth*

- Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953.
- Gwarchod Treftadaeth ar gyfer yr 21ain Ganrif 2007.
- Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979.
- Deddf Diogelu Olion Milwrol 1986.

- Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1983 (fel y'i diwygiwyd 2002).
- Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973.
- Datganiad Treftadaeth y Llywodraeth 2017.
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
- Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

*Tirwedd*

- Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.
- Deddf Llynnoedd Norfolk a Suffolk 1988.
- Deddf yr Amgylchedd 1995.
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

*Yr Amgylchedd Dŵr*

- Deddf Adnoddau Dŵr 1991.
- Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017.
- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.
- Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009.
- Cynlluniau Rheoli Basn Afon.
- Cynlluniau Rheoli Traethlin a Chanllawiau 2006.
- Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd.
- Datganiad Polisi Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol 2020.
- Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975.
- Rheoliadau Llyswennod (Cymru a Lloegr) 2009.
- Deddf Pysgodfeydd 2020.
- Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.
- Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007.
- Datganiad Polisi Morol y DU 2011.
- Cynlluniau morol perthnasol.
- Strategaeth Forol y DU.
- Strategaeth Forol rhan un: Asesiad wedi'i ddiweddaru y DU a Statws Amgylcheddol Da, 2019.
- Strategaeth Forol Rhan 2, 2021.
- Strategaeth Forol rhan tri: Rhaglen o fesurau'r DU.
- Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol 1994.

- Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.
- Cynllun Lleihau Gollyngiadau Gorlif Stormydd.
- Deddf Cronfeydd Dŵr 1975.
- Datganiad Polisi Cenedlaethol Seilwaith Adnoddau Dŵr.

*Sŵn*

- Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol 2006.
- Canllawiau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ar gyfer lleihau'r perygl o anafu mamaliaid morol oherwydd arolygon geoffisegol 2017.
- Protocol asiantaeth cadwraeth natur statudol y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ar gyfer lleihau'r perygl o anafu mamaliaid morol oherwydd sŵn polion 2010.

*Ansawdd Aer*

- Llygredd Aer: Gweithredu mewn Hinsawdd sy'n Newid (Defra, 2010).

*Trafnidiaeth*

- Datgarboneiddio Trafnidiaeth: A Better, Greener Britain 2021.

*Ynni*

- Y Papur Gwyn ar Ynni 2020.
- Y Cynllun Deg Pwynt ar gyfer Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd 2020.
- Strategaeth Diogelu Ffynonellau Ynni Prydain 2022.
- Ynni Niwclear yn y DU 2022.
- Rhaglen Arloesi Ynni (2015-2021).
- Portffolio Arloesi Sero Net a'r Gronfa Niwclear Uwch (2021-2025).
- Pweru Prydain: Cynllun Twf Sero Net 2023.

*Gwastraff Ymbelydrol*

- Gweithredu Gwarediad Daearegol – Gweithio gyda chymunedau 2018.
- Ymgynghoriad wedi'i Gau: Rheoli Sylweddau Ymbelydrol a Datgomisiynu Niwclear.

## GWEINYDDIAETHAU DATGANOLEDIG / LLEOL

### Lloegr

*Traws - thematig*

- Cynllun Gwella'r Amgylchedd 2023.
- Cynllun yr Amgylchedd 25 Mlynedd 2018.
- Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol 2021.

- Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Lloegr) 2015 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Lloegr) (Diwygio) 2019.

*Bioamrywiaeth a Seilwaith gwyrdd*

- Bioamrywiaeth 2020: Strategaeth ar gyfer gwasanaethau ecosystemau a bywyd gwyllt Lloegr.
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cadw Coed) (Lloegr) 2012.
- Rheoliadau Targedau Amgylcheddol (Bioamrywiaeth) (Lloegr) 2022.
- Rheoliadau Targedau Amgylcheddol (Coetiroedd a Choed y tu allan i Goetir) (Lloegr) 2022.
- Cynllun Gweithredu Coed Lloegr 2021-2024.
- Datganiad Polisi Coedwigaeth a Choetiroedd y Llywodraeth 2013.
- 30x30 Ymrwymiad y Llywodraeth 2020.
- Y Rhwydwaith Adfer Natur, Defra a Natural England 2020.
- Cronfa Natur dros yr Hinsawdd.
- Y Llyfr Gwyrdd, Canllawiau'r llywodraeth ganolog ar arfarnu a gwerthuso 2022.
- Cyflwyniad i'r Fframwaith Seilwaith Gwyrdd - Egwyddorion a Safonau ar gyfer Lloegr, Natural England 2021.
- Safonau Seilwaith Gwyrdd Natural England ar gyfer Lloegr 2023.
- Asesiad o risgiau newid hinsawdd a chynllun addasu Natural England 2021 (cyhoeddwyd yn 2022). Adroddiad ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd: y drydedd rownd.
- Llawlyfr Tystiolaeth Rhwydweithiau Natur (NERR081) Natural England 2020.
- Adnodd Buddion Amgylcheddol o Natur – Fersiwn Prawf Beta, Natural England 2021.
- Metrig Bioamrywiaeth 4.0, Natural England 2022.
- Dal a Storio Carbon yn ôl Cynefin, Natural England 2021.
- Llawlyfr Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd. Tystiolaeth i gefnogi gwarchod natur mewn hinsawdd sy'n newid, RSPB, Natural England, 2020.

*Tirwedd*

- Ardaloedd Cymeriad Cenedlaethol (Lloegr), Natural England 2023.
- Parciau Cenedlaethol a Llynnoedd Lloegr - Gweledigaeth a Chylchlythyr Llywodraeth y DU 2010.

*Yr Amgylchedd Dŵr*

- Strategaeth Genedlaethol ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol ar gyfer Lloegr 2020.

- Y Strategaeth Genedlaethol ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol ar gyfer Lloegr 2021.
- Rheoliadau Targedau Amgylcheddol (Dŵr) (Lloegr) 2022.
- Rheoliadau Targedau Amgylcheddol (Ardaloedd Morol Gwarchodedig) 2022.

*Ansawdd Aer*

- Rheoliadau Targedau Amgylcheddol (Deunydd Gronynnol Mân) (Lloegr) 2022.

*Iechyd Pobl*

- Public Health England – Strategaeth (2020-2025).
- Rheoliadau Tir Halogedig (Lloegr) 2006 fel y’u diwygiwyd gan Reoliadau Tir Halogedig (Lloegr) (Diwygio) 2012.

*Priddoedd*

- Diogelu ein Priddoedd: strategaeth ar gyfer Lloegr 2009.

*Gwastraff*

- Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 fel y’u diwygiwyd gan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014.
- Adolygiad Cenedlaethol o Bolisi Gwastraff yn Lloegr 2011.
- Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer Lloegr 2021.
- Rhaglen Atal Gwastraff ar gyfer Lloegr 2023.
- Strategaeth Adnoddau a Gwastraff ar gyfer Lloegr, DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd 2018.
- Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar gyfer Gwastraff 2014.
- Rheoliadau Targedau Amgylcheddol (Gwastraff Gweddilliol) (Lloegr) 2022.

*Sŵn*

- Datganiad Polisi Sŵn ar gyfer Lloegr 2010.
- Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Lloegr) (2006) fel y’u diwygiwyd gan Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Lloegr) Diwygio 2018.

Sylwch fod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn dilyn pum egwyddor y Datganiad Polisi Egwyddorion Amgylcheddol yn agos, ac mae’r rheiny wedi’u nodi yn adran 17(5) o Ddeddf yr Amgylchedd (2021) a rhagwelir y bydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn cael ei ddatblygu yn unol â’r rhain gan fod llywodraeth y DU eisoes wedi ymrwymo i’r egwyddorion hyn drwy offerynnau a phrosesau rhyngwladol. Dyma’r pum egwyddor:

- Integreiddio: edrych ar gyfleoedd i wreiddio mesurau gwarchod a/neu wella’r amgylchedd

- Atal: atal niwed amgylcheddol cyn iddo ddigwydd neu reoli'r difrod presennol
- Trwsio yn y tarddiad: dylid mynd i'r afael â difrod amgylcheddol yn ei darddiad er mwyn osgoi'r angen i unioni'r effeithiau yn nes ymlaen
- Y llygrwr sy'n talu: y rhai sy'n achosi'r llygredd ddylai orfod talu unrhyw gostau
- Rhagofalus: os bydd risg o ddifrod amgylcheddol difrifol neu ddiwrthdro, ni fyddwn yn defnyddio diffyg sicrwydd gwyddonol llawn fel rheswm dros oedi mesurau cost-effeithiol sy'n atal yr amgylchedd rhag cael ei ddirywio

Diben yr egwyddorion hyn yw arwain gweinidogion a llunwyr polisïau tuag at gyfleoedd i atal difrod amgylcheddol a gwella'r amgylchedd, er ei bod yn bwysig nodi nad rheolau yw'r egwyddorion hynny ac ni allant orchymyn penderfyniadau polisi gan weinidogion y llywodraeth.

**Cymru**

*Traws – thematig*

- Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009.
- Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040.
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru 2020.
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Polisi Adnoddau Naturiol (Llywodraeth Cymru) 2017.
- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru 2020.
- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021).
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019.
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned – Cynllun Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru (2009).
- Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig (2014-2020).
- TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio 2009.
- TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy 2010.
- TAN 11: Sŵn 1997.
- TAN 13: Twristiaeth 1997.
- TAN 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2021.
- TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009).
- TAN 18: Trafnidiaeth 2007.
- TAN 21: Gwastraff 2014.

*Newid yn yr Hinsawdd*

- Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010).
- Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021 – 2025).
- Datganiad Polisi ar berchnogaeth leol ar gynhyrchu ynni yng Nghymru – o fudd i Gymru heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd (2019).
- Addasu i Newid yn yr Hinsawdd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol yng Nghymru 2022.

*Gwastraff*

- Rheoliadau Gwastraff (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2012
- Polisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Uwch ei Actifedd.

*Bioamrywiaeth*

- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) (Diwygio) (Cymru) 2017.
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2017.
- Coetiroedd i Gymru 2018.

*Tir Halogedig*

- Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Tir Halogedig (Cymru) (Diwygio) 2012.

*Treftadaeth*

- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.
- Datganiad Strategol Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Cynllun Gweithredu 2010.

*Yr Amgylchedd Dŵr*

- Strategaeth Ddŵr i Gymru 2015.
- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.
- Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru 2020.
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru 2019).
- Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd: Lwfansau Newid Hinsawdd 2021.
- Cynlluniau Rheoli Traethlin sy'n berthnasol yng Nghymru.

*Tirwedd*

- Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol (Gorffennaf 2018).

*Ynni*

- Ynni Niwclear yng Nghymru (Trydydd Adroddiad y Sesiwn 2022-2023).
- Canllawiau Technegol Cyfoeth Naturiol Cymru.

*Trafnidiaeth*

- Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021.

**Yr Alban**

*Traws – thematig*

- Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Yr Alban).
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Yr Alban) 2013.
- Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol 4 (2023).
- Nodyn Cyngor Cynllunio (PAN) 3/2010 Ymgysylltu â'r Gymuned.
- PAN 33 Datblygu Tir Halogedig (Diwygiwyd Hydref 2000).
- PAN 51 Cynllunio, Diogelu'r Amgylchedd a Rheoleiddio (Diwygiwyd 2006).
- PAN 2/2011 Cynllunio ac Archeoleg.
- PAN 71 Rheoli Ardaloedd Cadwraeth.
- PAN 60 Cynllunio ar gyfer Treftadaeth Naturiol.
- PAN 1/2011 Cynllunio a Sŵn.
- PAN 61 Cynllunio Rheoli Gwastraff (2001).

*Bioamrywiaeth*

- Gorchymyn Deddf Gwarchod Natur (Yr Alban) 2004 (Gweithrediadau Awdurdodedig) 2011.
- Strategaeth Bioamrywiaeth yr Alban hyd 2045 (2022).
- Deddf Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd Naturiol (Yr Alban) 2011 (fel y'i diwygiwyd).
- Strategaeth Goedwigaeth yr Alban 2019-2029.
- Deddf Coedwigaeth a Rheoli Tir (Yr Alban) 2018.
- Rheoliadau Coedwigaeth (Torri Coed) (Yr Alban) 2019.
- Rheoli Tynnu Coetiroedd 2012.
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Cadw Coed a Choed mewn Ardaloedd Cadwraeth) (Yr Alban) 2010.

*Gwastraff*

- Rheoliadau Gwastraff (Yr Alban) 2012.

- Cynllun Dim Gwastraff yr Alban (2010).
- Rheoli a Gwaredu Gwastraff Uwch ei Actifedd.

*Ansawdd Aer*

- Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Yr Alban) (2010).
- Rheoliadau Ansawdd Aer (Yr Alban) Diwygio 2016.

  Cleaner Air for Scotland – the Road to a healthier future (Llywodraeth yr Alban 2015).

*Tir Halogedig*

- Rheoliadau Tir Halogedig (Yr Alban) (2000 a 2005).

*Sŵn*

- Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Yr Alban) (2006) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Yr Alban) Diwygio 2018.

*Newid yn yr Hinsawdd*

- Deddf Newid yn yr Hinsawdd (Yr Alban) 2009.
- Deddf Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Lleihau Allyriadau) (Yr Alban) 2019.
- Sicrhau Adferiad Gwyrdd ar Lwybr at Sero Net: cynllun newid yn yr hinsawdd 2018–2032 – diweddariad.
- Climate Ready Scotland - Rhaglen Addasu i'r Newid Hinsawdd yr Alban (2019-2024).

*Yr Amgylchedd Dŵr*

- Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Gweithgareddau a Reolir) (Yr Alban) 2011.
- Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Yr Alban) 2017.
- Cynllun Morol Cenedlaethol yr Alban 2015.
- Deddf Forol yr Alban 2010.

*Ynni*

- Strategaeth Ynni'r Alban: Dyfodol Ynni yn yr Alban 2017.

**Gogledd Iwerddon**

*Traws – thematig*

- Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Gogledd Iwerddon 2023.

*Amgylchedd Morol*

- Cynllun Morol ar gyfer Gogledd Iwerddon 2022.

*Newid yn yr Hinsawdd*

- Y Llwybr i Ynni Sero Net: Diogel, Fforddiadwy, Glân 2021.
- Deddf Newid yn yr Hinsawdd (Gogledd Iwerddon) 2022.
- Rheoli a Gwaredu Gwastraff Uwch ei Actifedd.

Mae cyfres o dablau yn Atodiad A yn cyflwyno'r adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni ac yn nodi'r canlynol:

- Prif amcanion y dogfennau gan gynnwys eu hamcanion diogelu'r amgylchedd lle bo hynny'n briodol;
- Prif ddangosyddion a thargedau perthnasol yn y dogfennau; a
- Sut y dylid ystyried amcanion y polisïau, y cynlluniau a'r rhaglenni ym mhrosesau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol.

## 3.3 Themâu'r Amgylchedd

Datgelodd yr adolygiad o bartneriaethau cyhoeddus-preifat nifer fawr o themâu cyffredin o ran eu hamcanion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd yng nghyd-destun cynllunio datblygu strategol. Rhestrir y rhain isod:

### Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol

- Diogelu safleoedd sydd wedi'u dynodi at ddibenion cadwraeth natur (gan gynnwys darpar safleoedd a safleoedd posibl);
- Diogelu a gwella rhywogaethau a chynefinoedd pwysig neu sydd mewn perygl, gan gynnwys y rheini yr ystyrir nad oes modd eu disodli fel Coetiroedd Hynafol a Choed Hynafol a Hynod;
- Cyfrannu at gyflawni cynlluniau a strategaethau bioamrywiaeth;
- Ychwanegu at gynefinoedd pwysig;
- Diogelu, cynnal a chadw, a lle bo modd gwella rhwydweithiau cynefinoedd naturiol a seilwaith gwyrdd er mwyn osgoi gwahanu ac ynysu rhwydweithiau;
- Cyfrannu at gyflawni Seilwaith Gwyrdd amlswyddogaethol – sylwer y bydd gan hyn oblygiadau yn ogystal â bioamrywiaeth ar draws amrywiaeth o themâu fel newid yn yr hinsawdd, ansawdd aer, ansawdd dŵr, iechyd, llesiant ac ati;
- Cefnogi cadernid ecosystemau;
- Cyfrannu at fynd i'r afael â phroblem Rhywogaethau Estron Goresgynnol, gan gynnwys dileu ac atal lledaeniad;
- Cyfrannu at gyflawni Enillion Net Bioamrywiaeth, ac angen o leiaf 10%;

- Cyfrannu at y targed bioamrywiaeth hirdymor ar gyfer risg y bydd rhywogaethau'n diflannu yn Lloegr, sef lleihau'r risg y bydd rhywogaethau'n diflannu erbyn 2042, o'i gymharu â'r risg y bydd rhywogaethau'n diflannu yn 2022.
- Cyfrannu at y targed hirdymor bod o leiaf 16.5% o'r holl dir yn Lloegr wedi'i orchuddio â choetiroedd a choed y tu allan i goetir erbyn diwedd 2050; a
- Cyfrannu at gyflawni Enillion Net yr Amgylchedd

## Geoamrywiaeth a phrosesau Arfordirol

- Diogelu safleoedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu pwysigrwydd geoamrywiaeth.
- Gwella mynediad i safleoedd o ddiddordeb geoamrywiaeth.
- Cynnal prosesau traethlin naturiol / rheoli traethlinau.

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

- Lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr, yn enwedig CO2.
- Gwneud y defnydd mwyaf posibl o ynni adnewyddadwy.
- Lleihau carbon corfforedig mewn datblygiadau.
- Annog seilwaith gwyrdd i helpu i atafaelu carbon.
- Defnyddio ynni'n fwy effeithlon a defnyddio technolegau newydd.
- Lleihau'r defnydd o danwydd ffosil.
- Cyfrannu at gyflawni targed Carbon Sero Net.

## Addasu i Hinsawdd sy'n Newid a Llifogydd

- Paratoi ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol a lefel y môr yn codi – gyda senarios achos gwaethaf sy'n briodol i ddatblygiad niwclear.
- Lleihau perygl ac effaith llifogydd.
- Osgoi datblygu ar orlifdiroedd pan fo hynny'n bosibl.
- Helpu i gyflawni amcanion Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd gan ganiatáu ar gyfer newid yn yr hinsawdd.
- Defnyddio Dulliau Rheoli Llifogydd yn Naturiol.

## Ansawdd Aer a Sŵn

- Peidio ag achosi i Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ychwanegol gael eu dynodi.
- Lleihau allyriadau NO2.

- Lleihau allyriadau o drafnidiaeth (ffyrdd yn benodol).
- Cynyddu'r defnydd o gerbydau allyriadau isel / dim allyriadau adeg defnyddio.
- Cynyddu hwylustod a'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy, gan gynnwys ar gyfer adeiladu.
- Annog defnyddio seilwaith gwyrdd i fynd i'r afael â dosbarthiad llygredd a gwella ansawdd aer lleol
- Lleihau allyriadau PM10 a PM2.5.
- Lleihau effeithiau sŵn (a dirgryndod) ar bobl a'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys o dan y dŵr.
- Erbyn diwedd 31 Rhagfyr 2040 rhaid i lefel gymedrig flynyddol o PM2.5 yn yr aer amgylchynol fod yn 10 µg/m³ neu lai (yn Lloegr).

## Adnoddau Dŵr

- Diogelu a gwella ansawdd dŵr daear, dŵr wyneb mewndirol, dyfroedd trosiannol, dyfroedd arfordirol a morol.
- Sylwer y gallai fod angen diogelu dŵr daear penodol mewn perthynas â rhai cyfleusterau niwclear.
- Helpu i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr[6] a'r Cynllun Rheoli Basn Afon perthnasol, yn ogystal â Chynlluniau Rheoli Traethlin / Moryd a Pharthau Gwarchodaeth Arbennig.
- Ystyried sut gall newid yn yr hinsawdd newid patrymau glawiad ac argaeledd dŵr.
- Defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS).

## Defnydd tir, Pridd ac Amaethyddiaeth

- Cydnabod natur gyfyngedig pridd.
- Blaenoriaethu datblygu ar safleoedd tir llwyd.
- Ceisio adfer tir diffaith a halogedig.
- Diogelu tir fferm a phridd – yn enwedig y rheini sydd â'r gwerth gorau.
- Sicrhau bod pridd yn cael ei reoli a'i storio'n briodol yn ystod gwaith adeiladu.
- Newid defnydd tir amaethyddol i goedwigaeth.

[6] . Roedd asesiadau Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr yn arfer cael eu galw yn asesiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr; mae'r ail-enwi'n adlewyrchu'r ffaith nad yw cyfraith yr UE fel y cyfryw yn berthnasol mwyach (ac eithrio pan fydd wedi cael ei chymhathu i gyfraith y DU).

## Treftadaeth Ddiwylliannol

- Gwarchod a diogelu asedau hanesyddol (dynodedig a heb eu dynodi) a rhai o bwys diwylliannol.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o archaeoleg wedi'i chladdu / treftadaeth anhysbys – cydnabod y gall rhai asedau hanesyddol fod yn y môr.
- Diogelu a gwella lleoliad asedau treftadaeth ddiwylliannol – gall hyn gynnwys ar raddfa tirwedd.
- Gwella mynediad at asedau hanesyddol, gan gynnwys adeiladau a thirweddau o werth lle bo hynny'n briodol.
- Dyluniad atyniadol a defnyddio pensaernïaeth gynhenid pan fo'n briodol er mwyn gwella'r cymeriad lleol a'r 'naws am le.'

## Tirweddau a Threfluniau

- Diogelu'r ardaloedd sydd wedi'u dynodi neu sy'n cael eu cydnabod am eu gwerth o ran tirwedd, gan gynnwys ar raddfa leol.
- Diogelu a gwella cymeriad tirwedd a threflun a natur unigryw'r ardal leol, gan gynnwys yr ardaloedd sydd ag ymdeimlad o fod yn wyllt ac yn anghysbell.
- Diogelu llonyddwch rhag llygredd golau a sŵn.
- Ystyried sut gall cynllunio tirwedd weithredu mewn ffordd drawsbynciol e.e. atafaelu carbon.
- Meithrin ansawdd dylunio da ar gyfer pob datblygiad newydd.
- Hyrwyddo mynediad at seilweithiau llesiant a thirweddau o ansawdd da, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer Seinweddau.
- Hyrwyddo adfywio tir a ddatblygwyd o'r blaen pan fo hynny'n briodol.

### Adnoddau Naturiol a Gwastraff

- Sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon a lleihau ôl troed adnoddau.
- Defnyddio deunyddiau eilaidd a deunyddiau eildro.
- Ystyried cyfleoedd i ailddefnyddio deunyddiau gymaint â phosibl ar y safle.
- Defnyddio dulliau i leihau gwastraff adeiladu a chynnal a chadw.
- Lleihau faint o wastraff sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi.
- Darparu ar gyfer storio gwastraff niwclear tymor byr yn saff a diogel.
- Hyrwyddo economi gylchol.
- Targed hirdymor i sicrhau nad yw cyfanswm y gwastraff gweddilliol y pen o'r boblogaeth yn Lloegr yn fwy na 287 cilogram erbyn 31 Rhagfyr 2042.

## 3.4 Themâu Economaidd

- Gwella hygyrchedd ffisegol at swyddi drwy leoli safleoedd cyflogaeth a chysylltiadau trafnidiaeth yn agos at ardaloedd o ddiweithdra uchel.
- Ehangu nifer ac ystod y cyfleoedd cyflogaeth hygyrch a chefnogi twf mewn cyflogaeth a chynhyrchiant llafur.
- Gwneud mewnfuddsoddi yn fwy deniadol.
- Gwella dibynadwyedd teithiau ar y rheilffyrdd a'r ffyrdd ar gyfer defnyddwyr busnes.
- Cefnogi busnesau lleol a'r gadwyn gyflenwi leol.
- Cefnogi'r gwaith o wella'r economi leol a ffyniant cyffredinol.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r sylfaen sgiliau drwy hyfforddiant a phrentisiaethau.
- Meithrin / annog cyfleoedd i glystyrau o ddiwydiannau, gwasanaethau ac ymchwil cysylltiedig ddatblygu o amgylch cyfleusterau niwclear.

## 3.5 Themâu Cymdeithasol

- Datblygiad arbennig sy'n cydnabod, yn adlewyrchu ac yn gwella'r 'naws am le' a'r 'ymdeimlad o gymuned.'
- Cymunedau hunangynhaliol, gwydn, sy'n gallu addasu.
- Cymunedau a fydd yn datblygu gwreiddiau a chysylltiadau rhwng pobl.
- Mynediad at gyfleusterau cymdeithasol – cymunedol, diwylliannol, iechyd / hamdden.
- Mynediad at drafnidiaeth gyda phwyslais ar ddulliau llesol, carbon isel a chynaliadwy.
- Mynediad at, a darpariaeth o, seilwaith modern a chadarn.
- Mynediad at Fannau Agored a Seilwaith Gwyrdd.

- Cael gafael ar gyfleoedd addysgol, hyfforddiant a chyflogaeth.

**Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad: A hepgorwyd unrhyw bolisïau, cynlluniau neu raglenni sy'n berthnasol i waith cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd?**

# 4. Gwybodaeth Sylfaenol

## 4.1 Cyflwyniad

Coladu gwybodaeth sylfaenol yw cam nesaf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae Rheoliadau’r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn mynnu y dylid cynnwys y canlynol:

- *Yr agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol heb weithredu'r cynllun neu’r rhaglen. (Atodlen 2, paragraff 2)*
- *Nodweddion amgylcheddol ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol (Atodlen 2, paragraff 3);*

Mae’r bennod hon (ac Atodiad C) yn nodi gwybodaeth sylfaenol ar gyfer y DU er mwyn llywio’r asesiad o’r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear ar draws y tri dimensiwn cynaliadwyedd: amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Diweddariad yw’r wybodaeth o’r hyn a ddefnyddiwyd i lywio’r Arfarniad o Gynaliadwyedd o’r gyfres ehangach o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol ar Ynni mewn ymarfer cwbl ar wahân, gyda ffocws cliriach ar gynhyrchu ynni o ymholltiad niwclear.

## 4.2 Crynodeb o’r wybodaeth sylfaenol genedlaethol

Mae’r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael ei gynnal i gefnogi’r gwaith o ddatblygu Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar niwclear, a fydd yn cael goblygiadau cenedlaethol, ac mae’r broses o gasglu data sylfaenol a fabwysiadwyd yn cynnwys data cenedlaethol lefel uwch ar gyfer pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Mae’r data sylfaenol yn rhoi trosolwg o nodweddion cynaliadwyedd y Deyrnas Unedig, gan ganolbwyntio’n benodol ar Gymru a Lloegr. Mae’r trosolwg hwn, ynghyd â gwybodaeth gyd-destunol, ar gael yn Atodiad B.

Defnyddio dangosyddion yw’r ffordd fwyaf effeithlon o gasglu data sylfaenol perthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod y gwaith o gasglu data ar y trywydd iawn ac yn effeithiol. Aethpwyd ati i bennu dangosyddion perthnasol ochr yn ochr â'r gwaith o asesu Polisïau, Cynlluniau a Rhaglenni perthnasol eraill, nodi Materion Cynaliadwyedd a datblygu fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Dylid nodi nad yw proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gofyn am gasglu data sylfaenol, ond yn hytrach mae'n dibynnu ar ddadansoddi’r wybodaeth bresennol. Fodd bynnag, pan fydd bylchau data’n bodoli yn y gweithgareddau casglu data gan yr awdurdodau, tynnir sylw at hyn yn adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Dewiswyd dangosyddion am eu gallu i ddarparu data gwrthrychol a fydd, dros amser, yn cynnig cipolwg ar y tueddiadau cyffredinol sy'n digwydd. Drwy gydol y broses asesu, bydd angen rhoi sylw i'r materion canlynol:

- Beth yw'r sefyllfa bresennol, gan gynnwys tueddiadau dros amser?
- Pa mor bell yw'r sefyllfa bresennol o drothwyon, amcanion neu dargedau hysbys?
- A oes modd i Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol effeithio ar elfennau arbennig o sensitif neu bwysig o'r amgylchedd, yr economi neu gymdeithas (effeithiau cadarnhaol a negyddol)?
- A yw'r effeithiau yn rhai ar raddfa fawr neu fach, yn wrthdroadwy neu'n ddiwrthdro, parhaol neu dros dro, uniongyrchol neu anuniongyrchol?
- Beth yw'r opsiynau sydd ar gael i atal, lleihau neu wneud iawn am unrhyw effeithiau negyddol sy'n deillio o Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol?
- Beth yw'r opsiynau sydd ar gael i rymuso unrhyw effeithiau cadarnhaol sy'n deillio o Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol?
- A fydd unrhyw effeithiau cronnus neu synergaidd sylweddol yn deillio o Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol dros amser?

Mae Atodiad B yn nodi'r wybodaeth sylfaenol genedlaethol a gasglwyd. Rhestrwyd y dangosyddion sydd wedi cael eu hystyried yn Nhabl 4-1 isod.

**Tabl 4-1: Crynodeb o'r wybodaeth sylfaenol genedlaethol**

| Pwnc | Gwybodaeth Sylfaenol (dangosyddion) |
|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Dosbarthiad allyriadau nwyon tŷ gwydr<br><br>Cyfraniad sectorau at allyriadau nwyon tŷ gwydr |
| Bioamrywiaeth ac Ecosystemau | Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig<br><br>Ardaloedd Cadwraeth Arbennig<br><br>Safleoedd Ramsar<br><br>Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Gwarchodfeydd Natur Lleol<br><br>Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Cymru, Lloegr, yr Alban) ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Gogledd Iwerddon) |

| | |
|---|---|
| | Parthau Cadwraeth Morol (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon) – sylwer bod y rhain hefyd yn cyd-fynd ag Ardaloedd Morol Dan Warchodaeth Ddwys<br><br>Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cadwraeth Natur (Yr Alban)<br><br>Coetir Hynafol<br><br>Cynefin â Blaenoriaeth<br><br>Gwarchodfeydd Biosffer<br><br>Afonydd Sialc (Lloegr yn unig)<br><br>Targedau Bioamrywiaeth<br><br>Rhywogaethau a Warchodir<br><br>Y Rhwydwaith Adfer Natur<br><br>Risgiau a chyfleoedd addasu i’r newid yn yr hinsawdd ar gyfer bioamrywiaeth |
| Cymunedau – Poblogaeth, Cyflogaeth, a Hyfywedd | Poblogaeth<br><br>Lleoliad prif aneddiadau ac ardaloedd poblogaeth<br><br>Poblogaeth oedran gweithio<br><br>Diweithdra<br><br>Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd |
| Cymunedau – Seilwaith Ategol | Lleoliad cysylltiadau rheilffyrdd strategol<br><br>Lleoliad rhwydwaith ffyrdd strategol<br><br>Lleoliad meysydd awyr<br><br>Lleoliad porthladdoedd<br><br>Rhwydwaith Nwy<br><br>Rhwydwaith Trydan Foltedd Uchel<br><br>Ffermydd Gwynt ar y Môr<br><br>Gorsafoedd Ynni Niwclear |

| | |
|---|---|
| Iechyd a Lles | Lefelau ymbelydredd yn yr amgylchedd<br>Mynegai Amddifadedd Lluosog (Lloegr)<br>Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban<br>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru<br>Mesur Amddifadedd Lluosog Gogledd Iwerddon<br>Y Rhaglen Mesur Lles Cenedlaethol<br>Llwybrau Cenedlaethol (Cymru a Lloegr), Great Trails Yr Alban<br>Parciau Gwledig<br>Rhwydweithiau Beicio Cenedlaethol<br>Llwybrau’r Arfordir<br>(Gweler hefyd Ansawdd Aer a Sŵn isod) |
| Amgylchedd Hanesyddol | Safleoedd Treftadaeth Byd<br>Henebion Cofrestredig<br>Meysydd Brwydr Hanesyddol<br>Parciau a Gerddi<br>Llongddrylliadau Gwarchodedig<br>Adeiladau Rhestredig<br>Ardaloedd Cadwraeth<br>Nodweddu Tirwedd Hanesyddol<br>Ardaloedd o Bwysigrwydd Archeolegol<br>Treftadaeth mewn Perygl<br>Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig<br>Arfordir Treftadaeth<br>Ffyrdd Rhufeinig |

| | |
|---|---|
| Tirlun, Treflun, a Morlun | Parciau Cenedlaethol<br>Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon) ac Ardaloedd o Harddwch Cenedlaethol (Yr Alban)<br>Arfordiroedd Treftadaeth (Cymru a Lloegr)<br>Ardaloedd Cymeriad Tirwedd<br>Ardaloedd Cymeriad Cenedlaethol (Lloegr)<br>Ardaloedd Cymeriad Morwedd (Cymru a Lloegr)<br>Llain Las<br>Asesiadau Cymeriad Tirwedd Lleol<br>Asesiadau Sensitifrwydd Tirwedd Lleol |
| Ansawdd Aer a Sŵn | Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer<br>Ardaloedd sy’n Bwysig o ran Sŵn |
| Priddoedd, Daeareg, a Defnydd Tir | Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Cymru, Lloegr, yr Alban) ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Gogledd Iwerddon)<br>Mapiau Pridd Cenedlaethol<br>Tir Halogedig<br>Geoparciau Byd-eang UNESCO<br>Dosbarthiad Tir Amaethyddol |
| Ansawdd Dŵr ac Adnoddau | Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr<br>Cynlluniau Rheoli Basn Afon<br>Ansawdd Dŵr Ymdrochi |
| Addasu i Newid yn yr Hinsawdd | Newidiadau a ragwelir i batrymau tymheredd a thywydd<br>Perygl o Lifogydd |

| | |
|---|---|
| | Lleoliad Gorlifdiroedd Afonol a Llanw a Chynlluniau Rheoli Traethlinau<br><br>Cynlluniau Gofodol Morol |
| Adnoddau a Gwastraff | Safleoedd Tirlenwi Gweithredol<br><br>Parthau diogelu ac archwilio mwynau<br><br>Trwyddedau Fforio |

Ategir Atodiad B gan ffigurau a nodir yn Atodiad C sy'n dangos dosbarthiad daearyddol rhai o'r prif ddynodiadau a defnydd tir ledled y DU. Mae Tabl 4-2 yn rhoi crynodeb o'r data a gyflwynir ar y ffigurau hyn. Nodir mewn cromfachau a yw'r haen wybodaeth yn berthnasol i ran benodol o'r DU yn unig.

**Tabl 4-2: Prif ddynodiadau a defnydd tir ledled y DU**

| Ffigur | Prif ddynodiadau / defnydd tir a ystyriwyd |
|---|---|
| Ffigur 1:<br><br>Bioamrywiaeth ac Ecosystemau | Afonydd Sialc (Lloegr)<br><br>Coetir Hynafol (Cymru a Lloegr)<br><br>Ramsar (Cymru a Lloegr)<br><br>Gwarchodfeydd RSPB (Cymru a Lloegr)<br><br>Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (Cymru a Lloegr)<br><br>Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (Cymru a Lloegr)<br><br>Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Cymru a Lloegr)<br><br>Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (Cymru a Lloegr)<br><br>Parthau Cadwraeth Morol (Cymru a Lloegr)<br><br>Gwarchodfeydd Biosffer (Lloegr)<br><br>Lagynau Heli (Cymru) |
| Ffigur 2: | Gorsafoedd Ynni Niwclear (Cymru a Lloegr) |

| | |
|---|---|
| Asedau Perthnasol | Is-orsafoedd Trydan (Cymru a Lloegr)<br><br>Safleoedd nwy (Cymru a Lloegr)<br><br>Llinellau Uwchben (Cymru a Lloegr)<br><br>Ffyrdd (Cymru a Lloegr)<br><br>Pibellau Cludo Nwy (Cymru a Lloegr) |
| Ffigur 3:<br><br>Amgylchedd Hanesyddol | Llongddrylliadau Gwarchodedig (Cymru a Lloegr)<br><br>Safleoedd Treftadaeth y Byd (Cymru a Lloegr)<br><br>Henebion Cofrestredig (Lloegr)<br><br>Meysydd Brwydr Cofrestredig (Lloegr)<br><br>Parciau a Gerddi Cofrestredig (Cymru a Lloegr)<br><br>Ffyrdd Rhufeinig (Cymru a Lloegr)<br><br>Ardaloedd Cadwraeth (Cymru a Lloegr)<br><br>Arfordiroedd Treftadaeth (Lloegr) |
| Ffigur 4:<br><br>Tirwedd | Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (Cymru a Lloegr)<br><br>Parciau Cenedlaethol (Cymru a Lloegr)<br><br>Llain Las (Lloegr) |
| Ffigur 5:<br><br>Ansawdd Aer a Sŵn | Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (Cymru a Lloegr)<br><br>Ardaloedd sy'n Bwysig o ran Sŵn (Lloegr)<br><br>Ardaloedd â Blaenoriaeth o ran Sŵn Traffig Ffyrdd a Rheilffyrdd (Cymru)<br><br>Mannau Tawel (Cymru) |
| Ffigur 6:<br><br>Ffactorau Hinsawdd | Parth Llifogydd 2 (Lloegr)<br><br>Parth Llifogydd 3 (Cymru a Lloegr)<br><br>Ardaloedd lle ceir Perygl o Lifogydd (Lloegr) |

| | |
|---|---|
| | Llifogydd Dŵr Wyneb (Cymru)<br><br>Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio: Afon a Môr (Cymru) |
| Ffigur 7<br><br>Cymunedau | Ardaloedd Dŵr Ymdrochi (Lloegr)<br><br>Llwybrau'r Arfordir (Cymru a Lloegr)<br><br>Llwybrau Cenedlaethol (Cymru a Lloegr)<br><br>Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (Cymru a Lloegr)<br><br>Parciau Gwledig (Cymru a Lloegr)<br><br>Tir Comin Cofrestredig (Lloegr)<br><br>Mannau Gwyrdd (Cymru a Lloegr) |
| Ffigur 8<br><br>Pridd | Safleoedd Tirlenwi Hanesyddol (Lloegr)<br><br>Safleoedd Gwastraff a Ganiateir (Lloegr)<br><br>Dosbarthiad Tir Amaethyddol (Cymru a Lloegr) |
| Ffigur 9<br><br>Dŵr | Cyrff Dŵr Afonydd, Camlesi a Throsglwyddiadau Dŵr Wyneb (Lloegr)<br><br>Parthau Gwarchod Tarddiad Dŵr Daear (Cymru a Lloegr)<br><br>Cyrff Dŵr Afon (Cymru)<br><br>Cyrff Dŵr Llyn (Cymru)<br><br>Dyfroedd Pysgod Cregyn (Cymru) |

Er bod y Ffigurau uchod yn dangos ystod o ddynodiadau allweddol a defnydd tir, nid yw'r raddfa a ddefnyddir i gyflwyno'r mapiad hwn yn caniatáu rhoi manylion llawn y data perthnasol. Y sail i lawer o'r agweddau uchod yw cyfres o ddynodiadau a defnydd tir mwy 'lleol' sydd hefyd yn ystyriaethau cynaliadwyedd. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, safleoedd sydd wedi'u dynodi fel Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, Ardaloedd sy'n Bwysig o ran Sŵn, asedau treftadaeth heb eu dynodi, adeiladau rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Ardaloedd Tirwedd Arbennig, Ardaloedd Tirwedd o Werth Uchel, ardaloedd o dir halogedig, Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac ati, a fydd yn ystyriaethau mewn unrhyw gais cynllunio Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Gan fod Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses ailadroddol, gallai camau dilynol yn y gwaith o'i baratoi a'i asesu ddod o hyd i faterion a blaenoriaethau eraill sy'n golygu cael gafael ar ddata a/neu wybodaeth ychwanegol a nodi strategaethau monitro. Mae hyn yn gwneud proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn hyblyg, addasadwy ac ymatebol i newidiadau yn amodau'r llinell sylfaen ac mae'n golygu bod modd dadansoddi tueddiadau dros amser.

Mae'r dadansoddiad o'r llinell sylfaen a'r esblygiad tebygol heb y Datganiad Polisi Cenedlaethol wedi tynnu sylw at nifer o faterion allweddol. Ceir crynodeb o'r rhain, ynghyd â'r goblygiadau a'r cyfleoedd sy'n codi ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol, yn Nhabl 5-1 ym Mhennod 5 Materion Cynaliadwyedd Allweddol.

**Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno bod y data sylfaenol sydd wedi cael ei gasglu, neu a fydd yn cael ei gasglu, yn berthnasol ac yn ddigon manwl i gefnogi'r Arfarniad o Gynaliadwyedd?**

# 5. Materion Cynaliadwyedd Allweddol

## 5.1 Cyflwyniad

Cam nesaf methodoleg yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yw nodi materion cynaliadwyedd. Mae Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn mynnu y dylid cynnwys y canlynol:

*unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen gan gynnwys, yn benodol, y rhai sy'n ymwneud ag unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol penodol, fel ardaloedd a ddynodwyd yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC ar warchod adar gwyllt a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Atodlen 2, paragraff 4).*

Ar ben hynny, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi ystyried problemau economaidd-gymdeithasol er mwyn darparu'r darlun llawn o ran cynaliadwyedd. Ar sail y darlun cynaliadwyedd llawn, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yna'n gweithio i nodi'r ffyrdd y bydd y materion cynaliadwyedd a nodwyd yn effeithio ar y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd, neu'r ffyrdd y gallai effeithio arno.

## 5.2 Crynodeb o faterion, goblygiadau a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol

Seiliwyd y gwaith o nodi materion cynaliadwyedd allweddol ar yr adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni perthnasol (Pennod 3) a chasglu data gwaelodlin (Pennod 4). Cyflwynir crynodeb o'r materion isod yn Nhabl 5-1. Oherwydd cwmpas daearyddol y Datganiad Polisi Cenedlaethol, mae'r crynodeb hwn o faterion cynaliadwyedd allweddol yn canolbwyntio ar Gymru a Lloegr, ynghyd â'r Deyrnas Unedig gyfan fel sy'n briodol.

Dylid nodi bod rhai materion yn drawsbynciol ac yn effeithio ar sawl pwnc. Er enghraifft, gall newid yn yr hinsawdd effeithio ar fioamrywiaeth, adnoddau dŵr, llifogydd a thirweddau. Mae Tabl 5-1 yn dangos y cysylltiadau ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a nodir yn y bennod ganlynol.

**Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno â'r dewis o faterion cynaliadwyedd allweddol a'r diffiniadau ohonynt?**

**Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad: A oes unrhyw ddata gwaelodlin allweddol ar gael sy'n cael ei ddefnyddio, neu y gellid ei ddefnyddio, i gefnogi'r materion nad ydynt wedi cael eu nodi?**

**Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno â'r goblygiadau a'r cyfleoedd a nodwyd ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol?**

**Tabl 5-1: Materion allweddol a chyfleoedd ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol**

| Mater Allweddol a chrynodeb o'r sefyllfa/gwybodaeth gwaelodlin | Crynodeb o esblygiad tebygol y waelodlin heb y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd (tuedd o ran cyfeiriad yr amod) | Goblygiadau a Chyfleoedd ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd ar Niwclear | Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (gweler Adran 6) |
|---|---|---|---|
| **Bioamrywiaeth – gallai datblygiadau niwclear newydd a newid sylfaenol yn yr hinsawdd roi pwysau ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur a seilwaith gwyrdd ehangach, er bod cyfleoedd hefyd ar gyfer datblygiadau niwclear newydd er budd y seilwaith gwyrdd ehangach a sicrhau Budd Net i Fioamrywiaeth.**<br>Ledled Cymru a Lloegr, dynodir safleoedd yn rhyngwladol (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, safleoedd Ramsar) a dynodiadau cenedlaethol (Safloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) ar gyfer cadwraeth natur. Rhoddir y lefel uchaf o warchodaeth i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, | **Dirywiad**<br><br>Rhoddir lefel uchel o ddiogelwch rhag effeithiau datblygu i safleoedd a ddynodwyd, ac maen nhw'n wynebu pwysau sylweddol oherwydd bygythiadau parhaus gan arferion mewn sectorau fel diwydiant, amaethyddiaeth, trafnidiaeth, cyflenwi dŵr / gwaredu dŵr gwastraff, ochr yn ochr â phwysau mwy cyffredinol yn sgil trefoli ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.<br><br>Fodd bynnag, er bod disgwyl dirywiad cyffredinol mewn bioamrywiaeth o | Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol geisio gwarchod a gwella pob safle sy'n bwysig o ran bioamrywiaeth yn y DU a rhoi pwyslais penodol ar ddiogelu safleoedd a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur, yn ogystal â darpar safleoedd a safleoedd posibl ar draws amgylcheddau morol yn ogystal ag amgylcheddau tiriogaethol. Gellid cyflawni hyn drwy sicrhau bod cynllunio / dyluniad datblygiadau cynhyrchu niwclear newydd a'u seilwaith cysylltiedig yn osgoi ardaloedd sensitif a thrwy fabwysiadu'r arferion gorau o ran cynlluniau sy'n ystyriol o fywyd gwyllt ac sy'n darparu seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylid cael mesurau lliniaru ac iawndal am golledion.<br><br>Ochr yn ochr ag Arfarniad o Gynaliadwyedd y Datganiad Polisi | Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi cadernid a swyddogaethau'r ecosystem<br><br>Diogelu a gwella safleoedd sydd wedi'u dynodi am eu pwysigrwydd rhyngwladol at ddibenion cadwraeth natur |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, safleoedd Ramsar a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig drwy ddynodiadau statudol.<br><br>Yn Lloegr, mae cyfanswm o 82 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, ac mae cyfanswm o 17 yng Nghymru. Hefyd, mae 242 Ardal Cadwraeth Arbennig yn Lloegr ac 85 yng Nghymru. Sylwch fod safleoedd wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth natur yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd a bod posibilrwydd y bydd cynigion sy'n cael eu hystyried gan y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn effeithio ar y rhain.<br><br>Ledled y DU, mae rhwydwaith eang o rywogaethau â blaenoriaeth a'u cynefinoedd, gan gynnwys y rhai a nodwyd fel y rhai sydd dan y bygythiad mwyaf a lle mae angen cymryd camau gweithredu cadwraeth o dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Lluniwyd rhestrau o rywogaethau â blaenoriaeth (ac maent yn cael eu diweddaru) mewn perthynas â phob un o wledydd y DU. Mae llawer o'r | hyd, mae'n bwysig nodi y bydd gofyniad o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021, i unrhyw gais cynllunio newydd am ddatblygiad o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref) gyflawni o leiaf 10% o Enillion Net Bioamrywiaeth wedi'i sicrhau am gyfnod o ddim llai na 30 mlynedd o fis Tachwedd 2023. Ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, bydd y gofyniad yn berthnasol yn ddiweddarach, o fis Tachwedd 2025 ymlaen. Gall Enillion Net Bioamrywiaeth fod ar neu oddi ar y safle a bydd y llywodraeth yn cadw cofrestr o hyn. Mae'r gofyniad am Enillion Net Bioamrywiaeth hefyd yn berthnasol i safleoedd tir llwyd. | Cenedlaethol, cynhelir Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a fydd yn nodi'r ardaloedd cadwraeth natur â dynodiad rhyngwladol sy'n debygol o gael eu heffeithio arnynt a, lle bo modd, canfod pa mor debygol yw hi y bydd effeithiau ar gyfanrwydd y safleoedd hyn a nodi mesurau lliniaru ac osgoi priodol yn ystod y camau cynnar o ddatblygu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol geisio diogelu rhywogaethau â blaenoriaeth a'u cynefinoedd. Dylid canolbwyntio'n benodol hefyd ar leihau'r effeithiau ar gynefinoedd na ellir eu disodli fel coetiroedd hynafol a choed hynafol a hynod, gyda rhagdybiaeth na fydd yr ardaloedd / nodweddion hyn yn dirywio oni bai y gellir dangos y byddai'r manteision i'r cyhoedd yn drech na'r golled.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol nodi'r angen i ystyried symudiadau rhywogaethau symudol / mudol ledled y DU a thu hwnt wrth ddatblygu unrhyw gyfleuster newydd i gynhyrchu pŵer niwclear. Dylid canolbwyntio hefyd ar yr angen i atal cyflwyno neu ledaenu Rhywogaethau Goresgynnol Anfrodorol. | (yn gysylltiedig â phroses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| rhywogaethau hyn yn rhai mudol / ymfudol. Ar ben hynny, mae llawer o rywogaethau Goresgynnol Anfrodorol (tua 3,000 ledled y DU) sy’n gallu bod yn fygythiad i rywogaethau brodorol.<br><br>Mae nifer o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn gwarchod cynefinoedd a/neu rywogaethau sy’n gysylltiedig â’r amgylchedd morol. Ar hyn o bryd, dynodwyd 46 Ardal Gwarchodaeth Arbennig gyda chydrannau morol yn rhannol neu’n gyfan gwbl yn nyfroedd Lloegr a dynodwyd 10 yn nyfroedd Cymru. Lleolir cyfanswm o 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig gyda chydrannau morol yn nyfroedd Cymru a Lloegr.<br><br>Ar hyn o bryd, dynodwyd 37 Ardal Cadwraeth Arbennig gyda chydrannau morol yn rhannol neu’n gyfan gwbl yn nyfroedd Lloegr a dynodwyd 12 yn rhannol neu’n gyfan gwbl yn nyfroedd Cymru. Lleolir cyfanswm o 3 Ardal Cadwraeth Arbennig arall gyda | Os byddai datblygiad yn arwain at golli cynefin amhosibl ei ddisodli, yna bydd hyn y tu allan i’r cyfrifiad Enillion Net Bioamrywiaeth ar gyfer y datblygiad, a byddant yn dod i gytundeb gyda’r awdurdod cynllunio perthnasol ar iawndal penodol ar gyfer yr ardal amhosibl ei disodli.<br><br>Mae hefyd yn fwriad gan y llywodraeth i hyrwyddo gweithgarwch eraill) i helpu i atal colli bioamrywiaeth yn fwy cyffredinol, fel sefydlu Strategaethau Adfer Natur Lleol (fel y’u hyrwyddir gan Defra) a sefydlu Rhwydwaith Adfer Natur drwy’r ymrwymiad yn y Cynllun Amgylchedd 25 Mlynedd.<br><br>Lansiodd Defra ymgynghoriad ar Enillion Net Morol ym mis Mehefin 2023 yn gofyn am | Dylai’r Datganiad Polisi Cenedlaethol edrych ar gyfleoedd i greu a gwella cynefinoedd newydd sy’n gysylltiedig â datblygiadau cynhyrchu pŵer niwclear, e.e. drwy ddefnyddio rhywogaethau brodorol lleol priodol mewn cynlluniau tirweddu a darparu Enillion Net Bioamrywiaeth. Dylid hefyd ystyried y posibilrwydd o greu bioamrywiaeth mewn safleoedd tir llwyd. Felly, dylid cyflawni Enillion Net Bioamrywiaeth, gan gydnabod bod angen targed sylfaenol o 10% fel rhan o Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Ar gyfer ardaloedd gwarchodedig statudol a’u nodweddion, dylai Enillion Net Bioamrywiaeth fod yn ychwanegol at unrhyw ofynion cyfreithiol a pholisi presennol sy’n berthnasol i safleoedd dynodedig o’r fath.<br><br>Dylai’r Datganiad Polisi Cenedlaethol hefyd nodi’r angen i ddatblygu cyfleusterau cynhyrchu niwclear newydd i ystyried a cheisio darparu gwelliannau i gyfalaf naturiol a gwasanaethau ecosystem (h.y. cyflawni manteision net amgylcheddol ehangach) wrth ystyried sut i gyflawni Enillion Net Bioamrywiaeth.<br><br>Mae cyfleoedd eraill ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn cynnwys y canlynol: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| chydrannau morol yn nyfroedd Cymru a Lloegr.<br><br>Ym mis Mehefin 2023, roedd 68 o safleoedd Ramsar yn Lloegr, a chyfanswm eu harwynebedd oedd 320,648 ha, ac mae 7 safle Ramsar yng Nghymru, gyda chyfanswm o 11,366ha.<br><br>Yn ogystal â'r safleoedd hyn sydd â dynodiadau rhyngwladol, mae dros 4000 o Safloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn Lloegr a dros 1000 yng Nghymru. Hefyd, dynodwyd 89 o Barthau Cadwraeth Morol yn Lloegr, ac mae 1 Parth Cadwraeth Morol yn nyfroedd Cymru. Sylwch y gall Parthau Cadwraeth Morol hefyd gynnwys ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n Ardaloedd Morol Dan Warchodaeth Ddwys, sydd ag amcanion cadwraeth gwahanol, er eu bod yn cyd-fynd â'r un ardal.<br><br>Cofnodwyd nifer sylweddol o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol a Gwarchodfeydd Natur Lleol ledled Cymru a Lloegr. Ceir hefyd sawl ardal o Goetiroedd Hynafol a | safbwyntiau ar nodau ac egwyddorion arfaethedig enillion net morol a'r ffordd orau o gyflwyno dull cynnydd net o ran seilwaith a datblygu yn yr amgylchedd morol. Mae darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd 2021 i ganiatáu gwneud enillion net morol yn orfodol yn y dyfodol. | • integreiddio a gwella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach gan gyfrannu at y Rhwydwaith Adfer Natur;<br>• creu rhwydweithiau cynefinoedd cydlynol i helpu cynefinoedd a rhywogaethau i addasu i ganlyniadau'r newid yn yr hinsawdd;<br>• gwella bioamrywiaeth gan roi ystyriaeth lawn i'w allu i storio neu atafaelu carbon;<br>• adfer bioamrywiaeth ar ôl adeiladu a datgomisiynu gorsafoedd niwclear; a<br>• gall mwy o hygyrchedd at seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol a ddyluniwyd yn briodol chwarae rhan bwysig o ran dargyfeirio pwysau oddi wrth safleoedd neu ardaloedd mwy sensitif.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol sicrhau y lleolir strwythurau sugno a gollwng y systemau oeri mewn ffordd sy'n osgoi neu'n lleihau effeithiau niweidiol ar y dyfroedd derbyn, gan gynnwys mesurau penodol i leihau'r effaith ar bysgod a biota dŵr drwy wrthdaro a llusgo neu gan fod gwres gormodol neu gemegau bioladdwyr | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| chynefinoedd â blaenoriaeth, ynghyd â Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur a safleoedd coridor bywyd gwyllt sydd â dynodiadau lleol. Er nad yw'r ardaloedd hyn yn cael y warchodaeth statudol uchaf, maent yn cyfrannu'n sylweddol at gadwraeth natur.<br><br>Mae amrywiaeth eang o faterion yn bygwth pob safle, o'r rheini a ddynodwyd gyda'r lefel uchaf un o warchodaeth, i'r ardaloedd hynny ar y lefel leol, fel colli cynefinoedd, ymlediad pobl, arferion rheoli gwael a rhywogaethau goresgynnol. Gall newidiadau yn ansawdd yr aer a'r dŵr ynghyd â newid hinsawdd hefyd newid dosbarthiad rhywogaethau a chynefinoedd yn y safleoedd hyn. Gallai mwy o hygyrchedd neu agosrwydd datblygiadau i safleoedd dynodedig hefyd gael effaith niweidiol anuniongyrchol arnynt, er enghraifft drwy aflonyddwch neu ddyddodiad llygredd.<br><br>Mae'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach ledled Cymru a Lloegr yn | | yn cael eu gollwng i ddyfroedd derbyn. Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hefyd nodi goblygiadau posibl carthu yn yr amgylchedd dŵr croyw, aberol neu forol, yn ogystal â'r gofyniad ar gyfer trwyddedu a chysylltu â chyrff fel y Sefydliad Rheoli Morol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| cynnwys safleoedd a ddynodwyd at ddibenion cadwraeth natur, a hefyd nifer o fannau gwyrdd amlbwrpas eraill a'r cysylltiadau rhwng lleoliadau o'r fath. Mae'r rhwydwaith hwn yn agored iawn i effeithiau datblygu, gan gynnwys:<br><br>• cymryd tir yn uniongyrchol (a allai gyfrannu at ddarnio)<br>• tarfu yn sgil adeiladu a gweithrediadau (sŵn, dirgrynnu, llygredd golau, ac ati)<br>• allyriadau / halogiad (aer, dŵr a phridd)<br><br>Yn yr amgylchedd morol, effeithir ar adar, mamaliaid, pysgod, cynefinoedd pelagig a chynefinoedd benthig gan faterion fel:<br><br>• echdynnu rhywogaethau gwyllt, neu achosi eu marwolaeth / anafiadau iddynt (yn sgil cynaeafu pysgod a physgod cregyn yn fasnachol a physgota hamdden a gweithgareddau eraill) | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| <ul><li>newidiadau i amodau hydrolegol</li><li>sain anthropogenig</li><li>mewnbynnu mathau eraill o ynni (gan gynnwys meysydd electromagnetig, golau a gwres)</li><li>colli cynefinoedd benthig ffisegol (oherwydd newid parhaol i is-haenau neu forffoleg gwely'r môr ac echdynnu is-haenau gwely'r môr).</li></ul>I gydnabod y bygythiadau parhaus a lefelau brawychus y dirywiad mewn bioamrywiaeth, gwnaed amryw o ymrwymiadau ar y lefelau Rhyngwladol, Cenedlaethol a Lleol er mwyn atal colli bioamrywiaeth a gwrthdroi'r colledion hynny a fu hyd yma – mae hyn wedi arwain at yr angen am ddatblygiad newydd i sicrhau Enillion Net Bioamrywiaeth (BNG) yn y DU, a nodwyd isafswm o 10% yn Neddf yr Amgylchedd 2021. Ar hyn o bryd, dim ond i gydrannau daearol a rhynglanwol datblygiad newydd y mae targedau | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enillion Net Bioamrywiaeth yn berthnasol. Ar hyn o bryd, mae Defra wrthi'n datblygu egwyddorion ar gyfer Enillion Net Morol a fydd yn darparu rhagor o arweiniad maes o law.<br><br>Gosodwyd tri tharged statudol hirdymor yn 2022:<br><br>• lleihau'r risg y bydd rhywogaethau'n diflannu erbyn 2042, o'i gymharu â'r risg y bydd rhywogaethau'n diflannu yn 2022.<br>• bod cyflwr ffafriol ar o leiaf 70% o nodweddion gwarchodedig mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig erbyn 31 Rhagfyr 2042, gyda chyflwr y nodweddion sy'n weddill wrthi'n adfer.<br>• bod o leiaf 16.5% o holl dir Lloegr wedi'i orchuddio â choetiroedd a choed y tu allan i goetir erbyn 31 Rhagfyr 2050. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Geoamrywiaeth – gallai datblygiadau niwclear newydd roi pwysau ar safleoedd geoamrywiaeth dynodedig**<br><br>Yn ogystal â'r tri Geoparc a ddynodwyd yn Lloegr a'r ddau yng Nghymru, dynodwyd nifer o ardaloedd yn Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd bod geoamrywiaeth, neu geoamrywiaeth wedi'u cyfuno â phwysigrwydd o ran bioamrywiaeth. Mae'r ardaloedd hyn mewn cymysgedd o wahanol gyflyrau, gyda rhai'n ffafriol a rhai'n anffafriol. Mae rhai o'r ardaloedd yn dirywio hefyd, tra bo eraill yn adfer.<br><br>Mae hefyd amrywiaeth o Safleoedd Daeareg o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS) a Safleoedd Daearegol Lleol ledled Cymru a Lloegr.<br><br>Mae daeareg ar draws Cymru a Lloegr yn wynebu nifer o fygythiadau gan weithgareddau dynol fel datblygiadau newydd, llygredd, ffyrdd, tarfu, arferion ffermio; newidiadau i reolaeth | **Dirywiad**<br><br>Er bod rhai o'r adnoddau geoamrywiaeth mewn cyflwr ffafriol, nid yw hynny'n wir am rai ohonynt ac mae datblygiadau'n bygwth pob agwedd arnynt e.e. oherwydd trefoli cynyddol yn gyffredinol a'r angen am seilwaith, yn ogystal â'r angen i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.<br><br>Heb Ddatganiad Polisi Cenedlaethol, mae mwy o bosibilrwydd y bydd datblygiadau amhriodol ar dir glas, er y rhoddir rhywfaint o warchodaeth i ardaloedd sy'n bwysig o ran geoamrywiaeth fel y rheini a ddynodwyd yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth. | Mae angen dull strategol a chydlynol i ddatblygu seilwaith newydd i gyfyngu ar y posibilrwydd ar gyfer datblygiadau amhriodol ar safleoedd geoamrywiaeth. Gallai datblygiad amhriodol hefyd arwain at newidiadau yn neinameg traethlinau / prosesau arfordirol a allai beri risg anuniongyrchol i safleoedd o bwysigrwydd geoamrywiaeth ar y draethlin ac mewn dyfroedd morol.<br><br>Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn gyfle i ddatblygu egwyddorion strategol a gynlluniwyd i osgoi safleoedd geoamrywiaeth a rheoli'r draethlin, rheoli llygredd, hyrwyddo ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen a mynd i'r afael â rhai o achosion newid yn yr hinsawdd, a dylai pob un o'r rhain helpu i ddiogelu'r adnodd geoamrywiaeth.<br><br>Gallai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hefyd annog mwy o fynediad at safleoedd o ddiddordeb geoamrywiaeth ar y tir. | Gwarchod, gwella a hyrwyddo geoamrywiaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| traethlinau, colli cynefin; a newid yn yr hinsawdd. | | | |
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr – mae angen brys i leihau allyriadau o'r sector ynni ymhellach**<br><br>Cysylltwyd cynhesu'r atmosffer a'r newid yn yr hinsawdd fyd-eang â rhyddhau nwyon tŷ gwydr i'r atmosffer e.e. carbon deuocsid (CO2), methan (CH4), ocsid nitrus (N2O) a nwyon wedi'u fflworeiddio) sy'n deillio o ddefnyddio tanwydd ffosil, amaethyddiaeth, newid defnydd tir a gweithgareddau dynol eraill.<br><br>Yn 2021, roedd cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr net y DU yn cyfateb i 426.51 miliwn tunnell o CO2 cyfatebol (MtCO2e). Mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu toriadau sylweddol mewn allyriadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhwng 1990 a 2019 bu gostyngiad o 43.8% yng nghyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol, a bu gostyngiad o 2.8% rhwng 2018 a 2019. Y prif sail i'r gostyngiad hwn | **Dirywiad**<br><br>Mae ymyriadau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i gynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy wedi dechrau lleihau'r gyfradd allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r sector ynni; ac mae camau gweithredu o'r fath y tu allan i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn cyfrannu at ddatgarboneiddio rhwydweithiau ynni.<br><br>Fodd bynnag, mae'r duedd sylfaenol yn cyfeirio at arafu allyriadau yn hytrach na gwrthdroi tueddiadau. | Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol sicrhau bod lleihau allyriadau CO2 a chyflawni Sero Net yn elfen graidd yn ystod oes unrhyw ddatblygiad niwclear. Dylai prosesau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu gorsafoedd cynhyrchu pŵer niwclear newydd fod yn Sero Net a dylid defnyddio dulliau cael gwared ar allyriadau negyddol, drwy ddulliau technolegol a rhai ar sail ar natur, ar gyfer unrhyw allyriadau sy'n weddill.<br><br>Dylai'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol hefyd sicrhau y manteisir ar gyfleoedd i gael cymaint â phosibl o orchudd coed ac i adfer mawndiroedd. Ymysg manteision eraill, gall mynd ati i leoli safle a dewis rhywogaethau'n ofalus mewn coetir newydd gyfrannu at gyfraddau dal a storio carbon drwy amsugno mwy o CO2 o'r atmosffer. Bydd adfer mawndir mewn cyflwr anffafriol yn caniatáu cadw stoc fawr o garbon ac yn osgoi ei ryddhau i'r atmosffer.<br><br>Mae cyfle i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol gydlynu'r lleoliadau datblygu | Yn gyson â'r targed cenedlaethol o leihau allyriadau carbon i Sero Net erbyn 2050 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| rhwng 1990 a 2019 yw'r gostyngiad mewn allyriadau o'r sector cyflenwi ynni – yn enwedig o orsafoedd pŵer oherwydd llai o ddibyniaeth ar lo a mwy o effeithlonrwydd o ran defnyddio tanwydd e.e. i wresogi adeiladau. Yn 2020, bu gostyngiad pellach o 9.5% o'i gymharu â ffigur 2019, 49.7% yn is nag yr oeddent yn 1990. Cafodd pandemig y coronafeirws (COVID-19) a'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yn 2020 ar draws y DU effeithiau mawr ar wahanol agweddau ar gymdeithas a'r economi, a arweiniodd at ostyngiad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr.<br><br>Yn 2021 roedd cynnydd o 5% o'i gymharu â ffigur 2020, ond roedd yn dal i fod 5.3% yn is nag yn 2019, y flwyddyn ddiweddaraf cyn y pandemig.<br><br>Mae ffigurau dros dro ar gyfer 2022 yn dangos, er gwaethaf y cynnydd mewn rhai allyriadau wrth i'r DU barhau â'i adferiad ar ôl pandemig COVID-19, fod gostyngiad pellach mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn | | ynni strategol arfaethedig gyda chysylltiadau seilwaith cynaliadwy. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2022 oherwydd gostyngiad yn y defnydd o danwydd i wresogi adeiladau. Bydd hyn yn bennaf oherwydd bod 2022 yn llawer cynhesach na 2021 ac efallai bod prisiau ynni uwch hefyd wedi bod yn ffactor, yn enwedig tua diwedd y flwyddyn. Amcangyfrifir bod cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng o 2.2% o'i gymharu â 2021. O'i gymharu â 2019, y flwyddyn ddiweddaraf cyn y pandemig, mae allyriadau CO2 2022 7.5% yn is ac mae cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng o 7.4%. Roedd cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr 48.7% yn is nag oeddent yn 1990.<br><br>CO2 yw'r cyfrannwr mwyaf at gynhesu byd-eang yn y DU, a'r ffynonellau mwyaf ohonynt yw cynhyrchu pŵer a thrafnidiaeth ar y ffyrdd. Mae allyriadau wedi gostwng ers 1990 oherwydd newid tanwydd, newid strwythurol, a gwelliannau mewn effeithlonrwydd defnydd terfynol. Yr ail ffynhonnell bwysicaf o nwyon tŷ gwydr yw methan (CH4). Mae allyriadau CH4 blynyddol wedi | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| mwy na haneru ers 1990. Prif ffynonellau $CH_4$ yw amaethh, gwaredu gwastraff, gollyngiadau o'r system dosbarthu nwy a chloddio am lo. Caiff gostyngiadau mewn allyriadau $CH_4$ yn y DU eu sbarduno gan y cynnydd yn y defnydd o fethan o safleoedd tirlenwi, gostyngiad mawr mewn cloddio am lo yn y DU, buddsoddiad mewn gwelliannau i seilwaith y cyflenwad nwy naturiol i leihau gollyngiadau a gostyngiad yn nifer y da byw. Mae allyriadau ocsid nitrus blynyddol hefyd wedi mwy na haneru ers 1990. Y sector amaethyddiaeth sy'n cynhyrchu'r rhan fwyaf o allyriadau $N_2O$ sydd wedi gostwng yn bennaf oherwydd bod llai o allyriadau o ddefnyddio gwrtaith synthetig. Mewn nwyon wedi'u fflworeiddio oedd y gostyngiad canrannol lleiaf mewn allyriadau ar draws y gyfres amser: HFCs, PFCs, $NF_3$ ac $SF_6$. Bu gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ers 1995, yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn y nwyon wedi'u fflworeiddio a gynhyrchwyd yn y DU a gosod offer atal mewn | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| dau o'r tri gweithgynhyrchwr yn y DU. Gwrthbwyswyd y gostyngiadau hyn mewn allyriadau i ryw raddau gan y cynnydd yn y defnydd o hydrofflwrocarbonau fel dirprwyon yn lle sylweddau sy'n teneuo'r osôn, yn enwedig mewn oergelloedd a systemau aerdymheru. Arweiniodd ymdrechion cryfach gan y llywodraeth i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd at ymrwymiadau (a wnaed ym mis Rhagfyr 2020 o dan ohebiaeth Cyfraniadau a Bennir yn Genedlaethol y DU i'r UNFCCC[7]) i sicrhau gostyngiad o ddim llai na 68% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ar draws yr economi gyfan erbyn 2030, o'i gymharu â lefelau 1990 a'r diwygiad i'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd yn 2019 er mwyn dod ag allyriadau nwyon tŷ gwydr i Sero Net (gostyngiad o 100% o'i gymharu â lefelau 1990) erbyn 2050.<br><br>O dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 y DU, mae'r DU wedi gosod chwe 'chyllideb garbon' hyd yma. Mae'r rhain yn gosod | | | |

[7] UNFCCC yw Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd

| | | | |
|---|---|---|---|
| capiau pum mlynedd interim ar allyriadau rhwng 2008 a 2037. Ar hyn o bryd mae'r DU yn y pedwerydd cyfnod cyllideb (2023 i 2027). Cyflawnwyd y gyllideb garbon gyntaf (2008-12) a'r ail (2013-17) ac mae'r DU ar y trywydd iawn i ragori ar y trydydd (2018-22). Fodd bynnag, nid yw ar y trywydd iawn i gyflawni'r pedwerydd (2023-27) na'r pumed (2028-32) sy'n gofyn am ostyngiad o 50% a 57% mewn allyriadau yn is na'r flwyddyn sylfaen.<br><br>Mae Strategaeth Sero Net y DU yn nodi na ellir gwybod nawr beth fydd yr union dechnoleg a chymysgedd ynni yn 2050, a bydd y llwybr tuag at sero net yn ymateb i arloesi a mabwysiadu technolegau newydd dros amser. Fodd bynnag, disgwylir iddo ddibynnu, ymysg technolegau eraill, ar drydan o dechnolegau cynhyrchu a storio carbon isel i ateb y galw uwch am bŵer carbon isel mewn adeiladau, diwydiant, trafnidiaeth ac amaethyddiaeth. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae Atebion ar Sail Natur (NBS) yn ffordd o gyflawni allyriadau negyddol drwy secwestriad biolegol. O'i gymharu ag atebion i heriau'r hinsawdd sy'n seiliedig ar dechnoleg, mae'r Arbedion ar Sail Natur yn aml yn fwy cost-effeithiol, yn para'n hirach, ac mae iddynt nifer o fanteision synergaidd gan gynnwys: lleihau allyriadau net, ehangu sinciau carbon; darparu cynefinoedd ar gyfer bioamrywiaeth, bod o fudd i iechyd a lles pobl, helpu ein cymdeithas a'n heconomi i addasu i newid yn yr hinsawdd, a gwneud lleoedd mwy gwydn a brafiach i fyw a gweithio ynddynt. | | | |
| **Addasu i hinsawdd sy'n newid – Mae'r DU eisoes yn gweld effaith newid yn yr hinsawdd gyda mwy o ddigwyddiadau tywydd garw, sy'n arwain at lifogydd, cyfnodau o wres uchel a hafau poethach. Mae angen i ddatblygiadau niwclear fod yn gadarn o ran newid yn yr hinsawdd.**<br><br>Mae Rhagolygon Hinsawdd y DU yn dangos bod y DU gyfan yn debygol | **Dirywiad**<br><br>Cydnabyddir fod newid yn yr hinsawdd yn bryder byd-eang, a rhagwelir y bydd Cymru a Lloegr, fel gweddill y DU, yn profi hafau poethach a sychach; gaeafau cynhesach a gwlypach; a bydd lefel y môr yn codi. Rhagwelir y bydd y tueddiadau hyn yn | Mae angen i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol gydnabod bod newidiadau mewn tymheredd a phatrymau glawiad, ynghyd â thywydd eithafol amlach (a fydd, er enghraifft, yn arwain at sychder neu lifogydd), yn creu'r sefyllfa lle bydd yn rhaid ymgorffori mwy o wytnwch i'r seilwaith ynni niwclear.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol gydnabod yr heriau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd a cheisio lleihau'r | Sicrhau ein bod yn addasu gymaint ag y gallwn ac mor gadarn a phosibl yn wyneb newid yn yr hinsawdd<br><br>Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac |

| | | | |
|---|---|---|---|
| o barhau i brofi hafau poethach a sychach, gaeafau cynhesach, gwlypach gyda lefel y môr yn codi. Mae hyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar amrywiaeth o amodau amgylcheddol, gan gynnwys yr amgylchedd dŵr ac mae angen brys i feithrin cadernid rhag yr hinsawdd.<br><br>Ynghyd â chynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol, rhagwelir y bydd y newid yn yr hinsawdd yn arwain at fwy o risg i bobl ac i leoedd, gan gynnwys risgiau i iechyd a lles o ganlyniad i gynnydd mewn tymheredd eithafol; risg i bobl, cymunedau ac adeiladau o ganlyniad i lifogydd; risg i hyfywedd cymunedau arfordirol o ganlyniad i lefel y môr yn codi; risg i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn sgil tywydd eithafol a risg i iechyd o ganlyniad i newidiadau yn ansawdd yr aer.<br><br>Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o olygu y bydd digwyddiadau tywydd garw yn digwydd yn amlach ac y byddant yn fwy dwys. Ar hyn o bryd, mae cyfran | parhau, ac y gallent waethygu, beth bynnag fo'r ymyriadau o'r tu allan i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol. | effeithiau. Dylai unrhyw ddyluniad ystyried digwyddiadau tywydd mwy cyson a mwy eithafol sy'n arwain at lifogydd yn ogystal â materion fel codi lefel y môr a newid arfordirol ac erydu arfordirol.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol geisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn lleihau unrhyw effeithiau negyddol yn sgil llifogydd ac yn osgoi ardaloedd lle mae'r perygl mwyaf o lifogydd lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Gall perygl llifogydd a newid arfordirol gael effaith sylweddol ar rywogaethau a safleoedd a dylid ystyried hynny mewn unrhyw ddyluniad. Dylid ystyried ac annog gweithredu seilwaith gwyrdd-glas aml-bwrpas gan gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy a mesurau priodol neu ddulliau newydd eraill lle bo hynny'n ymarferol. Dylai hyn gynnwys Rheoli Llifogydd yn Naturiol a dulliau eraill o gynyddu cynhwysedd storio dŵr llifogydd.<br><br>Mae nifer o fanteision yn gysylltiedig ag atebion sy'n seiliedig ar natur fel plannu coed neu adfer mawndir, gan gynnwys addasiadau i'r newid yn yr hinsawdd. Mae polisïau strategol yn gyfle i hyrwyddo hyn fel ffordd o ddarparu oeri trefol, manteision | ecolegol, sicrhau manteision net bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi cadernid a swyddogaethau'r ecosystem<br><br>Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau annhegwch ym maes iechyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| sylweddol o boblogaeth y DU mewn perygl o lifogydd, er bod maint y risg yn amrywio, gydag amryw o ffactorau'n effeithio ar y risg bosibl. Mae mwy o lifogydd a mwy o berygl llifogydd yn cael eu cydnabod fel rhai o brif fygythiadau posibl y newid yn yr hinsawdd oherwydd y risg uniongyrchol bosibl i eiddo a seilwaith, yn ogystal â'r risg uniongyrchol bosibl i fywyd pobl a'r risg anuniongyrchol i lesiant meddyliol. Ar ben hynny, gallai digwyddiadau tywydd eithafol gynnwys mwy o risg o dymheredd uwch yn ystod yr haf, neu gyfnodau oer eithriadol.<br><br>Ledled Cymru a Lloegr, nodwyd ardaloedd lle mae perygl posibl o lifogydd o afonydd a ffynonellau arfordirol ac fe'u nodir mewn cyfres o fapiau perygl llifogydd a chynlluniau rheoli llifogydd. Mae yna Barthau Llifogydd 2 a 3 ledled Cymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, mae perygl o lifogydd i nifer sylweddol iawn o eiddo – er enghraifft, dros 5.2 miliwn eiddo yn Lloegr yn unig. | | bywyd gwyllt, cyfrannu at leihau llifogydd a chefnogi mesurau i ddal a storio carbon<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol fynd i'r afael â'r risgiau i hyfywedd ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau tiriogaethol a dŵr croyw yn sgil nifer o beryglon hinsawdd.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol fynd i'r afael â'r risgiau i storfeydd carbon naturiol a mesurau dal a storio yn sgil nifer o beryglon sy'n arwain at fwy o allyriadau.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol fynd i'r afael â'r risgiau i bobl ac i'r economi yn sgil methiant y system bŵer yn sgil newid yn yr hinsawdd.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol fynd i'r afael â risgiau i iechyd pridd yn sgil cynnydd mewn llifogydd a sychder.<br><br>Mae angen cydnabod hefyd y goblygiadau iechyd sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd a gall y Datganiad Polisi Cenedlaethol sbarduno ymateb strategol i ffactorau cysylltiedig â newid yn yr hinsawdd sy'n achosi straen i iechyd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ansawdd Aer – mae pocedi lle mae'r aer o ansawdd gwael yn y DU. Mae hyn yn deillio'n bennaf o grynodiadau o weithgarwch trefol a diwydiannol, seilwaith prif ffyrdd a thagfeydd**<br><br>Mae llygredd aer yn effeithio ar iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd naturiol a'r economi.<br><br>Mae ansawdd aer wedi gwella yn y DU dros y chwe deg mlynedd diwethaf o ganlyniad i'r newid o lo i nwy a thrydan i wresogi adeiladau domestig a diwydiannol, rheolaethau llymach ar allyriadau diwydiannol, cyfansoddiad tanwydd o safon uwch a rheoliadau llymach ar allyriadau o gerbydau modur. Fodd bynnag, mae ansawdd aer gwael – yn enwedig o gerbydau modur – yn dal yn broblem sylweddol i iechyd y gymuned ac i fioamrywiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd trefol a rhwydweithiau trafnidiaeth mawr neu o fewn cyrraedd iddynt ar y prif wyntoedd. Dylid nodi hefyd fod defnyddio tanwydd solet (gan gynnwys | **Gwella**<br><br>Ar lefel genedlaethol, mae ansawdd aer yn gwella'n gyffredinol gan fod arferion diwydiannol, ffynonellau ynni a deddfwriaeth amgylcheddol dynnach wedi cyfrannu at leihau llygryddion.<br><br>Rhagwelir hefyd y bydd mwy o gerbydau trydan yn lleihau crynodiadau llygryddion ymhellach.<br><br>Fodd bynnag, mae rhannau o Gymru a Lloegr (mewn ardaloedd trefol fel arfer) yn dal i brofi pocedi lleol lle mae aer o ansawdd gwael oherwydd cerbydau modur – bydd ymyriadau y tu allan i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol fel y gwaharddiad ar geir petrol a disel erbyn 2035 yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion hyn dros amser. Fodd bynnag, bydd | Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol geisio diogelu a gwella ansawdd aer a dylai geisio lleihau allyriadau NO2, PM2.5 a PM10 o fewn terfynau statudol nawr ac yn y dyfodol.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol geisio sicrhau na fydd gwaethygiad mewn unrhyw Ardal Rheoli Ansawdd Aer neu nad yw datblygiad cynhyrchu niwclear newydd arfaethedig yn arwain at greu Ardal Rheoli Ansawdd Aer newydd, yn enwedig oherwydd cynnydd mewn traffig ffyrdd / trafnidiaeth sy'n gysylltiedig ag adeiladu, gweithrediad a datgomisiynu gorsafoedd pŵer niwclear, gan nodi y byddai allyriadau yn ystod y cam gweithredu'n debygol o fod yn gymharol isel a dim ond yn gysylltiedig â gweithgareddau ategol, nid â'r prif waith o gynhyrchu pŵer.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol geisio cydymffurfio â thargedau llymach y llywodraeth ar gyfer ansawdd aer yn y dyfodol, yn enwedig ceisio sicrhau manteision iechyd yn sgil gwell ansawdd aer, yn ogystal ag ystyried derbynyddion ecolegol.<br><br>Gallai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol annog datblygu neu wella seilwaith | Diogelu a gwella ansawdd aer ar raddfa leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol<br><br>Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau annhegwch ym maes iechyd<br><br>Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi cadernid a swyddogaethau'r ecosystem |

| | | | |
|---|---|---|---|
| tanwydd 'ffordd o fyw' fel llosgwyr coed mewn cartrefi) yn cyfrannu'n sylweddol at aer o ansawdd gwael mewn trefi, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.<br><br>Adlewyrchir y cysylltiad rhwng ansawdd aer gwael ag ardaloedd trefol/diwydiannol a seilwaith ffyrdd mawr yn lleoliadau arferol Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, a dynodwyd llawer ohonynt oherwydd lefelau uchel o NO2 a PM10. Ar draws Lloegr, mae cyfanswm o 532 o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, ac roedd 44 yng Nghymru, i gyd yn bennaf yn yr ardaloedd lle mae'r boblogaeth fwyaf, neu ardaloedd lle mae tagfeydd penodol ar y ffyrdd ac mae'r rhain yn cael effaith ar iechyd pobl a bioamrywiaeth. Mae ardaloedd helaeth wedi'u dynodi'n Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd, unwaith eto'n ymwneud yn bennaf â'r rhwydwaith ffyrdd.<br><br>Mae cyfraddau dyddodion nitrogen mewn oddeutu 85% o'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | hyn hefyd yn rhoi mwy o bwysau ar y rhwydwaith cyflenwi trydan. | gwyrdd, sy'n gallu helpu i leihau dosbarthiad llygryddion a gwella ansawdd aer mewn cyd-destun lleol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (SoDdGA) yn Lloegr uwchlaw'r lefelau lle disgwylir niwed (trothwyon amgylcheddol), bydd y gormodedd hwn yn dylanwadu ar allu safleoedd gwarchodedig i gyrraedd statws cadwraeth / cyflwr ffafriol. Credir bod tua 95% o'r cynefin sy'n sensitif i nitrogen wedi mynd y tu hwnt i'w lwyth critigol. Nodwyd allyriadau nitrogen fel pwysau neu fygythiad sylweddol i 62% o safleoedd gwarchodedig Rhyngwladol (Ewropeaidd) Lloegr.<br><br>Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn nodi bod ansawdd aer (PM2.5) yn darged tymor hir o ran ansawdd blaenoriaeth. | | | |
| **Amgylchedd y dŵr – mae gollyngiadau llygryddion o amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys ynni, yn peri risgiau sylweddol i ansawdd dŵr ar draws y DU. Mae'n debyg y byddai'r galw ychwanegol am ddŵr ar gyfer datblygiadau niwclear newydd ochr yn ochr â'r galw ychwanegol gan sectorau** | **Sefydlog / Dirywio**<br><br>Rhagwelir y bydd ansawdd dŵr wyneb yn aros yn sefydlog; mae crynodiadau halogyddion ansawdd dŵr morol yn sefydlog neu'n gwella ar y cyfan. Fodd bynnag, gall pwysau parhaus fel twf poblogaeth, cynhyrchiant amaethyddol | Mae'n debygol y bydd datblygiadau seilwaith ynni wedi'u lleoli fel arfer mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol ar dir sydd â pherthynas gref â chyrff dŵr daear, wyneb, aberol ac arfordirol. Felly, dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol geisio atal llygredd i gyrff dŵr (gan gynnwys dŵr daear, dŵr wyneb mewndirol, dyfroedd trosiannol, dyfroedd arfordirol a morol) yn ystod y gwaith o adeiladu, gweithredu a | Gwarchod a gwella amgylchedd y dŵr<br><br>Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net bioamrywiaeth, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **eraill yn rhoi rhagor o bwysau ar adnoddau dŵr.**<br><br>Mae pwysau sylweddol ar adnoddau dŵr (tiriogaethol a morol) ac mae hynny'n arwain at effeithiau mawr ar lawer o'r cyrff dŵr ledled y DU, o ran cyfaint ac ansawdd. At ddibenion mabwysiadu dull cyfannol o reoli adnoddau dŵr ac i fynd i'r afael â'r pwysau ar yr amgylchedd dŵr, rhannwyd y DU yn gyfres o Ardaloedd Basnau Afonydd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.<br><br>Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o gyrff dŵr yn Lloegr, daeth amrywiaeth o faterion rheoli dŵr sylweddol i'r amlwg ar draws Ardaloedd Basnau Afonydd, gyda llygredd o seilwaith yn arwyddocaol. Mae'n werth nodi nad oes unrhyw afon yn Lloegr sy'n 'hollol iach' o ran halogiad cemegol[8].<br><br>Ceir hefyd cyfres o Barthau Diogelu Dŵr Yfed ledled Cymru a Lloegr, yn ogystal â Pharthau Gwarchod | dwys, twf diwydiannol, trefoli cynyddol (ochr yn ochr â rhyddhau dŵr gwastraff) a thwf y rhwydwaith trafnidiaeth, ochr yn ochr â'r gwaddol o danfuddsoddi mewn seilwaith sy'n parhau a newid yn yr hinsawdd, beryglu ymhellach y gallu i wneud gwelliannau. | datgomisiynu unrhyw ddatblygiad cynhyrchu niwclear newydd arfaethedig.<br><br>Yn ystod y cam adeiladu, gellid diogelu'r amgylchedd dŵr drwy ddefnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), seilwaith gwyrdd neu fesurau priodol eraill a dulliau newydd o ddylunio draeniau seilwaith i wella ansawdd dŵr a lleihau llygredd a pherygl llifogydd. Dylid ystyried y risg i bob math o gyrff dŵr (nid dim ond y prif afonydd) wrth ddylunio unrhyw ddatblygiad a rheoli gweithgareddau adeiladu'n ofalus (fel stripio uwchbridd yn helaeth). Dylid hefyd ystyried sut gallai'r amgylchedd dŵr newid oherwydd effaith newid yn yr hinsawdd ar batrymau glawiad ac argaeledd dŵr.<br><br>Dylid ystyried gwneud addasiadau ffisegol i gyrff dŵr (glannau afonydd, traethlinau, gwely'r môr ac ati) er mwyn adeiladu cyfleusterau niwclear newydd. Mae mesurau penodol ar gyfer diogelu dŵr daear hefyd yn debygol mewn perthynas â chynhyrchu pŵer niwclear newydd.<br><br>Yn draddodiadol, mae cynhyrchu ynni niwclear wedi golygu bod angen tynnu | diogelu a chefnogi cadernid a swyddogaethau'r ecosystem |

[8]Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin – Y Pedwerydd Adroddiad Ansawdd Dŵr mewn Afonydd yn Sesiwn 2021-22

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tarddiad Dŵr Daear a dyfroedd ymdrochi dynodedig.<br><br>Rhwng 2009 a 2018, roedd gostyngiad bach yn nifer cyffredinol y cyrff dŵr a gafodd statws dŵr wyneb da neu uchel. Yn 2018, roedd statws uchel neu dda gan 35% o'r cyrff dŵr wyneb a aseswyd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn y DU. Golyga hyn mai ychydig iawn o newid oedd o'r ganran o 36% o gyrff dŵr wyneb a aseswyd yn 2009 a'r 37% yn 2013. Rhagwelir y bydd ansawdd dŵr yn gwella'n gyffredinol wrth i'r DU geisio sicrhau bod amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (bod pob ecosystem ddyfrol ac ecosystemau tiriogaethol a thir gwlyb yn cyflawni statws cemegol ac ecolegol da erbyn 2027). Bydd newid yn yr hinsawdd a'r twf mewn poblogaeth yn cynyddu'r pwysau ar adnoddau dŵr croyw ymhellach.<br><br>Mae yna hefyd rwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (sy'n ategu ac yn cyd-fynd â dynodiadau ehangach fel Ardal | | llawer iawn o ddŵr at ddibenion oeri ac mae hefyd angen gollwng y dŵr hwn yn ôl i'r amgylchedd. Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol geisio diogelu dyfroedd derbyn morol rhag effeithiau unrhyw ollyngiadau, gan gydnabod y rheolaethau llym sy'n cael eu gorfodi gan drefn reoleiddio'r DU. Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hefyd nodi goblygiadau posibl carthu yn yr amgylchedd dŵr croyw, aberol neu forol, yn ogystal â'r gofyniad ar gyfer trwyddedu a chysylltu â chyrff fel y Sefydliad Rheoli Morol.<br><br>Dylid mabwysiadu'r amcanion a'r dulliau gweithredu a nodir yn y Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, y Cynlluniau Rheoli Traethlin / Moryd, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Rheoliadau Strategaeth Forol, a dylid manteisio ar bob cyfle i helpu i gyflawni amcanion y rhain pan fo hynny'n bosibl. Dylid hefyd cadw at ddulliau sy'n benodol i'r amgylchedd morol a nodir mewn Cynlluniau Morol ac mewn perthynas ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig dynodedig.<br><br>Gallai lleoli cyfleusterau niwclear mewn clystyrau oherwydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol gael effeithiau sylweddol ar | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig) o amgylch y DU, gyda 178 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Lloegr yn cwmpasu 51% o ddyfroedd y glannau a 37% o ddyfroedd y môr. Bydd gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cyfrannu at gael ecosystemau morol iachach, a chynnal ac adfer gwasanaethau ecosystemau gwerthfawr. Ar ben hynny, dynodwyd y 3 Ardal Forol Dan Warchodaeth Ddwys gyntaf ym mis Mehefin 2023. Dynodwyd y rhain i ddiogelu ecosystem forol yr ardal (gan gynnwys yr holl fflora a ffawna morol, yr holl gynefinoedd morol a'r holl fuddiannau daearegol neu geomorffolegol, gan gynnwys yr holl elfennau abiotig a swyddogaethau a phrosesau ategol ecosystemau, yng ngwely'r môr, y golofn ddŵr ac arwyneb y môr).<br><br>Roedd Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010 yn gam sylweddol ymlaen o ran diogelu a rheoli dyfroedd arfordirol y DU drwy fynnu bod camau'n cael eu cymryd i | | yr amgylchedd dŵr mewn ardaloedd lleol, er y bydd natur yr effeithiau hyn yn dibynnu ar y math o dechnoleg, nifer yr adweithyddion a ddefnyddir ac union leoliad y datblygiad. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| sicrhau Statws Amgylcheddol Da (GES). Yn 2019, mae'r DU wedi cyflawni ei nod o gael statws amgylcheddol da i halogyddion i raddau helaeth. Mae crynodiadau o sylweddau peryglus yn y Moroedd Celtaidd a Môr y Gogledd Fwyaf ac, ar y cyfan, mae eu heffeithiau biolegol yn bodloni trothwyon targed y cytunwyd arnynt sy'n golygu na ddylai eu lefelau achosi niwed i fywyd y môr (89% ar gyfer crynodiadau o halogyddion a 96% ar gyfer effeithiau biolegol). Achosir yr ychydig fethiannau gan gemegau gwaddol parhaus fel Biffenylau polyclorinedig (PCBs) mewn biota a gwaddodion morol, yn bennaf mewn dyfroedd arfordirol ac yn aml yn agos at ffynonellau llygredig. | | | |
| **Pridd a Thir Halogedig – nid yw pridd yn adnodd anadnewyddadwy ac mae'n agored i erydiad, diraddio a halogi. Mae defnydd tir hanesyddol wedi cyfrannu at halogi ar draws ardaloedd mawr. Mae angen mynd i'r afael â halogiad er mwyn gallu** | **Dirywiad**<br><br>Mae'n debygol y bydd pwysau cynyddol i ddatblygu safleoedd maes glas yn hytrach na wynebu'r cymhlethdod o ailddatblygu safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen ac a | Rhaid i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol warchod priddoedd cyn belled ag y bo'n ymarferol gan eu bod yn gyfalaf naturiol hanfodol ac yn cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau a gwasanaethau pwysig o ran yr ecosystem.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol gydnabod bod priddoedd yn amhosibl eu | Diogelu adnoddau pridd, hyrwyddo'r defnydd o dir llwyd ac osgoi halogi tir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen yn fuddiol a diogelu adnoddau pridd rhag pwysau i ddatblygu ar dir glas**<br><br>Mae priddoedd yn cael eu graddio ar draws Cymru a Lloegr, a nodir yr ardaloedd hynny yr ystyrir y rhai Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) fel ardaloedd Gradd 1, 2 a 3a. Mae'r priddoedd Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn wynebu pwysau gan ddatblygiadau newydd mewn sawl ardal.<br><br>Mae selio pridd (gorchuddio arwyneb y pridd gyda deunydd anhydraidd neu newid ei natur fel ei fod yn anhydraidd) yn gysylltiedig â datblygu ac yn un o'r prif achosion dros golli pridd a gall datblygu safleoedd tir glas hefyd arwain at golli tir amaethyddol gwerthfawr (lle mae tir o'r fath yn bodoli) na ellir ei liniaru'n gyffredinol.<br><br>Halogwyd llawer o ardaloedd o dir yn y DU hefyd gan weithgareddau diwydiannol a gweithgareddau dynol eraill yn y gorffennol, gan gynnwys hen ffatrïoedd, depos storio a | allai fod wedi'u halogi. Gallai hyn leihau'r adnoddau pridd o ansawdd uchel sydd ar gael a methu â gwireddu potensial y capasiti datblygu presennol mewn ardaloedd trefol presennol a rhai a ddatblygwyd yn flaenorol.<br><br>Bydd y newid i batrymau tywydd oherwydd newid yn yr hinsawdd hefyd yn effeithio ar iechyd pridd, yn ogystal â'i allu i gynhyrchu bwyd, helpu i amddiffyn rhag llifogydd ac ati. | disodli yn y bôn ac yn dirywio o ran maint a dylai geisio gwneud y defnydd gorau o ardaloedd sydd eisoes wedi'u trefoli (neu lle mae defnydd ynni / diwydiannol) a rhoi cyfle i adfywio / gwella ansawdd y tir mewn ardaloedd o'r fath. Dylid osgoi datblygiadau niwclear ar ardaloedd o briddoedd amaethyddol o'r ansawdd uchaf lle bo hynny'n bosibl a diogelu priddoedd a daliadau amaethyddol drwy osgoi effeithiau fel halogiad neu hollti.<br><br>Mae delio â gwaddol llygredd / halogiad y gorffennol yn broblem fawr a dylid manteisio ar bob cyfle i fynd i'r afael â hi oherwydd ei heffaith barhaus ar yr amgylchedd.<br><br>Hefyd, dylai lleihau'r effeithiau ar iechyd pridd a mynd i'r afael â'r angen am stripio uwchbridd, storio uwchbridd ac effeithiau ar leithder pridd ar draws safleoedd o faint sylweddol fod yn ystyriaethau allweddol yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol.<br><br>Gallai clystyru cyfleusterau niwclear arwain at oblygiadau penodol o ran adnoddau pridd mewn ardal. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| safleoedd tirlenwi, a gallai safleoedd halogedig fod wedi'u halogi gan amrywiaeth eang o sylweddau niweidiol fel olew a thar, metelau trwm, asbestos a chemegau.<br><br>Er bod llawer o safleoedd o halogiad arbennig wedi'u nodi, oherwydd eu natur, mae'n aml yn anodd iawn gwybod lle mae tir wedi'i halogi o'r blaen neu'n dioddef halogiad cyson ar hyn o bryd. Gall halogiad ymledu'n bell iawn o'i ffynhonnell wreiddiol. O'r herwydd, mae'n debygol mai dim ond cyfran fach iawn o gyfanswm y safleoedd a allai fod wedi'u halogi yw nifer y safleoedd halogiad y gwyddom amdanynt. O ystyried y lefelau presennol a hanesyddol o weithgarwch diwydiannol, masnachol a chludiant ledled Cymru a Lloegr, yn ogystal â'r lefelau uchel o drefoli, awgrymir y gallai fod nifer sylweddol o ardaloedd â thir halogedig. | | | |
| **Yr Amgylchedd Hanesyddol – mae adnodd treftadaeth ddiwylliannol sylweddol ar draws** | **Sefydlog / Dirywio** | Mae'n bosibl y bydd datblygiadau ynni ychwanegol yn cael eu lleoli neu eu cynllunio'n amhriodol ac felly'n peri risg i'r | Diogelu a gwella asedau treftadaeth ddiwylliannol a'u |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **y DU ac yn y moroedd o'i chwmpas; fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol yng nghyflwr ac uniondeb asedau. Mae angen persbectif strategol sy'n hyrwyddo dealltwriaeth gyd-destunol ac yn cefnogi adfywio lle mae hyn yn cyfrannu at gadwraeth a gwella**<br><br>Yr asedau treftadaeth ddiwylliannol sy'n cael y gydnabyddiaeth fwyaf ledled Cymru a Lloegr yw'r 22 Safle Treftadaeth y Byd. Cafodd y safleoedd hyn y dynodiad hwn oherwydd eu bod o ddiddordeb diwylliannol neu naturiol o bwysigrwydd byd-eang. Mae eu cynlluniau rheoli yn nodi y dylid eu deall, eu diogelu a'u cynnal.<br><br>Ar ben hynny, ystyrir bod gan tua 24,000 o Henebion Rhestredig ledled Cymru a Lloegr, nodweddion treftadaeth ddiwylliannol o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae perygl penodol y caiff nifer fawr o'r safleoedd hyn eu colli drwy esgeulustod, dadfeiliad neu ddirywiad. Mae hefyd yn werth nodi | Gwarchodir yr asedau treftadaeth dynodedig a byddai hynny'n parhau heb y Datganiad Polisi Cenedlaethol. | asedau treftadaeth ddiwylliannol yn ogystal â'u lleoliad. Heb agwedd strategol gydlynol tuag at ddatblygu a seilwaith, mae'n fwy posibl y bydd risgiau o'r fath yn cael eu gwireddu. Yn ogystal â'r safleoedd o'r gwerth mwyaf, fel Safleoedd Treftadaeth y Byd, gellir nodi effeithiau posibl tebyg mewn perthynas â'r ystod o henebion rhestredig, Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth ac asedau treftadaeth ddiwylliannol sydd wedi'u rhestru'n lleol.<br><br>Gall datblygiadau ynni niwclear newydd roi pwysau ar ardaloedd o bwysigrwydd o ran eu treftadaeth ddiwylliannol a'u hansawdd esthetig. Rhaid i gynigion datblygu roi ystyriaeth ofalus i sicrhau bod cyn lleied o effaith â phosibl ar asedau treftadaeth a'u lleoliadau. Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ymateb i gyd-destun fel bod gwaith cadwraeth yn cael ei wneud lle bo hynny'n briodol, ond gellir cefnogi gwaith rheoli ac ailddatblygu rhagweithiol lle mae hyn yn sicrhau dyfodol hyfyw ar gyfer adnoddau treftadaeth ddiwylliannol sydd dan fygythiad ar hyn o bryd.<br><br>Mae'n bwysig nodi bod natur nodweddion treftadaeth ddiwylliannol yn golygu nad | hamgylchoedd, a'r amgylchedd hanesyddol ehangach<br><br>Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a'r dyfrweddau a gwarchod a gwella amwynder gweledol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| bod rhai asedau hanesyddol yn yr amgylchedd morol – er enghraifft mae 57 o safleoedd llongddrylliadau gwarchodedig yn nyfroedd Lloegr.<br><br>Yn yr un modd, oherwydd pwysau cynyddol o ganlyniad i ddatblygiad, esgeulustod, dadfeiliad neu ddirywiad, mae llawer o'r oddeutu 430,000 o adeiladau rhestredig a 10,500 o Ardaloedd Cadwraeth ledled y DU mewn perygl.<br><br>Yn ogystal, mae Ardaloedd o Goetir Hynafol, h.y. yr ardaloedd hynny sydd wedi'u coedwigo'n barhaus ers o leiaf 1600AD, wedi'u gwasgaru ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r ardaloedd hyn yn cyfrannu'n sylweddol at dreftadaeth ddiwylliannol ardal ac maent hefyd o bwys i fioamrywiaeth a thirwedd.<br><br>Y tu hwnt i'r asedau hyn, mae yna hefyd nifer fawr o barciau a gerddi o bwysigrwydd hanesyddol cofrestredig ledled y DU, yn ogystal â nifer o asedau heb eu dynodi neu olion archaeolegol anhysbys a allai | | ydym yn gwybod am bob un ohonynt ar hyn o bryd; yn benodol, olion archaeolegol wedi'u claddu. Gallai gweithredu mecanyddol effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar nodweddion o'r fath e.e. drwy sychu safleoedd ar gyfer gwaith adeiladu, ac mae hyn yn golygu y byddai angen ystyried newidiadau posibl i lefelau, llif a chemeg dŵr daear ar olion organig a phalaeoamgylcheddol sydd wedi'u cadw. O'r herwydd, dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol gydnabod y gallai fod angen gwneud gwaith asesu manwl a helaeth fel Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth ar gyfer unrhyw safleoedd datblygu arfaethedig.<br><br>Mae hefyd yn wir y gallai'r gwaith adeiladu effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol ar flaendraethau neu wely'r môr a dylid cydnabod hyn hefyd.<br><br>O'r herwydd, dylid dylunio unrhyw ddatblygiad sy'n gysylltiedig ag ynni mewn modd mor sensitif â phosibl er mwyn cydnabod a chyd-fynd â'r cymeriad diwylliannol a'r ansawdd presennol a dylid ystyried cyfleoedd i wella lleoliadau. Lle bo hynny'n bosibl, dylid hefyd manteisio ar gyfleoedd i wella mynediad, dealltwriaeth neu fwynhad o'r amgylchedd hanesyddol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| fod â gwerth cenedlaethol, rhanbarthol neu leol.<br><br>Mae mwy o gydnabyddiaeth ar lefel genedlaethol a rhanbarthol o bwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd hanesyddol , ac mae'n anodd lliniaru yn erbyn colli adnoddau treftadaeth (sydd yn y bôn yn amhosibl eu disodli). Mae gwaith datblygu'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol drwy arwain at golli, difrodi neu wneud newidiadau i leoliad, er enghraifft oherwydd ymyrraeth weledol, mwy o draffig, sŵn neu lygredd aer. | | ac asedau treftadaeth fel rhan o'r gwaith o ddylunio a rhoi unrhyw ddatblygiad cynhyrchu niwclear newydd ar waith. | |
| **Tirweddau, Dyfrweddau a Threfluniau – mae cyferbyniadau amlwg yn ansawdd, cymeriad a hynodrwydd tirweddau a threfluniau ledled y DU. Mae angen diogelu'r lleoliadau o'r ansawdd uchaf yn llawn, ar yr un pryd â gyrru egwyddorion arfer gorau drwy bob datblygiad pŵer niwclear i ddiogelu amgylcheddau gwerthfawr.** | **Sefydlog**<br><br>Mae llawer o'r tirweddau a'r trefluniau mwyaf eithriadol yn elwa o warchodaeth drwy ddynodiadau a fydd yn parhau yn absenoldeb y Datganiad Polisi Cenedlaethol. Yn gyffredinol, mae egwyddorion dylunio modern yn hyrwyddo | Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol geisio gwarchod, cadw a gwella cymeriad y dirwedd a'r dyfrwedd ehangach drwy sicrhau nad yw ei gyfanrwydd a'i fanau agored naturiol gwerthfawr yn cael eu colli. Dylid rhoi sylw arbennig i'r ardaloedd hynny sydd wedi'u dynodi neu eu cydnabod am eu gwerth o ran tirwedd, fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Arfordiroedd Treftadaeth a Pharciau Cenedlaethol. Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hefyd ystyried yr angen i | Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a'r dyfrweddau a gwarchod a gwella amwynder gweledol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae 13 o Barciau Cenedlaethol a 38 o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â 46 o Arfordiroedd Treftadaeth. Ers mis Tachwedd 2023, mae'r AHNE wedi cael ei hail-enwi'n Dirweddau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr.<br><br>Mae gan yr Alban 2 Barc Cenedlaethol a 40 o Ardaloedd o Harddwch Cenedlaethol.<br><br>Asesir nodweddion tirwedd ledled y DU drwy sawl dull, gan gynnwys isrannu o Loegr yn Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a defnyddio'r offeryn LANDMAP yng Nghymru.<br><br>Dynodwyd ardaloedd arwyddocaol hefyd yn Llain Las, gyda "nod sylfaenol i atal blerdwf trefol drwy gadw tir ar agor yn barhaol. Mae'r dynodiad hwn yn cyflawni pum prif bwrpas o wirio blerdwf digyfyngiad mewn ardaloedd adeiledig mawr; yn atal trefi cyfagos rhag uno; yn helpu i ddiogelu cefn gwlad rhag ymlediad trefol; yn gwarchod lleoliad a chymeriad arbennig trefi hanesyddol ac yn helpu adfywio trefol, drwy | ffocws o'r newydd ar ansawdd dylunio ac mae'r duedd hon yn debygol o barhau. | ddiogelu'r ardaloedd hynny sydd wedi'u nodi am eu gwerth tirwedd ar raddfa leol.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol gydnabod pa mor anodd yw diogelu'r dirwedd oherwydd natur, maint a'r defnydd tir sydd ei angen ar gyfer cyfleusterau niwclear mawr a chydnabod y gallai ardaloedd penodol a allai fod yn ddeniadol ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear e.e. ardaloedd arfordirol neu wledig, hefyd gynnwys nodweddion tirwedd a morwedd sylweddol o ansawdd uchel.<br><br>Dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer gwella'r dirwedd, e.e. drwy gynllunio atyniadol, gwelliannau i ardaloedd a nodweddion tirwedd presennol, fel ystyried cyfleoedd plannu neu ail-greu cynefinoedd newydd yn unol â nodau'r Rhwydwaith Adfer Natur (gweler y rhifyn Bioamrywiaeth).<br><br>Gallai mwy o ddatblygu sy'n gysylltiedig â chynlluniau cynhyrchu pŵer niwclear newydd beri risg i lonyddwch drwy fwy o aflonyddwch (gan gynnwys golau a sŵn) . Felly, mae angen diogelu ansawdd arbennig yr ardaloedd o lonyddwch cymharol y gellir eu profi mewn sawl rhan o Gymru a Lloegr, gan gynnwys y rheini sydd ag ymdeimlad o fod yn wyllt ac yn | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| annog ailgylchu tir diffaith a thir trefol arall”9.<br><br>Er bod ardaloedd o harddwch naturiol iawn a thawelwch ledled Cymru a Lloegr, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod rhannau sylweddol sy’n cael eu nodweddu gan ddatblygiad trefol, seilwaith mawr ac ymyrraeth sŵn a gweledol arall (gan gynnwys llygredd golau). Mae hyn yn gysylltiedig i raddau helaeth â’r prif ardaloedd trefol, ond nid yw’n gyfyngedig iddynt, ac mae colli llonyddwch ac awyr dywyll yn bryder cynyddol.<br><br>Serch hynny, ar draws y DU mae elfennau sylweddol o seilwaith gwyrdd sy’n cynnwys, er enghraifft, parciau, mannau agored, caeau chwarae, coetiroedd a gerddi preifat, yn ogystal ag ardaloedd amaethyddol ac ucheldiroedd. Gall hyn, ochr yn ochr â ‘seilwaith glas’ fel afonydd, camlesi, nentydd a chyrff dŵr eraill weithredu mewn ffordd amlswyddogaethol ar draws amrywiaeth o faterion drwy gefnogi, | | anghysbell. Heb agwedd strategol tuag at ddatblygiadau a seilwaith niwclear newydd, mae’n bosibl y caiff rhinweddau arbennig yr ardaloedd mwyaf arbennig fel Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol eu diraddio.<br><br>O’r herwydd, dylai’r Datganiad Polisi Cenedlaethol geisio sicrhau bod datblygiadau ynni niwclear a seilwaith cysylltiedig yn ystyried effeithiau perthnasol o gamau cynharaf y gwaith cynllunio, gan osgoi ardaloedd sensitif lle bo hynny’n bosibl a pharchu lleoliadau penodol o ran tirwedd, dyfrwedd neu dreflun.<br><br>Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ansawdd dylunio mewn lleoliad trefol a gwledig, gan hyrwyddo egwyddorion creu lleoedd a cheisio hybu cymeriad a natur unigryw lle bo modd a lle mae hyn yn gwella ymdeimlad o le sy’n cael ei werthfawrogi. Lle bo modd, dylai’r gwaith cynllunio ymateb yn gadarnhaol i’r nodweddion lleol, gan gynnwys pensaernïaeth gynhenid pan fo hynny’n briodol. Mae cynllunio tirwedd mewn ffordd effeithiol, rhywbeth y dylai’r Datganiad Polisi Cenedlaethol ei annog, | |

[9] Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (2021), Paragraffau 137 i 138

| | | | |
|---|---|---|---|
| er enghraifft, bioamrywiaeth, storio carbon, draenio naturiol, storio llifogydd ac iechyd a lles. Mae'r môr hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr adnodd hwn. Mae mwy o drefoli a datblygu cyffredinol wedi erydu cysylltedd y seilwaith gwyrdd a glas hwn, gan arwain at ostyngiad yn ei gyfanrwydd.<br><br>Mae'r trefluniau ledled Cymru a Lloegr yn cynnwys asedau sylweddol o ran treftadaeth ddiwylliannol. Mae llawer o ardaloedd yn elwa o ddynodiadau cysylltiedig, gan gynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd, Ardaloedd Cadwraeth a rhestrau lleol (cyfeiriwch at y disgrifiad o'r prif fater treftadaeth ddiwylliannol). Mewn sawl ardal, mae ailddatblygu ac adfywio yn yr 20fed ganrif a'r 21ain ganrif wedi cyflwyno cyfosodiad rhwng pensaernïaeth fodern ag adeiladwaith hanesyddol, gan ddarparu treflun o natur unigryw.<br><br>Fodd bynnag, mae hefyd ardaloeddd lle erydwyd ansawdd a | | hefyd yn rhoi cyfleoedd ar gyfer materion eraill fel yr angen i wella bioamrywiaeth a sicrhau Enillion Net Bioamrywiaeth, gwella'r Rhwydwaith Adfer Natur, gwella mynediad at fannau gwyrdd naturiol a sicrhau manteision amgylcheddol ehangach. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| chyfanrwydd y treflun gan weithgareddau adfywio olynol sy'n aml yn dameidiog ac mae angen hyrwyddo gwell dyluniad drwy bob cynnig datblygu ynni. | | | |
| **Adnoddau a Gwastraff – mae twf poblogaeth ac economaidd yn dal i gael eu cysylltu â defnyddio mwy o adnoddau a chynhyrchu mwy o wastraff. Mae angen gwrthdroi tueddiadau ar frys er mwyn symud tuag at economi gylchol lle rydym yn ceisio gwneud defnydd mor effeithlon â phosibl o adnoddau a rhoi terfyn ar gynhyrchu gwastraff.**<br><br>Cynhyrchodd y DU gyfanswm o 222.2 miliwn tunnell o wastraff yn 2018, ac amcangyfrifir mai gwastraff masnachol a diwydianol oedd 40.4 miliwn tunnell o'r cyfanswm (2020).<br><br>Yn 2021, cynhyrchwyd 26,411,000 tunnell o Wastraff o Gartrefi yn y DU a'r gyfradd ailgylchu gyffredinol oedd 44.6%. Yn Lloegr, y gyfradd ailgylchu oedd 44.1%, ac roedd yn 56.7% yng Nghymru (2021). Yn | **Dirywiad**<br><br>Bydd twf parhaus yn cyfrannu at duedd o fwy o wastraff a mwy o ddefnydd o adnoddau. Mae ymyriadau y tu allan i'r system gynllunio yn helpu i symud tuag at fwy o effeithlonrwydd o ran defnyddio adnoddau a glynu wrth yr hierarchaeth gwastraff, gyda dyheadau ehangach i weithio tuag at economi gylchol ond rhagwelir y bydd cynnydd cronnol yn y meintiau sylfaenol o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu. Yn amlwg, wrth i ragor ar gynlluniau cynhyrchu pŵer niwclear gael eu datblygu, gellir disgwyl y bydd cynnydd yn lefel y | Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol geisio lleihau'r defnydd o adnoddau fel deunyddiau adeiladu, e.e. drwy annog defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu neu ddeunyddiau eilaidd a chaniatáu datblygiad 'Economi Gylchol'.<br><br>Gall y Datganiad Polisi Cenedlaethol hefyd helpu i leihau faint o danwydd sy'n cael ei ddefnyddio drwy helpu i ddarparu allbwn trydan i helpu i hwyluso newid i fathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth fel Cerbydau Allyriadau Isel a Di-allyriadau.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol fynd i'r afael â gwastraff niwclear sy'n cael ei gynhyrchu gan orsafoedd pŵer niwclear newydd drwy bwysleisio ymrwymiad y llywodraeth i reoli gwastraff ymbelydrol mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy. Dylai fod yn ofynnol i ddatblygwyr ddangos eu bod wedi ystyried a rhoi cyfrif am drefniadau tymor hir i reoli gwastraff niwclear a thanwydd sydd wedi cael eu | Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau ac asedau naturiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2018, aeth tua 14,644,000 tunnell o wastraff trefol y DU i safleoedd tirlenwi.<br><br>Yn 2018, 36.1 miliwn tunnell oedd cyfanswm gwastraff masnachol a diwydiannol y DU, sy'n cynnwys sgil-gynhyrchion anadweithiol nad ydynt yn beryglus sy'n deillio o fasnach neu fusnesau[10]. Yn Lloegr y cynhyrchwyd oddeutu 80% o'r cyfanswm hwn. Rhannwyd hyn rhwng y sectorau masnachol a diwydiannol - 27.5 a 13.6 miliwn tunnell yn y drefn honno.<br><br>Bydd datblygiadau cynhyrchu ynni niwclear newydd yn effeithio ar amrywiaeth eang o adnoddau ac yn rhyngweithio â nhw, fel defnyddio deunyddiau adeiladu (agregau, concrit, ac ati), cynhyrchu a gwaredu gwastraff ac ati. Bydd y gwaith adeiladu yn cyfrannu at gynnyddu lefelau'r gwastraff a gynhyrchir, os nad yw deunyddiau adeiladu'n cael eu defnyddio neu eu hailddefnyddio'n effeithlon. Gyda mwy o wastraff yn cael ei | gwastraff sy'n deillio o bob categori o wastraff niwclear. | defnyddio, gan gynnwys dulliau storio, cludo a gwaredu.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol gydnabod polisi'r llywodraeth i waredu gwastraff uwch ei actifedd a thanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio (na ragwelir defnydd pellach ar ei gyfer) mewn Cyfleuster Gwaredu Daearegol a datgan y dylai gorsafoedd pŵer niwclear newydd wneud darpariaethau ar gyfer gwaredu eu gwastraff ymbelydrol a'u tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn cyfleuster gwaredu daearegol yn y pen draw. Dylai fod yn ofynnol i ddatblygwyr gymryd rhan yn rhaglen cyfleuster gwaredu daearegol y llywodraeth a sicrhau bod eu cynlluniau rheoli gwastraff yn cyd-fynd ag argaeledd cyfleuster gwaredu daearegol yn y dyfodol. | |

[10] Y ffigurau diweddaraf sydd ar gael – mae Defra yn adolygu'r ffigurau hyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| gynhyrchu, bydd cilometrau teithio i gludo gwastraff o'r fath i'w waredu yn arwain at fwy o deithiau trafnidiaeth a bydd mwy o lygryddion aer neu nwyon tŷ gwydr yn cael eu hallyrru.<br><br>Yn y DU, mae gwastraff ymbelydrol yn cael ei ddosbarthu yn ôl math o ymbelydredd a faint o ymbelydredd sydd ynddo a faint o wres mae'n ei gynhyrchu. Mae gwastraff yn cael ei gategoreiddio fel Gwastraff Lefel Uchel, Lefel Ganolraddol a Lefel Isel, ac mae'r ffordd mae'r gwastraff yn cael ei reoli yn dibynnu ar y categori.<br><br>Sylwch na fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn yn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff niwclear mewn cyfleuster gwaredu hirdymor. Serch hynny, mae'n bwysig nodi bod rheidrwydd strategol ar y llywodraeth i ddatblygu Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD) ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ers Datganiad Polisi Cenedlaethol ar leoli niwclear yn 2011, dyma'r datblygiadau allweddol ym maes rheoli gwastraff niwclear:<br><br>• lansiwyd proses newydd i ddod o hyd i leoliad addas ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn Lloegr yn 2018 ac yng Nghymru yn 2019. Mae'r ddau'n brosesau sy'n seiliedig ar gydsyniad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr, Gwasanaethau Gwastraff Niwclear, weithio mewn partneriaeth â chymunedau sy'n ymuno â'r broses;<br>• mae pedair cymuned yn cymryd rhan yn y broses a chynhaliwyd rhai ymchwiliadau daearegol cynnar mewn rhai ardaloedd;<br>• yn Neddf Ynni 2023, deddfodd Llywodraeth y DU ar gyfer fframwaith rheoleiddio mwy cymesur ar ddiwedd y broses | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ddatgomisiynu pan fydd peryglon a risgiau'n isel;<br>• Ym Mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ymgynghoriad i ddiweddaru polisïau ar reoli sylweddau ymbelydrol a datgomisiynu niwclear. Mae hyn yn cynnwys cynigion i ganiatáu gwaredu gwastraff lefel ganolraddol mewn cyfleusterau gwaredu ger y wyneb. Bwriad Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yw cyhoeddi'r polisi terfynol ddechrau 2024. | | | |
| **Gweithgarwch, cyfleoedd ac amddifadedd economaidd – mae cyferbyniadau gofodol amlwg mewn cyfraddau gweithgarwch economaidd ledled y DU a'r her yw sicrhau mynediad mwy teg at gyfleoedd fel ffordd o fynd i'r afael ag amddifadedd.**<br><br>Mae'r economi ledled y DU wedi wynebu amodau heriol ers 2020 oherwydd rhyngweithiadau cymhleth | **Ansicr**<br><br>Yn gyffredinol, mae'r prif ystadegau'n dangos tuedd o gynnydd mewn cyflogaeth a gwerth ychwanegol gros yn ôl swydd; ac mae tuedd o ostyngiad mewn diweithdra. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau gofodol clir rhwng gwerth | Mae busnesau a swyddi'n dibynnu ar ddefnyddio ynni, ac mae allbwn economaidd a swyddi cysylltiedig yn dibynnu ar system ynni gadarn, ddibynadwy a fforddiadwy.<br><br>Yn ogystal, rhagwelir y gallwn ddisgwyl y bydd adeiladu, gweithredu a datgomisiynu isadeiledd ynni niwclear yn cael effeithiau economaidd-gymdeithasol positif ar lefel leol a rhanbarthol. | Hyrwyddo economi gref gyda chyfleoedd i gymunedau lleol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| rhwng effeithiau Covid-19 a ffactorau allanol eraill fel y rhyfel yn Wcráin, cynnydd dilynol mewn costau ynni ac argyfwng ‘costau byw’. Ers pandemig Covid-19, mae cyfraddau diweithdra wedi dechrau cynyddu. Ym mis Mawrth 2023, roedd cyfradd ddiweithdra o 3.8% yn Lloegr a’r gyfradd yng Nghymru oedd 4.8%. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch beth fydd yr effaith hirdymor ar ddiweithdra.<br><br>Ym mis Mawrth 2023, roedd y cyfraddau gweithgarwch economaidd yn 79.6% yn Lloegr ac yn 75.6% yng Nghymru. Nid yw cyfraddau gweithgarwch economaidd wedi amrywio’n sylweddol yn y DU ers 1992.<br><br>Amcangyfrifwyd bod cynnydd o 0.1% mewn cynnyrch domestig gros (GDP) yn ystod chwarter cyntaf 2023, yn dilyn cynnydd o 0.1% yn y chwarter blaenorol hefyd. Mae lefel y GDP chwarterol yn chwarter cyntaf 2023 bellach 0.5% yn is na’r | swyddi, a all fod yn brocsi ar gyfer ansawdd y cyfleoedd swyddi sydd ar gael.<br><br>Mae agenda ‘ffyniant bro’ y llywodraeth yn cydnabod hefyd nad yw pawb yn y DU yn rhannu’n gyfartal – polisi’r llywodraeth yw sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fanteisio ar gyfleoedd, a’r nod yw bod pobl yn byw’n hirach ac yn byw bywydau mwy bodlon, gan elwa o gynnydd parhaus mewn safonau byw a llesiant.<br><br>Serch hynny, bydd yn dal yn anodd sicrhau ‘ffyniant bro’ ar draws y wlad gyfan. Ar ben hynny, mae’n dal yn ansicr beth fydd effaith Covid-19, y rhyfel yn Wcráin a’r heriau economaidd byd-eang eraill fel chwyddiant uchel parhaus ar y tueddiadau hyn. Er y gallai’r DU osgoi | Mae patrwm amddifadedd ar draws Cymru a Lloegr yn gymhleth yn ddaearyddol, ac yn ymgorffori cyferbyniadau amlwg rhwng cymunedau cyfoethog a chymunedau difreintiedig iawn.<br><br>Mae’r Datganiad Polisi Cenedlaethol hefyd yn rhoi cyfleoedd i gynyddu hyfforddiant a phrentisiaethau mewn ardaloedd, yn ogystal ag annog / cryfhau cadwyni cyflenwi lleol. Yn yr un modd, mae natur hynod arbenigol a thechnegol ynni niwclear yn golygu bod y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn rhoi cyfleoedd i annog datblygu ‘clystyrau’ o ddiwydiannau a gwasanaethau cysylltiedig, ymchwil a datblygu ac ati. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| lefel cyn y pandemig (sef Chwarter 4 2019)[11].<br><br>Heb os, bydd y materion hyn yn cyfrannu'n fawr at amddifadedd a chanlyniadau economaidd ledled y DU, a'r ardaloedd hynny lle mae amddifadedd ar hyn o bryd yw'r rhai mwyaf tebygol o weld yr adferiad economaidd gwaethaf a'r canlyniad gwaethaf yn y dyfodol. Mae'r Mynegeion Amddifadedd Lluosog yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU wedi'u lleoli mewn canolfannau poblogaeth trefol.<br><br>De-ddwyrain, de-orllewin a dwyrain Lloegr yw'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y DU, er bod ardaloedd sylweddol o amddifadedd uchel yn y rhanbarthau hyn hefyd, a gall y 'costau byw' fod yn arbennig o heriol yma. Mae amddifadedd yn cynyddu mewn ardaloedd trefol, ac mae trefi a dinasoedd yn fwy difreintiedig ar y cyfan nag ardaloedd gwledig, er y gall natur yr | wynebu dirwasgiad, ystyrir mai isel fydd y twf cyffredinol yn yr economi, yn y tymor byr yn 2023-2024 beth bynnag. | | |

[11]Office for National Statistics (2023) *GDP Quarterly National Accounts UK: January to March 2023.* Ar gael: https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/quarterlynationalaccounts/januarytomarch2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| economi a'r gymdeithas mewn ardaloedd gwledig guddio pocedi o amddifadedd uchel. Yn aml, mae hefyd yn gallu teimlo bod cymunedau arfordirol yn cael eu 'hanghofio' neu eu hesgeuluso. Y gogledd orllewin a'r gogledd ddwyrain yw'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Lloegr. Middlesbrough, Knowsley, Kingston upon Hull, Lerpwl a Manceinion yw'r pum ardal awdurdod lleol sydd â'r cyfrannau uchaf o gymdogaethau difreintiedig iawn yn Lloegr.<br><br>Y de-ddwyrain ac arfordir y gogledd-ddwyrain yw'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae amddifadedd wedi'i grynhoi fwyaf yn y de ddwyrain, o amgylch ardaloedd trefol Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr. Yn yr un modd, mae'r trefi llai yng nghymoedd y de-ddwyrain, fel Caerffili a Merthyr Tudful, yn ddifreintiedig. Yn gymharol, mae ardaloedd gwledig Cymru yn llawer llai difreintiedig, er bod pocedi o | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| amddifadedd dwys yn bodoli unwaith eto.<br><br>Yn yr ardaloedd hyn o amddifadedd mae incwm cymharol is, mai llai o fynediad at wasanaethau, mae diweithdra uwch ac mae cyfraddau troseddu'n uwch. Ychydig o amrywiaeth a welwyd yn lleoliadau'r ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU dros yr 20 mlynedd diwethaf, ac mae rhai ardaloedd mewn cyflwr o amddifadedd parhaus. Mae'n bwysig nodi bod pocedi o amddifadedd hefyd sydd wedi'u hamgylchynu gan leoedd llai difreintiedig ym mhob rhanbarth o'r DU. | | | |
| **Twf poblogaeth a demograffeg – mae poblogaeth y DU yn tyfu, ac mae tuedd gyffredinol sylfaenol tuag at boblogaeth sy'n heneiddio, er bod ardaloedd sydd â phroffiliau poblogaeth iau. Mae'r nodweddion demograffig hyn yn cyfrannu at batrwm cymhleth o gymunedau sy'n cyferbynnu i raddau helaeth, gyda gofynion gwahanol ar gyfer** | **Cynyddu**<br><br>Rhagwelir y bydd twf y boblogaeth yn parhau i gynyddu ar draws y DU ac mae tuedd gyffredinol tuag at boblogaeth sy'n heneiddio. | Disgwylir y bydd twf poblogaeth yng Nghymru a Lloegr (ynghyd â'r DU yn gyffredinol) yn y blynyddoedd i ddod, a bydd twf yng nghyfran y trigolion hŷn. Yn Lloegr yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y boblogaeth hŷn yn cynyddu o 18.2% i 20.7% o gyfanswm y boblogaeth rhwng canol 2018 a chanol 2028.<br><br>Bydd y twf cyffredinol hwn yn y boblogaeth yn anghyson ar draws y wlad, ac mae'n | Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau annhegwch ym maes iechyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **seilwaith economaidd a chymdeithasol.**<br><br>Poblogaeth Lloegr yng nghanol 2019 oedd 56,536,419 sy'n cyfrif am 84% o boblogaeth y DU. Poblogaeth Cymru yng nghanol 2019 oedd 3,105,410 sy'n cyfrif am 5% o boblogaeth y DU. Rhagwelir bod twf poblogaeth y DU ar ei uchaf yn Lloegr (6.5%) ac ar ei isaf yng Nghymru (1.4%). Rhagwelir y bydd y gyfradd twf rhanbarthol uchaf mewn aelwydydd yn digwydd yn Ne Orllewin Lloegr, a rhagwelir mai Gogledd Ddwyrain Lloegr fydd â'r gyfradd arafaf, a rhagwelir bod rhanbarthau gogledd Lloegr yn gyffredinol yn debygol o dyfu'n arafach na phob rhanbarth arall yn Lloegr dros y 10 mlynedd nesaf.<br><br>Mae'r awdurdodau lleol sydd â'r cyfrannau uchaf o bobl hŷn yn y DU i'w gweld amlaf yn ardaloedd arfordirol de a dwyrain Lloegr.<br><br>Gwasgarwyd poblogaeth y DU yn anwastad, gyda dwysedd y boblogaeth yn amrywio o 5,700 o bobl fesul cilomedr sgwâr ar draws | | fwyaf tebygol y bydd y twf poblogaeth yn canolbwyntio ar ardaloedd trefol mwy (er y gallai'r symud i weithio gartref a brysurwyd gan COVID-19 yn arwain at oblygiadau i drefi llai, pentrefi ac ardaloedd gwledig). Mae'n bosibl y bydd ardaloedd gwledig a phentrefi llai yn profi demograffeg sy'n mynd yn gynyddol hŷn (fel y byddai ardaloedd llai difreintiedig), ond eto, nid yw goblygiadau COVID-19 yn glir yn hyn o beth.<br><br>Er mwyn sicrhau bod digon o drydan ar gael i ateb y galw, bydd yn rhaid adeiladu seilwaith trydan newydd i gymryd lle cynnyrch o orsafoedd sy'n dirwyn i ben ac i sicrhau y gall y Deyrnas Unedig ateb y galw cynyddol. Hyd yn oed gyda gwelliannau mawr mewn effeithlonrwydd ynni cyffredinol, a mwy o hyblygrwydd yn y system ynni, mae dadansoddiad y Llywodraeth yn awgrymu bod y galw am drydan yn debygol o gynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf a gallai fwy na dyblu erbyn 2050 wrth i rannau mawr o ddefnyddiau trafnidiaeth, gwresogi a diwydiant ddatgarboneiddio drwy newid o danwydd ffosil i drydan carbon isel. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llundain i lai na 50 o bobl fesul cilomedr sgwâr yn awdurdodau lleol mwyaf gwledig y DU.<br><br>Mae de-ddwyrain Lloegr, yn enwedig Llundain a'r ardaloedd cyfagos, yn boblog iawn. Mae ardaloedd trefol mawr ar hyd arfordir de Lloegr, gan gynnwys Brighton, Southampton, Portsmouth a Bournemouth. Mae ardaloedd trefol mawr yng nghanolbarth a gogledd orllewin Lloegr hefyd, gan gynnwys Birmingham, Caerlŷr, Nottingham, Manceinion Fwyaf a Lerpwl. Mae dwyrain, gogledd ddwyrain a de orllewin Lloegr yn cynnwys llai o aneddiadau mawr, ond mae yna ardaloedd trefol mawr yn y rhanbarthau hyn, gan gynnwys Newcastle, Sunderland, Leeds a Bryste.<br><br>Yr ardal fwyaf poblog yng Nghymru yw arfordir y de, lle mae ardaloedd trefol mawr Caerdydd, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe. Mae llai o ardaloedd trefol mawr ar arfordir y gogledd, ond mae ardaloedd o boblogaeth yno yn y | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhyl, Bae Colwyn a Bangor. Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru mae trefi a phentrefi llai ledled y rhanbarthau. | | | |
| **Cymunedau: Cefnogi Seilwaith Ffisegol – mae buddsoddiad mewn seilwaith yn cael ei ddarparu gan amrywiaeth o ddarparwyr ledled y DU a gall fod yn adweithiol yn aml. Mae cynlluniau sylweddol i gael seilwaith newydd, neu uwchraddio'r seilwaith presennol, ar draws amryw o sectorau.** Mae hyn yn cynnwys y sector Ynni - er mwyn sicrhau bod digon o drydan ar gael i ateb y galw, bydd yn rhaid adeiladu seilwaith trydan newydd i gymryd lle cynnyrch o orsafoedd sy'n dirwyn i ben ac i sicrhau y gall y DU ateb y galw cynyddol. Hyd yn oed gyda gwelliannau mawr mewn effeithlonrwydd ynni cyffredinol, a mwy o hyblygrwydd yn y system ynni, mae dadansoddiad y Llywodraeth yn awgrymu bod y galw am drydan yn debygol o gynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf a gallai fwy na dyblu erbyn 2050 | **Gwella**<br><br>Mae amrywiaeth o raglenni a chynlluniau buddsoddi mewn seilwaith yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith a dylai'r rhain barhau i wella'r seilwaith digidol, cyfleustodau a thrafnidiaeth ategol i gefnogi lefelau twf. | Yn ogystal â chynhyrchu a dosbarthu pŵer niwclear, bydd angen i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ystyried effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar y rhwydwaith trafnidiaeth, gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a môr, a bydd angen edrych sut gall datblygiadau newydd i gynhyrchu pŵer niwclear ddarparu cymorth ar gyfer defnyddio cerbydau trydan a dulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth, gan gynnwys ar gyfer cludo nwyddau. | Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau effeithiau niweidiol ar y rhwydwaith trafnidiaeth strategol a'r tarfu ar wasanaethau a seilwaith sylfaenol<br><br>Hyrwyddo economi gref gyda chyfleoedd i gymunedau lleol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| wrth i rannau mawr o ddefnyddiau trafnidiaeth, gwresogi a diwydiant ddatgarboneiddio drwy newid o danwydd ffosil i drydan carbon isel.<br><br>Mae rhwydwaith cynhyrchu a dosbarthu trydan sefydledig ledled y Deyrnas Unedig, sy’n cael ei ddefnyddio fwyfwy ar gyfer yr ehangiad yn y rhwydwaith gwefru cerbydau trydan. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae’r ddarpariaeth fwyaf o gapasiti rhwydwaith trydan yn yr ardaloedd mwy trefol. Mae’r rhwydwaith hwn yn cael ei gyflenwi fwyfwy gan ffynonellau adnewyddadwy.<br><br>Mae’r rhwydwaith rheilffyrdd strategol yn Lloegr wedi datblygu’n dda. Mae pob un o’r dinasoedd mwyaf wedi eu cysylltu â’r rhwydwaith, a felly hefyd y rhan fwyaf o drefi mawr. Lleolir rhwydweithiau rheilffyrdd helaeth o amgylch cytrefi mawr fel Llundain a Manceinion Fwyaf, ac mae’r dinasoedd mwyaf yng nghanolbarth Lloegr wedi’u cysylltu’n dda. Nid yw rheilffyrdd yn gwasanaethu | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ardaloedd anghysbell, gwledig ac arfordirol cystal. Mae cysylltiadau rheilffyrdd da ar arfordir gogleddol a deheuol Cymru, sy'n cysylltu'r dinasoedd arfordirol mwyaf fel Caerdydd ac Abertawe yn y de, a Llandudno, Bangor a Chaergybi yn y gogledd. Ychydig iawn o linellau cangen o bwys sy'n ymestyn o'r cysylltiadau hyn, ac mae'r gwasanaeth rheilffyrdd yn gymharol wael yn rhanbarthau canolbarth a gorllewin Cymru.<br><br>Mae gan Loegr rwydwaith cynhwysfawr o draffyrdd a ffyrdd A. Mae traffyrdd yn gwasanaethu'r holl ddinasoedd mwyaf, ac mae trefi a phentrefi mwy yn cael eu cysylltu gan lwybrau A.  Mae ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan y cysylltiadau hyn yn wledig ar y cyfan ac mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn isel.<br><br>Arfordiroedd de a gogledd Cymru yw'r unig ardaloedd sydd â chysylltiadau â thraffyrdd. Gwasanaethir gweddill y rhanbarthau gan y rhwydwaith ffyrdd | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A sy'n cysylltu'r prif drefi a phentrefi. Yn gymharol, mae llai o ddarpariaeth o gysylltiadau rhwydwaith strategol yn rhanbarthau'r canolbarth ac yn yr ardaloedd mynyddig.<br><br>Mae meysydd awyr o bwys yn agos at lawer o'r canolfannau trefol pwysig fel Llundain (amrywiol), Manceinion, Birmingham, Bryste, Lerpwl, Leeds a Newcastle, gyda meysydd awyr llai yn Southampton, Caerwysg, Bournemouth, Southend a Norwich. Sylwch fod y maes awyr yn Sheffield Doncaster wedi rhoi'r gorau i weithredu ym mis Tachwedd 2022. Ceir hefyd nifer fawr o feysydd awyr llai a rhai sy'n ymwneud ag amddiffyn neu sefydliadau diwydiannol penodol, fel yr un ym Mhenarlâg yng Ngogledd Cymru sy'n gwasanaethu Airbus. Yng Nghymru, mae un maes awyr mawr yng Nghaerdydd.<br><br>Fel y byddech chi'n ei ddisgwyl, mae seilwaith dŵr gwastraff sylweddol ar draws yr ardal, fodd bynnag, fel gydag ardaloedd eraill, | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| mae problemau gwaddol ac o ran capasiti gyda rhai elfennau. Er enghraifft, mae systemau carthffosydd cyfun ac ar wahân mewn llawer o ardaloedd o hyd ar gyfer casglu'r holl ddŵr gwastraff a charthffosiaeth ac o dan amodau stormydd trwm, gall fynd y tu hwnt i gapasiti'r garthffos. O ganlyniad, mae'r ardaloedd hyn yn wynebu risg uwch na'r cyfartaledd o ran diffyg capasiti mewn carthffosydd ac maent hefyd yn cynnwys sawl gollyngiad gorlif yn aml yn ystod stormydd.<br><br>Mae darpariaeth rhwydweithiau nwy'n amrywio ledled y wlad.<br><br>Ar draws y DU, lleolir yr ardaloedd sydd â band eang gwibgyswllt mewn ardaloedd preswyl trefol yn bennaf, er y dylid nodi bod pocedi mewn llawer o ardaloedd trefol lle mai dim ond band eang safonol sydd ar gael. | | | |
| **Cymunedau: Iechyd corfforol a lles meddyliol – yn gyffredinol, mae gwahaniaethau sylweddol** | **Sefydlog / Ansicr** | Yn anuniongyrchol, gallai effeithiau eilaidd polisïau sy'n helpu i greu amgylcheddau iach wella lefelau iechyd a lles. Mae hyn yn | Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **mewn mesuriadau o iechyd corfforol a meddyliol da yn ogystal â disgwyliad oes ledled Cymru a Lloegr. Mae llawer o ddangosyddion yn adlewyrchu dosbarthiad gofodol gweithgarwch economaidd ac incwm, oed, amddifadedd, hil a dangosyddion tebyg - mae angen mynd i'r afael ag anghydraddoldebau gofodol o ran iechyd. Mae gwerthfawrogiad cynyddol hefyd o bwysigrwydd cefnogi iechyd meddwl da a chreu ymdeimlad o les fel ffordd o hyrwyddo cymunedau iach. Mae rôl i'r amgylchedd o ran galluogi pobl i deimlo cysylltiad â lle; a thystiolaeth gynyddol bod gweithgarwch corfforol a mynediad at natur a chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymunedol yn cyfrannu'n sylweddol at iechyd meddwl a llesiant.**<br><br>Mae'n werth nodi bod gwahanol grwpiau neu wahanol rannau o'r DU yn teimlo'n wahanol am eu bywydau ac yn cael profiadau gwahanol, ond nid oes data wedi cael ei ryddhau | Mae yna ansicrwydd ynghylch materion fel COVID-19 ac ansicrwydd economaidd byd-eang cyffredinol. Bydd goblygiadau mawr i'r ffactorau hyn i gyd o ran canlyniadau iechyd i'r boblogaeth ehangach ond yn enwedig i'r rhai mewn grwpiau mwy difreintiedig neu agored i niwed. Mae proffiliau poblogaeth hefyd yn debygol o barhau i fynd yn hŷn – bydd hyn yn debygol o arwain at newidiadau i ganlyniadau iechyd cyffredinol gyda nifer cynyddol o gyflyrau tymor hir a baich cynyddol ar ddarpariaeth a chyfleusterau iechyd. | cynnwys diogelu mannau agored presennol a chreu rhai newydd, cyfrannu at rwydwaith seilwaith gwyrdd amlbwrpas cryfach; a dulliau polisi a luniwyd i leihau llygredd aer a dŵr, lleihau llygredd sŵn a lleihau tagfeydd traffig. Gall egwyddorion dylunio da gyfuno â seilwaith gwyrdd ehangach fel ffactorau allweddol o ran meithrin teithio llesol, hamdden a ffyrdd iach o fyw.<br><br>Dylai'r Datganiad Polisi Cenedlaethol geisio darparu a sicrhau mynediad parhaus at fannau gwyrdd o safon ynghyd â gwella'r amgylchedd ffisegol yn gyffredinol. Dylai hefyd fod yn flaenoriaeth i sicrhau mynediad parhaus neu well at wasanaethau a chyfleusterau cyflogaeth, addysgol, hamdden ac iechyd, ynghyd â darpariaeth ddigonol ohonynt.<br><br>Mae gwell cyfleusterau cerdded a beicio, ynghyd â mannau agored a chyfleusterau hamdden awyr agored yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael cyfleoedd i wneud gweithgarwch corfforol ffurfiol ac anffurfiol yn yr awyr agored mewn ffordd ddiogel. Bydd hyn yn helpu i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ac yn gwella iechyd a lles cyffredinol. | annhegwch ym maes iechyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| eto sy’n cymharu gwahanol ardaloedd yn y DU.<br><br>Nid yw’n glir o hyd pa effaith mae pandemig Covid-19 wedi’i chael ar fesuriadau iechyd a llesiant ledled y DU, ond mae’n amlwg mai pobl ifanc a’r rheini sydd ar y cyflogau isaf sydd wedi teimlo’r effeithiau ar y farchnad lafur sy’n gysylltiedig â’r pandemig fwyaf. Pobl ifanc a’r rheini sydd ar incwm isel yw hefyd y rhai sydd wedi cael eu taro galetaf gan yr argyfyngau ‘costau byw’ a’r effeithiau economaidd eraill.<br><br>Yn ôl data o’r Rhaglen Mesur Llesiant Genedlaethol (MNW), roedd sgôr cyfartalog bodlonrwydd ar fywyd pobl 16 oed a hŷn yn y DU yn 24.3 allan o 35 yn 2018/19.<br><br>Roedd data’r Rhaglen Mesur Llesiant Genedlaethol hefyd yn dangos bod 32.1% o oedolion yn y DU, yn ystod Chwarter 4 2022, yn nodi eu bod yn teimlo bod y pethau maen nhw’n eu gwneud mewn bywyd yn fuddiol iawn. | | Mae angen i’r Datganiad Polisi Cenedlaethol sicrhau bod datblygiadau ynni niwclear yn ddiogel, o ran damweiniau a magu canfyddiad o ddiogelwch. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pan ofynnodd y Rhaglen Mesur Llesiant Genedlaethol i oedolion ddweud pa mor hapus oeddent, dywedodd 29.4% eu bod yn hapus iawn. Yn yr un modd, nododd 23.3% o oedolion ar draws y DU eu bod yn fodlon iawn ar fywyd. | | | |

Sylwch y bydd sylw penodol yn cael ei roi i faterion sy’n ymwneud â’r effaith ar gydraddoldeb o roi’r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar waith mewn asesiad ar wahân i’r Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn. Defnyddir canfyddiadau’r asesiad unigol hwn i lywio’r gwaith o ddatblygu’r Datganiad Polisi Cenedlaethol.

# 6. Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

## 6.1 Rhagarweiniad

Mae'r bennod hon yn nodi Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y bwriedir ei ddefnyddio i asesu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol niwclear newydd. Mae Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys amcanion cynaliadwyedd a chwestiynau arweiniol cysylltiedig. Rhoddir esboniad pellach isod o'r defnydd o amcanion a chwestiynau arweiniol.

## 6.2 Datblygu amcanion cynaliadwyedd a chwestiynau arweiniol

Nid yw defnyddio amcanion yn un o ofynion y Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, ond mae eu defnyddio yn ddull cydnabyddedig o asesu effeithiau cynllun neu raglen. Mae'r dechneg hon hefyd yn cael ei chynnig yn y canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd.

Diffiniwyd yr amcanion cynaliadwyedd gan ddefnyddio'r canlynol:

- Adolygu Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni;
- Casglu data sylfaenol; a
- Nodi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd.

Mae diffinio amcanion cyn paratoi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol niwclear newydd yn rhoi syniad cynnar o'r materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd y bydd angen rhoi sylw iddynt yn y broses o lunio'r Datganiad Polisi Cenedlaethol. Geiriwyd amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd fel eu bod yn adlewyrchu un cyfeiriad newid a ddymunir ar gyfer y thema dan sylw ac er eu bod yn cefnogi ei gilydd, nid ydynt yn gorgyffwrdd ag amcanion eraill. Mae'r amcanion yn cynnwys amcanion cynaliadwyedd a osodir yn allanol ac amcanion eraill a luniwyd yn benodol mewn perthynas â chyd-destun y Datganiad Polisi Cenedlaethol niwclear newydd.

Cefnogir pob amcan cynaliadwyedd gan gwestiynau arweiniol a'u bwriad yw ymdrin â'r ystod o faterion a chyfleoedd cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â'r amcanion cynaliadwyedd. Bydd cwestiynau'r canllaw yn helpu'r broses asesu gyffredinol ac yn helpu i sicrhau bod effeithiau sylweddol (cadarnhaol a negyddol) yn cael eu nodi. O'r herwydd, mae'r cwestiynau arweiniol yn egluro'r dehongliad arfaethedig o bob amcan i gefnogi'r newid cyfeiriad a geisir drwy weithredu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ac yn cofnodi'r effeithiau amrywiol sy'n gysylltiedig â datblygu, gweithredu a datgomisiynu'r technolegau niwclear amrywiol sy'n cael sylw yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol.

## 6.3 Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

Nodwyd Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd isod yn Nhabl 6-1.

**Cwestiwn 6 yr Ymgynghoriad: A yw amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r cwestiynau penderfynu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer asesu perfformiad cynaliadwyedd y Datganiad Polisi Cenedlaethol sydd ar y gweill?**

| Nac ydi | Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | Cwestiynau Arweiniol |
|---|---|---|
| 1 | Yn gyson â'r targed cenedlaethol o leihau allyriadau carbon i Sero Net erbyn 2050 | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd...<br>• Yn lleihau allyriadau carbon y portffolio cenedlaethol o seilwaith ynni mawr?<br>• Yn lleihau allyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol o'r holl nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys carbon deuocsid, yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu?<br>• Yn sicrhau'r cyflenwad mwyaf posibl o ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy/carbon isel / defnyddio ynni carbon isel/adnewyddadwy?<br>• Yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio gwres gwastraff?<br>• Yn defnyddio allyriadau carbon negyddol i wrthbwyso allyriadau gweddilliol o ynni fel Bio-ynni sy'n Casglu a Storio Carbon (BECCS) ac Atebion sy'n seiliedig ar Natur?<br>• Creu sinciau carbon newydd/ tynnu carbon drwy ddal a storio naturiol, gan gynnwys drwy gynefinoedd naturiol, Seilwaith gwyrdd-glas a phriddoedd? |
| 2 | Sicrhau ein bod yn addasu gymaint ag y gallwn ac mor wydn â phosibl yn wyneb newid yn yr hinsawdd* | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd...<br>• Yn hybu'r gwaith o ddiogelu rhag effeithiau a risgiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol (e.e. llifogydd, lefel y môr yn codi, erydu arfordirol a newid mewn patrymau tywydd)?<br>• Yn annog cynllun ar gyfer addasu'n llwyddiannus i'r newidiadau a ragwelir yn amodau'r tywydd ac amlder digwyddiadau tywydd eithafol (rhewi, tywydd poeth, stormydd dwys)?<br>• Yn mynd i'r afael â'r risgiau a achosir gan yr hinsawdd o fethiannau cronnus o rwydweithiau ynni â seilwaith rhyngddibynnol?<br>• Yn arwain at ddatblygu seilwaith mawr sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd dros ei oes, gan ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd, heb gynyddu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill a chanfod cyfleoedd i leihau'r risg yn gyffredinol? |

| | | |
|---|---|---|
| | *Mae addasu'n ymwneud â chymryd camau i fyw gydag effeithiau newid yn yr hinsawdd fel adeiladu waliau cei a rhwystrau llifogydd. Gwytnwch yw gallu system i arsugno ac adfer ar ôl digwyddiad niweidiol. | • Yn osgoi datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol?<br>• Yn rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol, yn enwedig drwy weithio gyda phrosesau naturiol?<br>• Yn sicrhau bod mesurau cydbwyso priodol ar waith pan nad oes dewis arall ond colli tiroedd o ardaloedd o orlifdir?<br>• Yn cyfrannu at wella rhwydweithiau seilwaith gwyrdd i gefnogi'r gwaith o addasu i effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd? |
| 3 | Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi cadernid a swyddogaethau'r ecosystem | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd...<br>• Yn diogelu ac yn gwella safleoedd sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, gan gynnwys safleoedd a allai gael eu dynodi a rhai sydd wedi'u cyflwyno am ddynodiad?<br>• Yn diogelu a gwella cynefinoedd a phoblogaethau gwerthfawr o rywogaethau a warchodir/ rhywogaethau prin ar safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol, gan gynnwys Safleoedd Bywyd Gwyllt Allweddol, Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol a Gwarchodfeydd Natur Lleol?<br>• Yn diogelu'r strwythur a'r swyddogaeth/prosesau ecosystemau, gan gynnwys yn yr amgylchedd morol?<br>• Yn diogelu a gwella'r Rhwydwaith Adfer Natur?<br>• Yn diogelu a gwella cynefinoedd â blaenoriaeth, a chynefin rhywogaethau â blaenoriaeth?<br>• Yn lleihau'r effeithiau ar rywogaethau blaenoriaeth, gan gynnwys yn yr amgylchedd morol?<br>• Yn lleihau darnio cynefinoedd a gwahanu llwybrau mudo a chymudo?<br>• Yn achosi cyn lleied â phosibl o lygredd (aer, pridd, dŵr) a allai effeithio ar fioamrywiaeth? |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Yn lleihau'r newid i brosesau geomorffolegol (fel erydu arfordirol) a allai effeithio ar fioamrywiaeth?<br>• Yn hyrwyddo creu neu adfer cynefinoedd newydd a chysylltiadau â chynefinoedd presennol?<br>• Yn diogelu a gwella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach?<br>• Yn gwella gallu bioamrywiaeth i wrthsefyll effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd?<br>• Yn hyrwyddo elw net o ddim llai na 10% mewn bioamrywiaeth ar gyfer unrhyw ddatblygiad seilwaith mawr newydd?<br>• Yn cyfrannu at gyflawni targedau tymor hir ar gyfer Ardaloedd Diogelu'r Môr, rhywogaethau sydd mewn perygl o ddiflannu'n llwyr a gorchudd coed? |
| 4 | Diogelu a gwella safleoedd sydd wedi'u dynodi am eu pwysigrwydd rhyngwladol at ddibenion cadwraeth natur<br><br>*(yn gysylltiedig â phroses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni)* | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd...<br><br>• Yn osgoi colli, neu achosi niwed anuniongyrchol i 'Safleoedd Cynefinoedd' (Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a safleoedd Ramsar), gan gynnwys rhai a allai gael eu dynodi (darpar Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig, Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol a safleoedd Ramsar arfaethedig) ar y tir ac ar y môr?<br>• Cefnogi gwelliannau parhaus i statws cyflwr rhwydwaith safleoedd cenedlaethol y DU? |
| 5 | Diogelu a gwella asedau treftadaeth | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd... |

| | | |
|---|---|---|
| | ddiwylliannol a'u hamgylchoedd, a'r amgylchedd hanesyddol ehangach | • Yn gwarchod a gwella asedau treftadaeth dynodedig a'u hamgylchoedd (Safleoedd Treftadaeth y Byd, Henebion Rhestredig, Adeiladau a strwythurau Rhestredig, Parciau a Gerddi Cofrestredig, Meysydd Brwydr Cofrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), yn ogystal ag asedau morol fel llongddrylliadau gwarchodedig?<br>• Yn diogelu ac yn gwella asedau treftadaeth sydd heb eu dynodi a/neu sydd wedi'u rhestru'n lleol (gan gynnwys asedau treftadaeth ac archaeoleg sydd newydd eu darganfod) a'u hamgylchoedd?<br>• Yn mynd i'r afael ag asedau treftadaeth sydd mewn perygl, neu eu diogelu rhag bygythiadau pellach?<br>• Yn osgoi niwed sylweddol i asedau treftadaeth, er enghraifft o ganlyniad i gynhyrchu sŵn, llygryddion ac ymyrraeth weledol?<br>• Yn sicrhau asesiadau archaeolegol priodol cyn datblygu?<br>• Yn cynnal neu'n gwella'r dehongliad, y ddealltwriaeth a'r gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol?<br>• Yn cynyddu mewn mynediad y cyhoedd at asedau treftadaeth? |
| 6 | Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a'r dyfrweddau ac yn gwarchod a gwella amwynder gweledol | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd...<br>• Yn sicrhau bod datblygiadau'n cael eu hosgoi mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol?<br>• Yn cefnogi cyfanrwydd unrhyw ardaloedd sydd wedi'u dynodi am eu gwerth tirwedd a'u harddwch naturiol, gan gynnwys ar y cyd â darpariaethau unrhyw Gynllun Rheoli perthnasol (e.e. Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Arfordiroedd Treftadaeth a dynodiadau tirwedd lleol)?<br>• Yn gwarchod a gwella cymeriad neu amgylchoedd cynhenid tirweddau, trefluniau neu ddyfrweddau lleol? |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Yn lleihau llygredd sŵn a golau o waith adeiladu a gweithgareddau gweithredol ar amwynder preswyl ac ar leoliadau sensitif, derbynyddion a golygfeydd?<br>• Yn atal gostyngiad mewn llonyddwch / cynnal llonyddwch?<br>• Yn gwarchod, diogelu a gwella asedau amgylcheddol naturiol (e.e. parciau a mannau gwyrdd, tir comin, coetiroedd / coedwigoedd ac ati) lle maent yn cyfrannu at ansawdd tirlun a threflun? |
| 7 | Gwarchod a gwella amgylchedd y dŵr | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd...<br>• Yn diogelu ansawdd dŵr daear, wyneb, morydol ac arfordirol yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Fframwaith Strategaeth Forol?<br>• Yn arwain at newidiadau i ddosbarthiad a llif dŵr daear?<br>• Yn diogelu argaeledd adnoddau dŵr (dŵr wyneb a dŵr daear)?<br>• Yn defnyddio cyn lleied â phosibl o adnoddau dŵr?<br>• Yn diogelu cyfanrwydd prosesau arfordirol a morydol?<br>• Yn lleihau gollyngiadau gweithredol a damweiniol i'r amgylchedd dŵr?<br>• Yn diogelu ansawdd gwely'r môr a'i waddodion, ac osgoi effeithiau sylweddol ar forffoleg gwely'r môr a phrosesau cludo gwaddodion? |
| 8 | Diogelu a gwella ansawdd aer ar raddfa leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd...<br>• Yn lleihau allyriadau llwch a llygryddion aer eraill sy'n effeithio ar iechyd pobl neu fioamrywiaeth?<br>• Gwella ansawdd aer mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ac osgoi'r angen am Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer newydd?<br>• Hyrwyddo gwelliannau i rwydweithiau seilwaith gwyrdd er mwyn helpu i wella ansawdd yr aer? |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | Diogelu adnoddau pridd, hyrwyddo'r defnydd o dir llwyd ac osgoi halogi tir | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd...<br>• Yn helpu i hwyluso ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen?<br>• Yn osgoi datblygu ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas?<br>• Yn sicrhau bod adnoddau pridd yn cael eu diogelu a lleihau'r posibilrwydd bod ansawdd y pridd yn cael ei ddiraddio?<br>• Ceisio adfer tir halogedig? |
| 10 | Gwarchod, gwella a hyrwyddo geoamrywiaeth | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd...<br>• Yn gwarchod ac yn gwella adnoddau geoamrywiaeth?<br>• Yn gwarchod neu'n gwella Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd wedi'u dynodi oherwydd eu budd daearegol?<br>• Yn osgoi diraddio a chael gwared ar Safle Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth lle bynnag y bo modd?<br>• Yn diogelu geoamrywiaeth ar y draethlin a'r dyfroedd morol?<br>• Yn cefnogi mynediad at geoamrywiaeth, ei ddehongli a'i ddeall? |
| 11 | Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau annhegwch ym maes iechyd | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd...<br>• Yn atal gollyngiadau ymbelydrol damweiniol neu'n atal cysylltiad ag ymbelydredd, gan gynnwys storio gwastraff dros dro a allai gael effaith niweidiol ar iechyd cymunedau lleol?<br>• Yn arwain at bryderon / canfyddiad uwch o berygl?<br>• Yn lleihau'r materion sy'n gallu effeithio ar gymunedau a'u cyfleusterau, gan gynnwys llygredd aer, sŵn a golau, yn ogystal â dirgryndod?<br>• Yn arwain at golli tir hamdden ac amwynder neu golli mynediad atynt? |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Yn darparu ar gyfer cyfleusterau sy'n gallu hybu mwy o ryngweithio cymdeithasol a ffyrdd mwy egnïol o fyw a mwynhad o gefn gwlad a'r arfordir?<br>• Yn hyrwyddo mentrau sy'n gwella diogelwch a diogelwch personol i bawb?<br>• Yn lleihau anghydraddoldebau rhwng gwahanol grwpiau mewn cymdeithas? |
| 12 | Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau effeithiau niweidiol ar y rhwydwaith trafnidiaeth strategol a'r tarfu ar wasanaethau a seilwaith sylfaenol | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd...<br>• Yn atal newidiadau niweidiol i seilwaith trafnidiaeth strategol fel ffyrdd/rheilffyrdd/meysydd awyr?<br>• Yn atal colli neu darfu ar wasanaethau a seilwaith sylfaenol (e.e. telegyfathrebu, trydan, nwy)?<br>• Yn hyrwyddo cludo nwyddau a phobl drwy ddulliau trafnidiaeth carbon isel/di-garbon?<br>• Yn lleihau pellteroedd teithio i'r gwaith ac yn lleihau'r angen i allgymudo? |
| 13 | Hyrwyddo economi gref gyda chyfleoedd i gymunedau lleol | A fydd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd..<br>• Yn cefnogi gwell diogelwch, dibynadwyedd a fforddiadwyedd y cyflenwad ynni cenedlaethol?<br>• Yn cefnogi creu swyddi dros dro a pharhaol a chynyddu sgiliau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae angen?<br>• Yn cael effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach fel newidiadau i ddemograffeg, gwasanaethau cymunedol, prisiau tai a gwerthoedd tir?<br>• Yn cael effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol?<br>• Yn darparu seilwaith i gefnogi buddsoddiad economaidd yn yr economi leol? |
| 14 | Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau ac asedau naturiol | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear newydd...<br>• Yn darparu lle i storio gwastraff dros dro yn saff a diogel, lle bo angen?<br>• Yn lleihau'r defnydd o ddeunyddiau, ynni ac adnoddau? |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Yn hyrwyddo arferion rheoli gwastraff cynaliadwy yn unol â’r hierarchaeth wastraff?<br>• Yn annog defnydd o ddeunyddiau wedi’u hailgylchu a / neu ddeunyddiau eilaidd?<br>• Yn annog datblygu economi gylchol?<br>• Yn hyrwyddo defnydd o dechnolegau a deunyddiau carbon isel?<br>• Yn cynhyrchu sgil-gynhyrchion gwastraff y mae angen eu rheoli’n briodol?<br>• Yn hyrwyddo’r defnydd o gyflenwyr lleol sy’n defnyddio deunyddiau a gynhyrchir yn lleol ac sy'n dod o ffynonellau cynaliadwy? |

# 6.4 Rhoi Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar Waith

Y cam nesaf fydd asesu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol niwclear newydd a dewisiadau amgen yn erbyn Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Bydd Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael ei ddefnyddio i nodi effeithiau sylweddol tebygol gan gynnwys effeithiau tymor byr, tymor canolig a thymor hir, effeithiau parhaol a dros dro, effeithiau cadarnhaol a negyddol, effeithiau eilaidd a chronnus (gan gynnwys effeithiau synergaidd).

Nodir y meini prawf i bennu effeithiau amgylcheddol arwyddocaol yn Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (Atodlen 1 (2)) ac maent yn cynnwys nodweddion yr effeithiau a'r ardal sy'n debygol o gael ei heffeithio:

(a) tebygolrwydd, hyd, amlder a pha mor bosibl fydd gwrthdroi'r effeithiau;

(b) natur gronnol yr effeithiau;

(c) natur drawsffiniol yr effeithiau;

(d) y risgiau i iechyd pobl neu'r amgylchedd (er enghraifft, oherwydd damweiniau);

(e) maint a graddfa ofodol yr effeithiau (yr ardal ddaearyddol a maint y boblogaeth y mae'n debygol o effeithio arni);

(f) gwerth a pha mor agored i niwed yw'r ardal sy'n debygol o gael ei heffeithio arni yn sgil—

- (i) nodweddion naturiol arbennig neu dreftadaeth ddiwylliannol;
- (Ii) rhagori ar safonau ansawdd amgylcheddol neu werthoedd terfyn; neu
- (iii) defnydd dwys o dir; ac

(g) yr effeithiau ar ardaloedd neu dirweddau sydd â statws gwarchodedig cenedlaethol, Cymunedol neu ryngwladol cydnabyddedig.

Nid oes meini prawf cyfatebol ar gyfer effeithiau sylweddol sy'n gysylltiedig â dimensiynau cymdeithasol ac economaidd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ond mae meini prawf (a) i (e) uchod yr un mor berthnasol.

Er mwyn gallu nodi gwahanol lefelau o effeithiau wrth asesu cynigion polisi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol, defnyddir system sgorio i wahaniaethu o ran maint ac arwyddocâd yr effeithiau. Mae'r system sgorio a gynigir isod yn cyd-fynd â'r un a ddefnyddiwyd yn ddiweddar ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd EN-1 – EN-5 i sicrhau bod gwahanol asesiadau'n gydnaws a bydd yn seiliedig ar y canlynol, gyda phob effaith yn cael sgôr. Sylwch y gall y sgoriau fod yn gymysgedd o rai buddiol a niweidiol.

**Tabl 6-2: Allwedd i werthuso arwyddocâd yr effeithiau a ragwelir**

| Arwyddocâd yr effaith | 'Sgôr' yr effaith | Y rhesymeg dros arwyddocâd yr effaith |
|---|---|---|
| Ystyrir bod effaith gadarnhaol sylweddol yn debygol | ++ | Disgwylir i'r polisi fynd i'r afael â phroblem cynaliadwyedd sy'n bodoli'n barod neu ddarparu gwelliannau i gynaliadwyedd, fel cynnydd net amgylcheddol sylweddol uwchlaw'r polisi presennol/y polisi sydd ar y gweill. |
| Ystyrir fod effaith gadarnhaol fechan yn debygol | + | Disgwylir i'r polisi arwain at enillion net amgylcheddol yn unol â pholisi presennol neu bolisi newydd y llywodraeth NEU arwain at ddiogelu a chadw ased cynaliadwyedd (er enghraifft, safle bioamrywiaeth dynodedig neu ased treftadaeth dynodedig). |
| Dim effaith yn debygol neu'n amherthnasol | 0 | Nid oes disgwyl unrhyw effeithiau rhagweladwy, neu nid yw'r amcan yn berthnasol i'r rhan o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol sy'n cael ei asesu. |
| Ystyrir fod effaith negyddol fechan yn debygol | - | Disgwylir i'r polisi arwain at effeithiau niweidiol llai sylweddol ar raddfa lai, y gellir eu lliniaru drwy fesurau safonol ac arferion gorau. |
| Ystyrir fod effaith negyddol sylweddol yn debygol | -- | Disgwylir i'r polisi arwain at effeithiau niweidiol ar raddfa fwy, na ellir eu lliniaru NEU bydd angen datrysiadau lliniaru helaeth a phwrpasol (efallai y bydd angen astudiaethau pellach i ddod o hyd i atebion priodol). |

Dylid nodi y caiff y sgoriau a geir eu hystyried 'yn y rownd' yn sgil y cwestiynau cymorth asesu a dyfarniad a wneir ynghylch sgôr crynodeb briodol ar gyfer yr agwedd honno ar y Datganiad Polisi Cenedlaethol sy'n cael ei hystyried. Pe bai effaith arwyddocaol yn cael ei nodi, bydd arwyddocâd o'r fath yn drech na phob sgôr arall nad yw'n arwyddocaol. Bydd y sgôr cryno hwn yn cael ei nodi ym mhrif Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn erbyn amcan cysylltiedig yr Arfarniad, gyda sylwadau priodol. Bydd y sylwebaeth a ddarperir yn egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r sgôr cryno ar y raddfa uchod. Bydd unrhyw argymhellion yn cael eu nodi, yn ogystal â chyfeiriadau at fesurau lliniaru priodol a fydd yn ceisio sicrhau cymaint o effeithiau manteisiol â phosibl, gan leihau (neu osgoi) unrhyw effeithiau niweidiol posibl a nodwyd.

**Cwestiwn 7 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno bod cysoni graddfa asesu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd â graddfa'r Arfarniad o Gynaliadwyedd EN-1 i EN-5 yn ddull rhesymol?**

# 7. Y camau nesaf

Ar ôl cael sylwadau'r ymgynghoriad, byddant yn cael eu hadolygu a bydd addasiadau'n cael eu gwneud i gwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd os bydd angen. Mae Cam B proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys asesu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol niwclear newydd a dewisiadau eraill. Bydd Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael ei gynhyrchu ochr yn ochr â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer ymgynghori arnynt.

**Cwestiwn 8 yr Ymgynghoriad: Oes gennych chi ragor o awgrymiadau ynghylch cwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'i asesiad arfaethedig o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd?**

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o: www.gov.uk/government/consultations/approach-to-siting-new-nuclear-power-stations-beyond-2025

Os ydych angen fersiwn o'r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch e-bost at alt.formats@energysecurity.gov.uk Dywedwch wrthym pa fformat sydd ei angen arnoch. Bydd yn help i ni os dywedwch chi pa dechnoleg gynorthwyol rydych chi'n ei defnyddio.